



Planning Inspectorate  
Arolygiaeth Gynllunio

# **ADRODDIAD ar y GOBLYGIADAU i SAFLEOEDD EWROPEAIDD**

## **Prosiect Pŵer Carbon Isel Arfaethedig Cei Connah**

Adroddiad gan yr Awdurdod Archwilio a baratowyd gyda  
chymorth y Tîm Gwasanaethau Amgylcheddol

Cyfeirnod yr Arolygiaeth Gynllunio: EN010166

05 Mai 2026

## TABL CYNNWYS

<b>TABL CYNNWYS</b> .....	<b>I</b>
<b>1 CYFLWYNIAD</b> .....	<b>1</b>
1.1 CEFNDIR .....	1
1.2 DOGFENNAU A DDEFNYDDIWD I LYWIO'R RIES HWN .....	2
1.3 CEISIADAU AM GAEL GWNEUD NEWID .....	2
1.4 CWESTIYNAU'R RIES .....	4
1.5 MATERION HRA A YSTYRIWYD YN YSTOD YR ARCHWILIAD .....	4
<b>2 EFFEITHIAU ARWYDDOCAOL TEBYGOL</b> .....	<b>5</b>
2.1 SAFLEOEDD EWROPEAIDD A YSTYRIWYD .....	5
2.2 LLWYBRAU EFFAITH POSIBL .....	6
2.3 EFFEITHIAU AR Y CYD .....	7
2.4 ASESIAD YR YMGEISYDD .....	10
2.5 MATERION ARCHWILIAD .....	11
2.6 CRYNODEB O GANLYNIADAU'R ARCHWILIAD O RAN SGRINIO.....	34
<b>3 EFFEITHIAU ANDWYOL AR GYFANRWYDD</b> .....	<b>35</b>
3.1 AMCANION CADWRAETH .....	35
3.2 ASESIAD YR YMGEISYDD .....	35
3.3 MATERION ARCHWILIAD .....	36
3.4 CRYNODEB O GANLYNIADAU'R ARCHWILIAD O RAN EFFEITHIAU ANDWYOL AR GYFANRWYDD.....	84
<b>4 RHANDDIRYMIADAU O'R RHEOLIADAU</b> .....	<b>85</b>
4.1 TROSOLWG.....	85
4.2 DATRYSIADAU AMGEN .....	85
4.3 ACHOS IROPI .....	86
4.4 MESURAU DIGOLLEDU .....	87
<b>5 SYLWADAU I GLOI</b> .....	<b>91</b>
<b>ATODIAD 1 DEALLTWRIAETH YR EXA O'R SEFYLLFA AR ADEG CYHOEDDI'R RIES</b> .....	<b>92</b>

# 1 CYFLWYNIAD

## 1.1 Cefndir

1.1.1 Mae Uniper UK Limited ('yr ymgeisydd') wedi gwneud cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu (dDCO) o dan adran 37 Deddf Cynllunio 2008 (PA2008) ar gyfer Prosiect Pŵer Carbon Isel arfaethedig Cei Connah ('y datblygiad arfaethedig'). Ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol (SoS) dros Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, penodwyd Awdurdod Archwilio (ExA) i gynnal archwiliad o'r cais. Bydd yr ExA yn adrodd ar ei ganfyddiadau a'i gasgliadau ac yn gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol ynglŷn â'r penderfyniad i'w wneud ar y cais.

1.1.2 O ran ceisiadau a gyflwynir o dan gyfundrefn Deddf Cynllunio 2008, yr Ysgrifennydd Gwladol perthnasol yw'r Awdurdod Cymwys (CA) at ddibenion Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 ('y Rheoliadau Cynefinoedd'). Bydd y canfyddiadau a'r casgliadau ynglŷn â materion cadwraeth natur a adroddir gan yr ExA yn cynorthwyo'r Ysgrifennydd Gwladol i gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Rheoliadau Cynefinoedd.

1.1.3 Mae'r Adroddiad ar y Goblygiadau i Safleoedd Ewropeaidd (RIES) hwn yn cofnodi a chyfeirio at y wybodaeth am effeithiau posibl ar safleoedd Ewropeaidd a ddarparwyd yn y cais dDCO ac a gyflwynwyd yn ystod yr archwiliad gan yr ymgeisydd a phartïon â buddiant (IPau), hyd at ddyddiad cau 4 (D4) yr archwiliad (31 Mawrth 2026). Nid yw'n ddogfen annibynnol a dylid ei darllen ar y cyd â'r dogfennau archwiliad y cyfeirir atynt. Pan gyflwynir cyfeiriadau at ddogfennau mewn cromfachau sgwâr [ ] yn nhestun yr adroddiad hwn, gellir dod o hyd i'r cyfeiriad hwnnw yn Llyfrgell yr Archwiliad a gyhoeddwyd ar y wefan 'Dod o hyd i Brosiect Seilwaith Cenedlaethol' trwy ddilyn y ddolen isod:

<https://national-infrastructure-consenting.planninginspectorate.gov.uk/EN010166>

1.1.4 At ddibenion y RIES hwn, yn unol â'r Rheoliadau Cynefinoedd a pholisïau perthnasol y Llywodraeth, mae'r term 'safleoedd Ewropeaidd' yn cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau), ACAau ymgeisiol, ACAau arfaethedig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAau), AGAau posibl, safleoedd Ramsar rhestredig ac arfaethedig, a safleoedd a amlygwyd neu sy'n ofynnol i ddiogolledu ar gyfer effeithiau andwyol ar unrhyw un o'r safleoedd hyn. Er hwylustod darllen, mae'r RIES hwn hefyd yn defnyddio'r term 'safle Ewropeaidd' i olygu 'safleoedd Ewropeaidd' a ddiffinnir yn Rheoliadau Cynefinoedd 2017 a 'Safleoedd Morol Ewropeaidd' a ddiffinnir yn Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017, oni nodir fel arall. Mae 'Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol y Deyrnas Unedig' yn cyfeirio at ACAau ac AGAau sy'n perthyn i'r Deyrnas Unedig sydd eisoes wedi'u dynodi o dan y Cyfarwyddebau ac unrhyw safleoedd ychwanegol a ddynodwyd o dan y Rheoliadau Cynefinoedd.

1.1.5 Cyhoeddir y RIES hwn er mwyn sicrhau yr ymgynghorir yn ffurfiol â phartïon â buddiant, gan gynnwys y Cyrff Cadwraeth Natur Priodol (ANCBau) –

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Natural England (NE) – ar faterion yn ymwneud â'r Rheoliadau Cynefinoedd. Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ddibynnu ar y broses hon at ddibenion Rheoliad 63(3) y Rheoliadau Cynefinoedd.

- 1.1.6 Mae hefyd yn ceisio amlygu a chau unrhyw fylchau yn nealltwriaeth yr ExA o safbwyntiau partion â buddiant ar faterion Rheoliadau Cynefinoedd, mewn perthynas â'r holl safleoedd Ewropeaidd a nodweddion cymwys, cyn belled ag y bo'n bosibl, er mwyn cefnogi argymhelliad cadarn a thrwyadl i'r Ysgrifennydd Gwladol.
- 1.1.7 Yn dilyn ymgynghoriad, bydd yr ExA yn ystyried yr ymatebion wrth wneud ei argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol a byddant ar gael i'r Ysgrifennydd Gwladol ynghyd â'r adroddiad hwn. Ni fydd y RIES yn cael ei ddiwygio yn dilyn ymgynghoriad.

## 1.2 Dogfennau a ddefnyddiwyd i lywio'r RIES hwn

- 1.2.1 Roedd Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) yr ymgeisydd ('yr Adroddiad HRA') yn cynnwys y dogfennau canlynol:
    - Adroddiad i Lywio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ('RIHRA') Rev 00 [APP-253], a ddiweddarwyd yn y cais am gael gwneud newid [CR1-105] ac erbyn D4 [REP4-054]
    - Strategaeth Lliniaru Gylfinirod Rev 00 ('CMS') [APP-254] a ddiweddarwyd erbyn D4 [REP4-056]
    - Hysbysiad o randdirymiad HRA arfaethedig heb ragfarnu yng Nghymru ('yr achos rhanddirymiadau') [PDA-003], a ddiweddarwyd erbyn D4 [REP4-078]
    - Strategaeth Creu Morfa Heli Rev 00 [REP3-026]
  - 1.2.2 Daeth yr Adroddiad HRA i'r casgliad y gellid eithrio effeithiau andwyol ar gyfanrwydd (AEol) yr holl safleoedd Ewropeaidd. Fodd bynnag, roedd yr ymgeisydd hefyd wedi darparu achos 'heb ragfarnu' ar y rhanddirymiadau o dan y Rheoliadau Cynefinoedd a chynigion ar gyfer mesurau digolledu. Rhoddir trosolwg o'r materion hyn a manylion y dogfennau perthnasol yn adrannau 3 a 4 y RIES hwn.
  - 1.2.3 Yn ogystal â'r Adroddiad HRA, mae'r RIES yn cyfeirio at sylwadau a gyflwynwyd i'r archwiliad gan bartion â buddiant, dogfennau Gwrandawriad Mater Penodol (ISH), Datganiadau Tir Cyffredin (SoCG) a dogfennau eraill yr archwiliad fel y bo'n berthnasol. Mae'r holl ddogfennau ar gael yn Llyfrgell yr Archwiliad.
- ## 1.3 Ceisiadau am gael gwneud newid
- 1.3.1 Hyd yma, mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno un cais am gael gwneud newid [AS-005] [AS-006], dyddiedig 10 Mawrth 2026, a oedd yn cynnwys chwe newid arfaethedig:

- **Newid arfaethedig 1:** Lleihau Pwerau Caffael Tir yn ymwneud â gorgyffyrddiad â phrosiect Piblinell CO<sub>2</sub> HyNet.
- **Newid arfaethedig 2:** Cydweddu Cynllun Tirwedd y Coridor Cysylltiad CO<sub>2</sub> â Phrosiect Piblinell CO<sub>2</sub> HyNet er mwyn cysondeb.
- **Newid arfaethedig 3:** Addasu Dynodiad Tir sy'n cynnwys mân newidiadau i saith ardal o gynefinoedd a gedwir o fewn y Brif Ardal Ddatblygu a fydd bellach yn cael eu hailddosbarthu fel cyfanswm o oddeutu 1.25 hectar (ha) o gynefin a gollir yn barhaol.
- **Newid arfaethedig 4:** Lleihau uchder stac y Generadur Ager Adennill Gwres (HRSG) o 150 metr (m) Uwchlaw Lefel y Tir (AGL) i 130m AGL, ac uchder yr Amsugnwr Dal Carbon Prosiect (CCP) o 150m AGL i 145m AGL. Lleihau uchafswm paramedrau uchder stac o 150m, yn dilyn ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol gan gynnwys Airbus Operations Limited a gwybodaeth ddylunio wedi'i diweddarau ynglŷn ag allyriadau.
- **Newid arfaethedig 5:** Adleoli cyfleusterau'r contractwyr o fewn y Brif Ardal Ddatblygu i'r unig leoliad a oedd yn bodloni gofynion gweithredu a mynediad Gorsaf Bŵer bresennol Cei Connah.
- **Newid arfaethedig 6:** Cynnig i ehangu'r llawr caled yng Nglanfa Ogleddol Cei Connah i ddarparu'r hyblygrwydd sy'n angenrheidiol ar gyfer danfon offer yn ystod y cam adeiladu. Mae'r ardal ddadlwytho bresennol yn mesur tua 16m wrth 16m, gan ddarparu 256m<sup>2</sup> o le. Cynigir ymestyn yr ardal hon 1,800m<sup>2</sup> yn fras, gyda dau estyniad, un oddeutu 50m wrth 16m (800m<sup>2</sup>) ac un arall 62.5m wrth 16m (1,000m<sup>2</sup>), gan gynyddu'r ardal gyfan i oddeutu 2,056m<sup>2</sup>.

1.3.2 Derbyniwyd y newidiadau arfaethedig gan yr ExA ar 7 Ebrill 2026 [PD-014].

### **Goblygiadau i'r HRA**

- 1.3.3 Mae materion sy'n berthnasol i'r HRA sy'n deillio o'r cais hwn am gael gwneud newid wedi'u cynnwys yn adran 3 hysbysiad o newid yr ymgeisydd [AS-005].
- 1.3.4 Nid oes gan newidiadau arfaethedig 1, 2 a 3 oblygiadau i'r RIHRA nac asesiadau amgylcheddol.
- 1.3.5 O ganlyniad i newid arfaethedig 4, gwnaed mân addasiad i'r ffigurau ansawdd aer a adroddwyd, a chyflwynodd yr ymgeisydd RIHRA wedi'i ddiweddarau ochr yn ochr â'r cais am gael gwneud newid. Ni amlygwyd unrhyw effeithiau arwyddocaol newydd.
- 1.3.6 Nid yw newidiadau arfaethedig 5 a 6 yn effeithio ar yr RIHRA oherwydd bod newid arfaethedig 5 yn ymwneud ag adleoli ardaloedd gwaith o fewn ôl troed adeiledig presennol yr orsaf bŵer. Yn ogystal, mae newid arfaethedig 6 yn ddigon pell oddi wrth safleoedd Ewropeaidd fel nad oes unrhyw lwybrau effaith yn bodoli, sef tua 50m oddi wrth ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid a 130m oddi wrth ACA, AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy.

## 1.4 Cwestiynau'r RIES

- 1.4.1 Mae'r RIES hwn yn cynnwys cwestiynau a gyfeirir yn bennaf at yr ymgeisydd, CNC a NE, a ddangosir mewn **testun glas trwm**.
- 1.4.2 Bydd yr ymatebion i'r cwestiynau a ofynnir yn y RIES a'r sylwadau a dderbynnir arnynt o gymorth mawr wrth helpu'r ExA i ddeall safbwyntiau partïon â buddiant ar faterion Rheoliadau Cynefinoedd. Croesewir ymatebion i faterion eraill a drafodir yn y RIES hefyd. Cyfeiriwch at y rhif adnabod wrth ymateb i'r cwestiynau.
- 1.4.3 Wrth ymateb i'r cwestiynau yn nhablau 2.1 i 2.7 a 3.1 i 3.7, cyfeiriwch at y rhif cyfeirnod yn y golofn gyntaf, os gwelwch yn dda. Mae sylwadau ar y RIES wedi'u hamserlennu ar gyfer dyddiad cau 6 (D6) yr archwiliad (29 Mai 2026).

## 1.5 Materion HRA a ystyriwyd yn ystod yr archwiliad

- 1.5.1 Mae'r archwiliad hyd yma wedi canolbwyntio ar y materion canlynol:
- y fethodoleg a gymhwyswyd i gam sgrinio'r HRA.
  - digonolrwydd data adaregol sylfaenol yr ymgeisydd.
  - y fethodoleg a gymhwyswyd i'r asesiad o lygredd atmosfferig.
  - heriodd partïon â buddiant gasgliad yr ymgeisydd mewn perthynas ag AEol ar nodweddion cymwys ACA, AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy ac ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid sy'n deillio o lygredd atmosfferig.
  - mesurau digolledu 'heb ragfarnu' ar gyfer effeithiau ar nodwedd gymwys Dôl Heli Iwerydd ACA Aber Afon Dyfrdwy.
  - mesurau digolledu 'heb ragfarnu' ar gyfer effeithiau ar nodwedd gymwys gylfinirod AGA Aber Afon Dyfrdwy a maen prawf safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy.
  - amseriad, lleoliad, ymarferoldeb, effeithiolrwydd a chyflawnadwyedd yr holl fesurau digolledu/ lliniaru a ddylai fod wedi'u sefydlu ac yn weithredol cyn i effeithiau ddigwydd.
  - prosiectau a ystyriwyd yn yr asesiad ar y cyd.

## 2 EFFEITHIAU ARWYDDOCAOL TEBYGOL

### 2.1 Safleoedd Ewropeaidd a ystyriwyd

#### Cyflwyniad

- 2.1.1 Nid yw'r datblygiad arfaethedig yn gysylltiedig â rheoli unrhyw safle Ewropeaidd ar gyfer cadwraeth natur, nac yn angenrheidiol ar gyfer hynny.
- 2.1.2 Cyflwynodd yr ymgeisydd RIHRA [APP-253], sy'n amlygu'r safleoedd o fewn Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol y Deyrnas Unedig y gallai'r datblygiad arfaethedig effeithio arnynt.
- 2.1.3 Mae adran 5.2 y RIHRA [APP-253] yn esbonio bod yr ymgeisydd wedi cwmpasu safleoedd i'w hystyried yn seiliedig ar y clustogfeydd llwybrau effeithiau a amlinellir yn nhabl 5, canllawiau a barn broffesiynol, a radiws chwilio 15 km o'r ardal adeiladu a gweithredu (ffynhonnell allyriadau aer gweithredol).

#### Safleoedd o fewn Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol (NSN) y Deyrnas Unedig

- 2.1.4 Amlygodd RIHRA gwreiddiol yr ymgeisydd [APP-253] naw safle Ewropeaidd o fewn Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol y Deyrnas Unedig i'w cynnwys yn yr asesiad. Rhestrir y rhain yn nhabl 6 y RIHRA a manylir arnynt yn nhabl 2.1 isod. Amlygodd yr ymgeisydd Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) hefyd, ond nid yw'r Rheoliadau Cynefinoedd yn ymdrin â SoDdGAau, felly ni fyddant yn cael eu trafod ymhellach yn yr adroddiad hwn.

**Tabl 2.1: Safleoedd Ewropeaidd o fewn Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol y Deyrnas Unedig a amlygwyd yn Adroddiad HRA yr ymgeisydd [APP-253]**

Enw'r safle Ewropeaidd	Pellter oddi wrth y datblygiad arfaethedig (km)
ACA Aber Afon Dyfrdwy	O fewn
AGA Aber Afon Dyfrdwy	O fewn
Safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy	O fewn
ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid	0.076
ACA Safleoedd Madfallod Dŵr Glannau Dyfrdwy a Bwcle	1.5
ACA Mynydd Helygain	3.6
ACA Coedwigoedd Dyffryn Alun	6.8
AGA Aber Afon Mersi	12.7
Safle Ramsar Aber Afon Mersi	12.7

- 2.1.5 Roedd y RIHRA [APP-253] yn cynnwys atodiad â'r pennawd 'Atodiad A – Lleoliad Safleoedd Cynefinoedd Perthnasol mewn Perthynas â'r Datblygiad Arfaethedig', ond hepgorwyd y ffigur o'r cyflwyniad. Roedd y RIHRA diwygiedig a gyflwynwyd yn rhan o'r cais am gael gwneud newid [CHR-105] yn cynnwys y ffigur a oedd yn dangos lleoliad safleoedd Ewropeaidd o fewn 15km o'r datblygiad arfaethedig. Mae Atodiad B yn crynhoi'r safleoedd Ewropeaidd a'r llwybrau effeithiau ac mae Atodiad C yn rhestru nodweddion cymwys y safleoedd Ewropeaidd a sgriniwyd ar gyfer effeithiau arwyddocaol tebygol (LSE).
- 2.1.6 Cytunodd CNC [REP3-061] fod yr ymgeisydd wedi amlygu'r holl safleoedd Ewropeaidd perthnasol a nodweddion/ meini prawf cymwys y gallai'r prosiect effeithio arnynt, i'r graddau bod hyn yn ymwneud â safleoedd a nodweddion o'r fath sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Nid yw NE wedi cadarnhau'n benodol a yw'n fodlon ar y safleoedd a'r nodweddion/ meini prawf cymwys a aseswyd yn y RIHRA.
- RQ.1 [At NE] Heblaw am y safleoedd a restrir uchod, nid yw'r ExA yn ymwybodol o unrhyw sylwadau gan bartion â buddiant sy'n amlygu unrhyw safleoedd Ewropeaidd ychwanegol yn y Deyrnas Unedig i'w cynnwys yn RIHRA yr ymgeisydd. Gofynnir i NE gynghori a yw'n ystyried y gallai'r datblygiad arfaethedig effeithio ar safleoedd neu nodweddion cymwys ychwanegol.**
- 2.1.7 Er bod y datblygiad arfaethedig wedi'i lleoli yng Nghymru, amlygwyd safleoedd Ewropeaidd sydd wedi'u lleoli yn Lloegr i'w hystyried yn yr asesiad. Mae CNC a NE wedi cyflwyno sylwadau perthnasol a chymryd rhan yn yr archwiliad.
- 2.1.8 Mae NE [REP2-022] yn cydnabod bod safle'r cais yng Nghymru, ac y bydd mwyafrif yr effeithiau'n effeithio ar safleoedd dynodedig yng Nghymru yn bennaf. O ystyried hyn, ac i osgoi dryswch a dyblygu ymdrechion, bydd NE yn ildio i gyngor CNC ar gyfer yr effeithiau hynny sy'n effeithio ar Gymru yn bennaf. Bydd NE yn parhau i roi cyngor pan allai effeithiau gael effaith drawsffiniol ac effeithio ar safleoedd a ddynodwyd yn statudol yn Lloegr.

### **Safleoedd nad ydynt yn y Deyrnas Unedig**

- 2.1.9 Nid yw'r ymgeisydd wedi amlygu unrhyw effeithiau posibl ar safleoedd Ewropeaidd yng Ngwladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE).

## **2.2 Llwybrau effaith posibl**

- 2.2.1 Mae tablau 4, 5 a 6 y RIHRA [APP-253] yn disgrifio effeithiau posibl y datblygiad arfaethedig, ynghyd ag ehangder daearyddol posibl yr effeithiau.
- 2.2.2 Ceisiodd yr ExA [REP4-082] eglurhad ynglŷn â ph'un a yw'r holl nodweddion cymwys wedi cael eu hystyried yn y RIHRA. O ganlyniad, darparodd yr ymgeisydd dablau matrices yn atodiad G RIHRA wedi'i ddiweddarau [REP4-054]. Crynhoir y llwybrau effaith posibl ar gyfer pob safle a nodwedd gymwys yn Atodiad 1 y RIES hwn.
- 2.2.3 Mae'r llwybrau effaith posibl a aseswyd gan yr ymgeisydd yn cynnwys:
- Colli/ difrodi cynefin cymwys yn uniongyrchol;

- Colli Tir sydd wedi'i Gysylltu'n Swyddogaethol (FLL);
- Sŵn a tharfu'n weledol;
- Ansawdd dŵr;
- Cyfaint, lefel a llif dŵr;
- Llygredd atmosfferig o allyriadau egsôst, llwch, traffig gweithredol ac allyriadau staciau;
- Rhwystrau rhag symud; a
- Chyflwyno Rhywogaethau Estron Goresgynnol (INNS).

2.2.4 Asesodd y RIHRA yr effeithiau posibl yn ystod adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw, a datgomisiynu. Roedd yr ymgeisydd o'r farn y byddai'r holl effeithiau posibl yn ystod y cam datgomisiynu yn debyg i'r rhai a amlinellwyd yn y cam adeiladu, ac efallai'n llai na nhw [APP-253].

2.2.5 Nid yw partïon â buddiant wedi amlygu unrhyw lwybrau effaith ychwanegol i'w cynnwys yn yr asesiad yn yr archwiliad hyd yma.

## 2.3 Effeithiau ar y cyd

2.3.1 Fe wnaeth adran 8 y RIHRA [APP-253] fanylu ar ddull yr ymgeisydd o asesu effeithiau ar y cyd. Manylwyd ar y prosiectau a gynhwyswyd yn yr asesiad ar y cyd yn adran 10.4 y RIHRA [APP-253]. Ni ddarperir ffigur yn y RIHRA i ddangos lleoliad y prosiectau a gynhwyswyd yn yr asesiad ar y cyd.

### **RQ.2 [At yr ymgeisydd] Darparwch ffigur sy'n dangos lleoliad y prosiectau a gynhwyswyd yn yr asesiad ar y cyd.**

2.3.2 Cododd ANCBau faterion yn ymwneud ag effeithiau ar y cyd mewn perthynas ag asesiadau cam 1 a cham 2 yn yr HRA, ac felly cânt eu trafod yma.

2.3.3 Holodd NE [RR-026] sut oedd y datblygiad arfaethedig yn integreiddio â phrosiect Gogledd-orllewin HyNet, ble a sut oedd cysylltiadau wedi'u sicrhau a ph'un a oedd y coridor CO<sub>2</sub> wedi cael ei asesu yn rhan o'r HRA. Yn ogystal, holodd NE b'un a oedd yr holl brosiectau posibl wedi cael eu cynnwys yn yr asesiad.

2.3.4 Holodd NE hefyd ynglŷn â'r dull o gynnal asesiad ar y cyd ar gyfer tir sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol ac allyriadau yn yr aer a ph'un a oedd yr holl ryngweithiadau rhwng prosiectau yn cynnwys pwysau hysbys neu ardaloedd lliniaru neu ddigolledu er mwyn sicrhau na fyddai niwed i'r ardaloedd hyn.

2.3.5 Ymatebodd yr ymgeisydd [REP1-062] i esbonio ble mae'r RIHRA yn cofnodi effeithiau ansawdd aer ar y cyd a cholli tir sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol. Cadarnhaodd yr ymgeisydd fod yr asesiad ar y cyd yn cynnwys prosiect piblinell CO<sub>2</sub> HyNet, ac mae hefyd yn cadarnhau bod y dDCO yn cynnwys y coridor cysylltu CO<sub>2</sub> i brosiect piblinell CO<sub>2</sub> HyNet, ac felly mae hyn wedi cael ei gynnwys yn yr asesiadau. O ran ardaloedd lliniaru a digolledu, cadarnhaodd yr ymgeisydd nad yw wedi amlygu unrhyw effeithiau ar ardaloedd lliniaru neu ddigolledu hysbys.

- 2.3.6 Esboniodd yr ymgeisydd hefyd yn ISH2 [REP1-059] y cynhaliwyd cyfarfod gydag NE ym mis Rhagfyr 2025 i drafod materion a godwyd ynglŷn ag effeithiau ar y cyd a oedd yn canolbwyntio ar y dull o gynnal asesiad ar y cyd pan amlygir effaith ar ei phen ei hun.
- 2.3.7 O ran y cynlluniau a'r prosiectau a ystyriwyd yn yr asesiad ar y cyd, gofynnodd yr ExA [PD-012] (ExQ1.22.7) i CNC, NE a Chyngor Sir y Fflint (FCC) gadarnhau eu bod yn cytuno â'r prosiectau a gynhwyswyd yn yr asesiad ar y cyd. Amlygodd CNC [REP3-062] y prosiectau canlynol yr oedd o'r farn y dylid eu hystyried yn rhan o'r asesiad ar y cyd, gan gyfarwyddo'r ymgeisydd i geisio gwybodaeth ychwanegol gan FCC:
- Cyfleuster Gwlân Ynysu Knauf (cam Ymgynghoriad Cyn-ymgeisio Statudol)
  - Melin Bapur ICT (Trwydded Amgylcheddol wedi'i rhoi)
  - Gwaith Sment Padeswood (Trwydded Amgylcheddol wedi'i rhoi)
  - Gorsaf Bŵer Glannau Dyfrdwy (cais am Drwydded Amgylcheddol wedi'i dderbyn)
  - Gwaith Arrow AD (cais am Drwydded Amgylcheddol wedi'i dderbyn)
- 2.3.8 Ymatebodd NE [REP3-061] gan nodi nad oedd yr asesiad ar y cyd yn cynnwys unrhyw brosiectau ar ochr Lloegr y ffin ac felly daeth i'r casgliad nad oedd yr asesiad ar y cyd yn ddigonol.
- 2.3.9 Amlinellodd FCC [REP3-060] ei fod o'r farn bod yr ymgeisydd wedi rhoi pwys annigonol i effeithiau ar y cyd llygredd aer. Nododd FCC hefyd fod y pellter ar gyfer cynnwys prosiectau wedi'i osod ar 2km ar gyfer colli tir sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol. Nododd FCC, oherwydd bod y diffiniad o dir sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol y tu allan i ffin safle dynodedig ond yn allweddol i'w weithrediad, y dylai'r pellter hwn gynnwys Aber Afon Dyfrdwy yn ei gyfanrwydd. Nododd hefyd fod cynlluniau strategol eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr asesiad ar y cyd.
- 2.3.10 Diweddarodd yr ymgeisydd y RIHRA [REP4-054]. Gan gydnabod hyn, nododd NE [REP4-090] er ei fod o'r farn bod yr asesiad ar y cyd o ansawdd aer wedi 'gwella ychydig', fod angen i'r asesiad amonia a'r ffynonellau a gynhwyswyd gael eu hegluro'n fanylach. Nododd CNC [REP4-091] ostyngiad i gyfraniad y broses dyddodion nitrogen ar y cyd a dim newid i'r ardal morfa heli y rhagfynegwyd effaith ar y cyd arni yn ACA Aber Afon Dyfrdwy, a'i fod yn parhau i bryderu ynglŷn â'r mater hwn. Nododd CNC hefyd fod gostyngiad yng nghyfraniad y broses dyddodion nitrogen ar y cyd a ragfynegwyd i ACA Safleoedd Madfallod Dŵr Glannau Dyfrdwy a Bwcle, ond nid yw'n rhoi barn ynglŷn â'r newid hwn. Mae CNC yn nodi nad yw'r prosiectau ychwanegol a amlygwyd yn ei [REP3-062] wedi cael eu cynnwys yn y diweddariadau i'r RIHRA. Gofynnodd CNC hefyd i'r ymgeisydd ystyried a oes gwybodaeth ychwanegol ar gael bellach ynglŷn â phrosiect Dal Carbon Cyfleuster Adfer Ynni (ERF) Parc Adfer Enfinium, y dylid ei chynnwys yn yr asesiad ar y cyd.
- 2.3.11 Ymatebodd yr ymgeisydd [REP4-081] i geisiadau i ystyried prosiectau ychwanegol yn yr asesiad ar y cyd. Nododd fod Melin Bapur ICT a Gwaith

Sment Padeswood wedi'u rhestru yn yr asesiad ansawdd aer fel bod wedi'u cynnwys yn y senario gweithredu cronol. Nododd fod Gorsaf Bŵer Glannau Dyfrdwy wedi'i chynnwys yn y modelu sylfaenol ar gyfer y System Wybodaeth Llygredd Aer (APIS). Mae'n nodi nad oes gwybodaeth ar gael ar hyn o bryd am allyriadau yn y dyfodol ar gyfer Cyfleuster Gwlân Ynysu Knauf. Nododd hefyd fod Arrow AD ar raddfa fach, a'i fod o'r farn y byddai'r effeithiau'n lleol iawn.

**RQ.3 [At yr ymgeisydd] A wnewch chi gadarnhau a yw'r datganiad hwn yn golygu bod yr effeithiau ansawdd aer o'r prosiectau hyn wedi cael eu cynnwys yn yr asesiad ar y cyd o'r RIHRA?**

**RQ.4 [At yr ymgeisydd] A all yr ymgeisydd gynnwys prosiect Dal Carbon ERF Parc Adfer Enfinium yn yr asesiad ar y cyd neu gyfiawnhau pam na ellir gwneud hynny?**

- 2.3.12 Nododd yr ymgeisydd, wrth ymateb i bryderon FCC ynglŷn â'r pwys a roddwyd i effeithiau ansawdd aer, y defnyddiwyd model TEMPRO i lywio'r asesiad o ansawdd aer sy'n gysylltiedig â thraffig, a'i fod wedi cael ei addasu i ystyried sawl datblygiad arwyddocaol.
- 2.3.13 O ran tir sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol, nododd yr ymgeisydd [REP4-081] y daethpwyd i gasgliad o AEol o'r prosiect ar ei ben ei hun (cyn lliniaru) ar gyfer yr ardal o dir sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol ag AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy sydd i'w cholli o ganlyniad i'r datblygiad arfaethedig. Fel y cyfryw, nid yw'n credu bod angen asesiad ar y cyd, ond fe'i cynhaliwyd er mwyn cyflawnder.
- 2.3.14 Nododd yr ymgeisydd, ar gyfer yr asesiad ar y cyd o ansawdd aer, ei fod wedi penderfynu bod prosiectau sy'n agosach i'r datblygiad arfaethedig yn fwy tebygol o arwain at effeithiau ar y cyd. Mae ffin Lloegr 5km oddi wrth y datblygiad arfaethedig, felly ni chynhwyswyd prosiectau yn Lloegr.
- 2.3.15 O'r uchod, mae'r ExA yn nodi nifer o faterion sy'n weddill yn ymwneud â'r asesiad ar y cyd. Felly, mae'n gofyn i FCC, CNC, NE a'r ymgeisydd ymateb i'r cwestiynau canlynol:

**RQ.5 [At NE a CNC] Rhowch eich barn am esboniad yr ymgeisydd [REP4-081] o'r ardal astudio a ddefnyddiwyd i amlygu prosiectau ar gyfer yr asesiad ar y cyd.**

**RQ.6 [At NE, CNC ac FCC] Ymatebwch i ymateb yr ymgeisydd i ExQ1.22.7 [REP4-081] ynglŷn â ph'un a ydych yn fodlon bellach ar y prosiectau a gynhwyswyd yn yr asesiad ar y cyd, yn dilyn diweddariadau'r ymgeisydd. Os na, rhowch resymau ac amlinellwch yn glir gamau penodol y credwch y dylai'r ymgeisydd eu cymryd i ddatrys pryderon sy'n weddill ynglŷn â'r mater hwn.**

**RQ.7 [At yr ymgeisydd] Cysylltwch yn uniongyrchol ag NE ynglŷn ag eglurder yr asesiad amonia, a'r ffynonellau a gynhwyswyd ynddo, a rhowch sylwadau i'r ExA.**

**RQ.8 [At FCC] Cadarnhewch, yn dilyn esboniad yr ymgeisydd o'i fethodoleg ar gyfer effeithiau ansawdd aer ar y cyd [REP4-081], a ydych bellach yn fodlon ar yr asesiad. Os na, rhowch resymau ac amlinellwch**

yn glir gamau penodol y credwch y dylai'r ymgeisydd eu cymryd i ddatrys pryderon sy'n weddill ynghlŷn â'r mater hwn.

**RQ.9 [At NE a CNC] O ran colli tir sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol, a ydych yn cytuno â'r ymgeisydd, o ganlyniad i'r casgliad AEol o'r prosiect ar ei ben ei hun, nad oes angen asesiad ar y cyd.**

## 2.4 Asesiad yr ymgeisydd

2.4.1 Cyflwynir casgliadau'r ymgeisydd ynghlŷn â sgrinio yn adran 9 y RIHRA [APP-253].

**Safleoedd y daeth yr ymgeisydd i'r casgliad fod dim LSE ar yr holl nodweddion cymwys**

2.4.2 Daeth yr ymgeisydd [APP-253] i'r casgliad na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn debygol o arwain at effeithiau arwyddocaol, naill ai ar ei ben ei hun nac ar y cyd â phrosiectau neu gynlluniau eraill, ar holl nodweddion cymwys y safleoedd Ewropeaidd canlynol:

- ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid
- ACA Mynydd Helygain
- ACA Coedwigoedd Dyffryn Alun
- AGA Aber Afon Mersi
- Safle Ramsar Aber Afon Mersi

**RQ.10 [At CNC a NE] Nid oedd ANCB wedi herio casgliad yr ymgeisydd o ddim LSE mewn perthynas â'r safleoedd uchod yn ystod yr archwiliad. A all CNC a NE gadarnhau eu bod yn cytuno â'r casgliad hwn?**

**Safleoedd y daeth yr ymgeisydd i'r casgliad fod LSE ar rai o'r nodweddion cymwys neu bob un ohonynt**

2.4.3 Daeth yr ymgeisydd i'r casgliad y byddai'r datblygiad arfaethedig yn debygol o arwain at effeithiau arwyddocaol, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â phrosiectau neu gynlluniau eraill, ar un neu fwy o nodweddion cymwys:

- ACA Aber Afon Dyfrdwy
- AGA Aber Afon Dyfrdwy
- Safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy
- ACA Safleoedd Madfallod Dŵr Glannau Dyfrdwy a Bwcle

2.4.4 Manylir ar y nodweddion cymwys a'r llwybrau LSE a sgriniwyd gan yr ymgeisydd yn nhabl 6 a thabl C-1 y RIHRA [APP-253].

2.4.5 Heriwyd y nodweddion cymwys a ystyriwyd yn yr asesiad LSE gan bartïon â buddiant a holodd yr ExA yn eu cylch yn ystod yr archwiliad. Gweler adran 2.5 y RIES hwn am fanylion ychwanegol.

## 2.5 Materion Archwiliad

- 2.5.1 Mae materion a godwyd hyd yma, neu'r rhai hynny y mae'r ExA yn ceisio eglurhad ynglŷn â nhw, mewn perthynas ag LSEau a hepgorwyd (neu na ystyriwyd) gan yr ymgeisydd wedi'u crynhoi yn nhablau 2.1 i 2.7 isod.
- 2.5.2 Yn ogystal â'r pwyntiau isod, nodwyd bod yr asesiad o effeithiau'r datblygiad arfaethedig ar AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy wedi'i gynnwys gydag ACA Aber Afon Dyfrdwy. Fodd bynnag, mae'r effeithiau posibl, gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i golli dolydd heli lwerydd a llygredd atmosfferig ar nodweddion cymwys yr AGA a'r safle Ramsar, yn aneglur. Nid yw'r RIHRA [APP-253] yn disgrifio'r effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol posibl ar nodweddion cymwys AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy. Ceisiodd ExQ1.9.22 [PD-012] eglurhad ynglŷn â'r effeithiau anuniongyrchol. Diweddarodd yr ymgeisydd [REP4-054] y RIHRA, ac er bod yr ExA yn nodi bod yr effeithiau ar yr ACA yn debyg i'r rhai ar yr AGA a'r safle Ramsar, mae'r effeithiau anuniongyrchol ar yr AGA a'r safle Ramsar yn aneglur o hyd.
- 2.5.3 Hefyd, nid yw'r holl nodweddion a meini prawf cymwys wedi'u crybwyll yn y RIHRA [APP-253], felly nid yw'n glir pa rai a aseswyd ai peidio a pham. Roedd hyn yn berthnasol i bob safle, ar gamau 1 a 2 yr HRA, ac yn achos pryder arbennig o ran nodweddion adar AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy, a esbonnir ymhellach yn nhabl 2.2 isod.
- 2.5.4 Ceisiodd yr ExA [REP4-082] eglurhad ynglŷn â pha nodweddion a meini prawf cymwys a aseswyd ar gyfer yr holl safleoedd. Diweddarodd yr ymgeisydd [REP4-054] y RIHRA a darparodd dablau matrices yn atodiad G. Mae'r RIES wedi'i seilio ar y wybodaeth a ddarparwyd yn y tablau hyn sydd wedi'u diweddarau.

**RQ.11 [At yr ymgeisydd] Gofynnir i'r ymgeisydd amlinellu'n glir effeithiau anuniongyrchol colli dolydd heli lwerydd a llygredd atmosfferig ar nodweddion cymwys AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy. Lle mae'r effeithiau'n wahanol ar gyfer y nodweddion a'r meini prawf cymwys, dylid nodi hyn yn glir.**

**RQ.12 [At yr ymgeisydd] Mae anghysondebau rhwng yr hyn a ddarperir yn atodiad G [REP4-054] a'r hyn y mae'n ymddangos ei fod wedi'i asesu yn y RIHRA. Gofynnir i'r ymgeisydd egluro'r llwybrau effaith canlynol a aseswyd yn yr HRA:**

- **Asesu effeithiau sŵn a dirgryniad ar nodweddion cymwys llysywod pendoll yr afon a llysywod pendoll y môr ACA Aber Afon Dyfrdwy yn ystod gweithredu'r datblygiad arfaethedig.**
- **Effeithiau arwyddocaol tebygol aflonyddu gweledol (goleuadau) ar nodweddion cymwys adar AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy yn ystod gweithredu'r datblygiad arfaethedig.**
- **Effeithiau arwyddocaol tebygol colli cynefin yn uniongyrchol ar nodweddion cymwys adar AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy yn ystod gweithredu'r datblygiad arfaethedig.**

Adroddiad ar y Goblygiadau i Safleoedd Ewropeaidd ar gyfer  
Prosiect Pŵer Carbon Isel Cei Connah

- Asesu effeithiau sŵn a dirgryniad ar nodweddion cymwys dyfrgwn a physgod ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid yn ystod pob cam o'r datblygiad arfaethedig.
- Asesu colli tir sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol ar nodwedd gymwys dyfrgwn ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid yn ystod pob cam o'r datblygiad arfaethedig.

RQ.13 [At CNC a NE] Adolygwch atodiad 1 y RIES hwn ac atodiad G y RIHRA [REP4-054] a chadarnhewch eich safbwynt ynglŷn â phob llwybr effaith ar bob safle dynodedig yng ngholofn berthnasol atodiad 1 y RIES hwn. Os na fydd CNC a NE yn cytuno â chasgliadau'r ymgeisydd neu os nodir unrhyw anghysondebau rhwng atodiad G a'r hyn a aseswyd yn y RIHRA, amlinellwch eich pryderon yn glir a pha newidiadau y byddai CNC/ NE yn eu cynnig neu wybodaeth benodol a fyddai'n angenrheidiol o hyd.

**Tabl 2.1: Colli cynefin yn uniongyrchol – Materion a godwyd yn yr archwiliad hyd yma gan yr ExA a phartïon â buddiant ynglŷn â sgrinio LSEau (yn unigol ac ar y cyd) gan yr ymgeisydd**

ID	Llwybr effaith posibl	Manylion y mater	Sylw / cwestiwn yr ExA
<b>ACA, AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy</b>			
2.1.1	Clirio dôl heli lwerydd yn y coridor cysylltiad dŵr	<p>Gofynnodd CNC [RR-027] am eglurhad ynglŷn â ph'un a gynigir clirio dôl heli lwerydd o fewn y coridor cysylltiad dŵr.</p> <p>Yn ISH2, dywedodd yr ymgeisydd [REP1-066] ar lafar na fyddai'r gwaith cysylltiad dŵr yn arwain at golli dôl heli lwerydd.</p> <p>Nododd a chrosawodd CNC [REP1-073] ymateb yr ymgeisydd a gofynnodd am eglurhad ysgrifenedig ffurfiol.</p> <p>Diweddarodd yr ymgeisydd [REP1-062] ei ddogfennau cais i egluro nad yw'r RIHRA [APP-253] wedi asesu colli morfa heli o fewn y coridor cysylltiad dŵr, gan na fydd morfa heli'n cael ei dileu yn yr ardal hon, a theithir ar hyd-ddi ar droed. Mae clirio dôl heli lwerydd yn gysylltiedig â gwaith yn ardal yr ollyngfa dŵr wyneb yn hytrach na'r coridor cysylltiad dŵr.</p> <p>Cytunwyd ar y mater hwn rhwng y partïon [REP3-029].</p>	Dd/B – mater wedi'i ddatrys

**Tabl 2.2: Tir sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol – Materion a godwyd yn yr archwiliad hyd yma gan yr ExA a phartïon â buddiant ynglŷn â sgrinio LSEau (yn unigol ac ar y cyd) gan yr ymgeisydd**

ID	Llwybr effaith posibl	Manylion y mater	Sylw / cwestiwn yr ExA
<b>AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy</b>			

<p>2.2.1</p>	<p><b>Arolygon adaregol – ystyried rhywogaethau penodol</b></p>	<p>Dywedodd NE [RR-026] (NE01) fod yr arolygon adaregol manwl a gynhaliwyd gan yr ymgeisydd wedi amlygu niferoedd sylweddol o'r rhywogaethau cymwys canlynol y bydd y prosiect yn effeithio arnynt; Pibyddion Coesgoch, Hwyaid yr Eithin, Corhwyaid, Hwyaid Llostfain, Pïod Môr, Pibyddion y Mawn a Rhostogod Cynffonddu. Nododd NE na chynhaliwyd asesiad pellach o effeithiau yn y RIHRA, er y cynigir mesurau lliniaru yn y dogfennau ehangach. Cynghorodd NE fod rhaid cynnal gwerthusiad mwy cadarn o rywogaethau penodol ar adeg asesiad priodol. Cynghorodd NE [RR-026] fod angen tabl crynhoi i ddangos cyfrifiadau brig ar gyfer pob rhywogaeth ac yna dylid defnyddio'r cyfrifiadau brig hyn i gyfrifo cyfran poblogaeth yr AGA. Pan fydd y ganran yn fwy nag 1%, cynghorodd NE y dylid amlygu hyn fel y gellir pennu'n rhwydd pa rywogaethau y mae angen eu hystyried ymhellach, neu beidio, yn yr asesiad.</p> <p>Esboniodd yr ymgeisydd [REP1-062] fod angen i rywogaethau unigol y dynodwyd yr AGA neu'r safle Ramsar ar eu cyfer gael eu trafod yn benodol dim ond pan fydd yr effeithiau ar y rhywogaethau hynny'n wahanol. O ran AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy, mae hyn yn berthnasol i ylfinirod yn unig o ran tir sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol.</p> <p>Ceisiodd yr ExA [PD-012] ddiweddariad ar safbwynt NE ar ystyried rhywogaethau penodol o fewn arolygon adaregol. Cadarnhaodd NE [REP3-061], ar sail y wybodaeth a dderbyniwyd hyd yma, nad yw'n fodlon ar yr asesiadau a gynhaliwyd. Mae'r data sydd ar gael gan y sectorau Arolwg Adar Gwlyptir (WeBS) sydd gerllaw</p>	<p><b>RQ.14 [At yr ymgeisydd] Darparwch restr lawn o nodweddion/ meini prawf adaregol cymwys AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy, gan nodi'r niferoedd sy'n bresennol ac amlinellu'n glir lle y ceir niferoedd sylweddol o rywogaethau (yn uwch na'r trothwy 1%) a chyfiawnhad clir, gyda thystiolaeth, ar gyfer cynnwys neu hepgor rhywogaethau. Lle na ellir darparu cyfiawnhad clir, gyda thystiolaeth, mae'r ExA yn gofyn i'r RIHRA gael ei ddiweddarau i asesu'r nodwedd gymwys honno/ maen prawf cymwys hwnnw.</b></p> <p><b>RQ.15 [At yr ymgeisydd] Cysylltwch yn uniongyrchol â CNC a NE ynglŷn â'ch dull o gymhwyso'r maen prawf 1% ar gyfer tir sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol yn seiliedig ar y data a ddarparwyd, sy'n dangos bod yr ardal o dir a gollir sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol yn cynnal niferoedd sylweddol o ystod o rywogaethau adar dŵr eraill yr AGA, a darparwch sylwadau i'r ExA.</b></p> <p><b>RQ.16 [At NE] A yw NE yn ystyried bod y tir a gollir sydd wedi'i gysylltu'n</b></p>
--------------	---	--	---

	<p>ac yn gorgyffwrdd yn rhannol yn dangos bod yr ardal hon yn cynnal niferoedd sylweddol o rywogaethau adar dŵr a gynhelir gan yr AGA. Nid yw'n glir sut y daethpwyd i'r casgliad mai gylfinirod yw'r unig rywogaeth y mae arni angen mesurau lliniaru/ digolledu o ganlyniad i effeithiau andwyol y cynnig.</p> <p>Ceisiodd yr ExA [PD-012; Q9.25] eglurhad ynglŷn â nodweddion adaregol cymwys AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy a ystyriwyd o dan y llwybr colli tir sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol. Roedd hyn yn cynnwys; nifer yr adar sy'n bresennol (ffigur absoliwt) ac fel canran o'r cyfrifiad a ddyfynnwyd ac, os yw'n berthnasol, canran o gyfrifiad mwy diweddar. Cyfeiriodd yr ymgeisydd [REP3-059] yr ExA at ddata a gasglwyd gan yr ymgeisydd yn Ychwanegiad F o Atodiad 11-D: Atodiad Technegol Adareg [APP-193].</p> <p>Ceisiodd yr ExA [REP4-082] eglurhad ynglŷn â ph'un a yw'r holl nodweddion cymwys wedi cael eu hystyried yn y RIHRA. Dywedodd yr ymgeisydd fod yr holl nodweddion cymwys wedi cael eu hasesu a, chyda chytundeb CNC, defnyddiwyd y maen prawf 1% ar gyfer tir sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol, a dyna pam yr amlygwyd LSE ar ylfinirod yn unig mewn perthynas â cholli tir sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol. Cytunodd yr ymgeisydd i wneud y sefyllfa'n fwy eglur mewn RIHRA wedi'i ddiweddarau erbyn D4, gan gynnwys tablau matrices.</p> <p>Dywedodd NE [REP4-072] fod y wybodaeth sydd ar gael o gyfrifiadau WeBS a data'r ymgynghorydd ei hun yn dangos bod yr ardal o dir a gollir sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol yn cynnal niferoedd sylweddol</p>	<p><b>swyddogaethol yn dir sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol ar gyfer pibyddion coesgoch, chwiwellod a chorhwyaid yn ogystal â gylfinirod? A all NE gadarnhau nodweddion cymwys AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy y mae'n ystyried y dylid eu hasesu mewn perthynas â cholli tir sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol?</b></p>
--	---	--

		o ystod o rywogaethau adar dŵr eraill yr AGA, nid dim ond gylfinirod. Nododd NE hefyd fod data clwydo penllanw WeBS yn dangos bod safle'r cynnig yn lleoliad clwydo allweddol yn 2019 ar gyfer Pibyddion Coesgoch (cyfrifwyd 1000), Chwiwellod (cyfrifwyd 300), Corhwyaid (cyfrifwyd 200) a Gylfinirod (cyfrifwyd 120).	
<b>AGA a safle Ramsar Aber Afon Mersi</b>			
2.2.2	Symudiadau adar	<p>Mae'r RIHRA [APP-253] yn hepgor LSE bosibl o golli llwybr tir sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol ar gyfer AGA a safle Ramsar Aber Afon Mersi gan ei fod 12.7km oddi wrth y datblygiad arfaethedig.</p> <p>Cynghorodd NE [RR-026] (NE13) yr ymgeisydd i ystyried a oes potensial ar gyfer effeithiau ar AGA a safle Ramsar Aber Afon Mersi o ganlyniad i symudiadau adar, gan fod y safle wedi'i leoli o fewn y radiws chwilio cychwynnol 20km, neu ddarparu cyfiawnhad pellach i gefnogi ei gasgliad.</p> <p>Dywedodd yr ymgeisydd [REP1-062] ei bod yn debygol iawn bod adar o'r AGAau amrywiol yn Ninas-Ranbarth Lerpwl yn symud rhwng AGAau. Fodd bynnag, trwy fynd i'r afael â cholli tir sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol ar gyfer AGA Aber Afon Dyfrdwy trwy sicrhau na fydd colled net o dir sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol, mae'r ymgeisydd yn dadlau ei fod yn mynd i'r afael â hyn.</p>	<p><b>RQ.17 [At NE] A yw NE yn fodlon ar ymateb yr ymgeisydd i'r mater hwn? Os na, rhowch resymau ac amlinellwch yn glir gamau penodol y credwch y dylai'r ymgeisydd eu cymryd i ddatrys pryderon sy'n weddill ynglŷn â'r mater hwn.</b></p>
<b>ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid</b>			

2.2.3	<p><b>Adeiladu a datgomisiynu</b> Dyfrgwn</p>	<p>Cododd NE [REP1-026] (NE52) bryderon ynglŷn ag ehangder yr ardal astudio a cholli tir sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol, gan gynnwys cynefin gorffwys neu chwilota am fwyd. Roedd FCC [RR-013] hefyd yn pryderu nad yw'r arolwg yn cyd-fynd â pharamedrau y cytunwyd arnynt gyda CNC. Gan gyfeirio at y bennod Ecoleg Ddaearyl a Dyfrol yn y Datganiad Amgylcheddol [APP-049] a defnyddio clustogfeydd priodol o amgylch pyllau fel safleoedd bwydo ar gyfer dyfrgwn yn y gwanwyn, gofynnodd FCC am eglurhad a chyfiawnhad ynglŷn â gwyro oddi wrth arfer arolygu gorau.</p> <p>Datganodd ymateb yr ymgeisydd i NE [REP1-062] na fydd symudiad dyfrgwn yn cael ei rwystro ac na fydd tiriogaethau'n cael eu darnio. Nid oes tystiolaeth o walau na manau gorffwys dyfrgwn o fewn 300m o derfynau'r gorchymyn.</p> <p>Datganodd CNC [RR-027] ei fod yn fodlon at ei gilydd ar arolwg ac asesiad yr ymgeisydd mewn perthynas â dyfrgwn ac ni roddodd sylwadau pellach.</p> <p>Mae NE [REP3-051] yn ildio i CNC ar faterion trwyddedu ac nid yw'n rhoi sylwadau pellach.</p>	<p><b>RQ.18 [At yr ymgeisydd] Mae'r ExA yn gofyn am ymateb i bryderon FCC.</b></p> <p><b>RQ.19 [At CNC a NE] Mae'r ExA yn gofyn am ddiweddariad ar gynnydd mewn perthynas â'r mater hwn.</b></p>
-------	---	---	--

**Tabl 2.3: Llygredd atmosfferig – Materion a godwyd yn yr archwiliad hyd yma gan yr ExA a phartïon â buddiant ynglŷn â sgrinio LSEau (yn unigol ac ar y cyd) gan yr ymgeisydd**

ID	Llwybr effaith posibl	Manylion y mater	Sylw / cwestiwn yr ExA
----	-----------------------	------------------	------------------------

Yr holl safleoedd Ewropeaidd o fewn Parth Dylanwad (Zol) yr ymgeisydd			
2.3.1	<p><b>Adeiladu, gweithredu a datgomiynu</b></p> <p>Llygredd atmosfferig – sylwadau cyffredinol</p>	<p>Gwnaeth NE [RR-026] (NE35) sylw cyffredinol ar asesu llygredd atmosfferig ar safleoedd Ewropeaidd a chynghorodd fod angen gwybodaeth ychwanegol am nifer o bryderon sy'n weddill a godwyd yn ystod ymgysylltiad statudol blaenorol, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Eglurder ynglŷn â'r trothwyon pellter a sgrinio ar gyfer pob ffynhonnell (traffig ac amaethyddol), yn unigol ac ar y cyd.</li> <li>• Asesiad o ddarpariaethau pŵer wrth gefn neu ategol.</li> <li>• Cymhwysiad cywir llwythi a lefelau critigol.</li> <li>• Asesiad o effeithiau ar gynefin cynhaliol.</li> <li>• Esboniad ynghylch defnyddio'r Pecyn Cymorth Ffactor Allyriadau (EFT), gan nad yw'n argymhell rhagamcanu ffigurau y tu hwnt i 2030, a pham y tybiwyd allyriadau o 2034.</li> </ul> <p>Cyfeiriodd yr ymgeisydd [REP1-062] NE at bennod 8 y Datganiad amgylcheddol [APP-046]. Mae tabl 8-5 [APP-046] yn ymateb i bob un o sylwadau NE ynglŷn ag ansawdd aer.</p> <p>Cytunodd SoCG NE [REP3-051], ar gyfer y safleoedd dynodedig, fod y fframwaith modelu gweithredol yn ymddangos yn briodol at ei gilydd. Fodd bynnag, nododd NE [REP3-051] nad yw'n ymddangos bod y dogfennau a ddarparwyd yn cynnwys tystiolaeth o drothwyon sgrinio traffig, trin ffynonellau amaethyddol, modelu gwaith wrth gefn/ atodol a thybiaethau EFT ar ôl 2030.</p> <p>Ar ôl adolygu'r dogfennau a gyflwynwyd wrth ymateb i'r cais am gael gwneud newid, gan gynnwys y RIHRA wedi'i ddiweddarau [CR1-105], nid oedd NE [REP4-090] o'r farn bod y wybodaeth</p>	<p><b>RQ.20 [At NE] Gofynnir i NE amlinellu'n glir gamau penodol y mae'n credu y dylai'r ymgeisydd eu cymryd i ddatrys pryderon sy'n weddill ynglŷn â'r mater hwn yn llwyr.</b></p>

		wedi'i diweddarau yn mynd i'r afael yn llwyr â'r pryderon a godwyd yn flaenorol.	
2.3.2	<b>Adeiladu/ datgomiynu</b> Allyriadau egsôst – yr ardal astudio	<p>Cynghorodd NE [RR-026] (NE38) nad yw'n glir p'un a yw'r ardal astudio ar gyfer effeithiau ar ansawdd aer yn cynnwys yr holl ffyrdd lle y byddai llygredd yn newid &gt;1% o'r lefel neu'r llwyth critigol, na pha ffyrdd a sgriniwyd a chanddynt gyfanswm dyddiol cyfartalog blynyddol (AADT) o &gt;500.</p> <p>Esboniodd yr ymgeisydd [REP1-062] nad oes safleoedd Ewropeaidd o fewn 200m o'r Rhwydwaith Ffyrdd yr Effeithir Arno (ARN) heblaw am ACA, AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy ac ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid, a aseswyd yn y RIHRA [APP-253].</p> <p>Datganodd SoCG NE [REP3-051] [REP4-072] nad yw'n ymddangos bod yr atodiadau perthnasol yn cynnwys modelu llwch neu draffig adeiladu ac nad ydynt yn gwahaniaethu rhwng unedau yn Lloegr ac yng Nghymru. O ganlyniad, nododd NE [REP3-051] na all asesu effeithiau adeiladu ar unrhyw unedau yn Lloegr o'r dystiolaeth a ddarparwyd ac felly mae'n cynnal ei safbwynt presennol ar gyfer unedau yn Lloegr hyd nes y darperir mapio ar lefel unedau a chanlyniadau dyddodion adeiladu.</p>	<b>RQ.21 [At yr ymgeisydd] A all yr ymgeisydd gyfeirio at y modelu llwch a thraffig adeiladu perthnasol, gan gynnwys dadansoddiad o'r canlyniadau ar lefel unedau, neu ddarparu'r wybodaeth honno?</b>
<b>ACA, AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy ac ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid</b>			
2.3.3	<b>Adeiladu/ datgomiynu</b> Dyddodion llwch – mesurau lliniaru	<p>Cynghorodd NE [RR-026] (NE49) y dylai effeithiau dyddodion llwch ar safleoedd Ewropeaidd gael eu symud ymlaen i'r cam asesiad priodol oherwydd fe allai dibynnu ar fesurau yn y Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) awgrymu bod angen mesurau lliniaru i osgoi LSE.</p> <p>Esboniodd yr ymgeisydd [REP1-062] fod y mesurau a gynigir i reoli llwch yn fesurau ymgorfforedig safonol a ddefnyddir ar safleoedd adeiladu a'u bod eisoes wedi'u cynnwys yn y datblygiad</p>	Dd/B – mater wedi'i ddatrys.

		<p>arfaethedig ni waeth am bresenoldeb safleoedd Ewropeaidd, ac felly y dylid eu hystyried yn ystod y cam sgrinio HRA.</p> <p>Wrth ymateb i ExQ1.6.11 [PD-012], cadarnhaodd NE [REP3-061] ei fod yn fodlon bod y mesurau i reoli llwch wedi'u hymgorffori yn y datblygiad arfaethedig ac y gellir eu hystyried yn ystod y cam sgrinio. Cadarnhaodd NE [REP3-061] ei fod yn fodlon bod y dull a ddefnyddiwyd o ran y Rheoliadau Cynefinoedd yn briodol.</p>	
<b>ACA, AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy</b>			
2.3.4	<p><b>Gweithredu</b> Allyriadau staciau – amonia</p>	<p>Nododd NE [RR-026] (NE41 ac NE45) fod amonia ychydig islaw'r lefel gritigol yn y sgwâr 1km sy'n cynnwys y pwynt derbynnydd a amlygwyd (<math>2.6\mu\text{g}/\text{m}^3</math>) yn seiliedig ar ddata APIS. At hynny, dywedodd gan fod crynodiadau amonia'n amrywio'n ofodol, bod rhai lleoliadau o fewn y sgwâr grid perthnasol yn debygol o gynnwys lefel uwch o amoniwm na'r lefel gritigol. Felly, cynghorodd NE [RR-026], o ystyried yr ansicrwydd ynglŷn â lefel yr allyriadau, y dylid mynd i'r afael ag allyriadau amonia gweithredol yn yr asesiad priodol.</p> <p>Roedd yr ymgeisydd [REP1-062] o'r farn ei bod yn rhesymol tybio y byddai crynodiadau amonia cefndirol yn homogenaidd a hyd yn oed ar ôl caniatáu ar gyfer amrywiad gofodol lleol, rhagfynegir y bydd crynodiadau amonia islaw'r lefel gritigol ar gyfer y cynefin morfa heli yn unigol neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill.</p> <p>O ran NE45, dywedodd yr ymgeisydd [REP1-062] fod y crynodiad amonia cymedrig blynyddol o'r datblygiad arfaethedig, sef <math>0.02\mu\text{g}/\text{m}^3</math>, yn gyfwerth â 0.7% o'r gwerth lefel gritigol ac o'i hystyried gyda'r lefel gefndirol <math>2.6\mu\text{g}/\text{m}^3</math> (sydd 13% islaw'r gwerth lefel gritigol), ni fyddai'r 0.7% ychwanegol yn peryglu'r lefel gritigol. Felly, daeth yr ymgeisydd [REP1-062] i'r casgliad na fyddai</p>	<p><b>RQ.22 [At yr ymgeisydd] A all yr ymgeisydd gyfeirio at y wybodaeth berthnasol sy'n amlinellu gwerthoedd sylfaenol amonia a'r cyfraniadau proses amonia wrth dderbynnyddion ecolegol gweithredol (OE), neu ddarparu'r wybodaeth honno?</b></p> <p><b>RQ.23 [At yr ymgeisydd] A all yr ymgeisydd ddarparu gwybodaeth i esbonio sut y pennwyd yr ardal dôl heli lwerydd ar y cyd a adroddwyd y mae'r datblygiad arfaethedig yn effeithio arni?</b></p>

		<p>allyriadau amonia gweithredol yn arwain at LSE ar safleoedd Ewropeaidd.</p> <p>Wrth ymateb i NE41, amlygodd yr ymgeisydd [REP1-062] hefyd y bydd y crynodiadau amonia cefndirol yn cael eu diweddarau yn y dogfennau sydd i'w cyflwyno gyda'r cais am gael gwneud newid, a'r gwerth diweddaraf gan APIS yw <math>1.9 \mu\text{g}/\text{m}^3</math> ar gyfer yr un derbynnydd.</p> <p>Daw'r RIHRA wedi'i ddiweddarau [CR1-105] a ddarparwyd i ymateb i'r cais am gael gwneud newid i'r casgliad na fyddai cyfanswm y crynodiadau amonia yn fwy na'r lefel gritigol.</p> <p>Cynghorodd NE [REP4-090] fod yr asesiad amonia yn parhau i fod yn agos i'r trothwyon perthnasol a bod rhywfaint o ansicrwydd o hyd ynglŷn â sut y cynrychiolwyd crynodiadau amonia cefndirol.</p> <p>Nododd SoCG NE [REP4-072] ei bod yn ymddangos fel petai'r gwerthoedd sylfaenol amonia yn atodiad 8-A y Datganiad Amgylcheddol [REP2-007] wedi'u llygru ac nad yw atodiad 8-D y Datganiad Amgylcheddol [REP2-009] yn cynnwys tystiolaeth o gyfraniadau proses amonia wrth y derbynnyddion ecolegol gweithredol. Dywedodd NE [REP4-072] hefyd nad yw'n ymddangos bod tystiolaeth o'r ardal dâl heli lwerydd ar y cyd. O ganlyniad, roedd NE [REP4-072] o'r farn na allai asesu risg amonia gweithredol ar gyfer unedau yn Lloegr o'r wybodaeth a ddarparwyd a bod y mater hwn heb ei ddatrys o hyd.</p>	
2.3.5	<p><b>Gweithredu</b> Allyriadau staciau – amonia ar y cyd</p>	<p>Cynghorodd NE [RR-026] (NE41) nad yw'n glir pa amrediad ffynonellau ar gyfer amonia a ystyriwyd yn yr asesiad ar y cyd yn y RIHRA [APP-253] na pham nad oedd y ffynonellau a amlygwyd yn allyrru amonia.</p> <p>Cynghorodd yr ymgeisydd [REP1-062] mai'r unig ffynhonnell amonia o fewn y sgwâr grid a ddefnyddiwyd ar gyfer amonia cefndirol yw'r A548 Weighbridge Road.</p>	<p><b>RQ.24 [At yr ymgeisydd] A all yr ymgeisydd esbonio amrediad y ffynonellau allyriadau amonia a ystyriwyd yn yr asesiad ar y cyd?</b></p>

		Cynghorodd NE [REP4-090] fod y ffynonellau amonia a gynhwyswyd yn yr asesiad yn aneglur o hyd.	
<b>ACA Safleoedd Madfallod Dŵr Glannau Dyfrdwy a Bwcle</b>			
2.3.6	<b>Adeiladu/ datgomisiynu</b> Allyriadau egsôst – dyddodion asid	<p>Daeth yr ymgeisydd [APP-253] i'r casgliad na fyddai'r cynnydd mewn allyriadau traffig yn ystod adeiladu'r datblygiad arfaethedig yn arwain at LSE yn sgil mwy o ddyddodion nitrogen ac amonia. Fodd bynnag, ni roddodd y RIHRA [APP-253] gasgliad ar ddyddodion asid uwch o allyriadau egsôst.</p> <p>Wrth ymateb i ExQ1.6.12 [REP3-059], esboniodd yr ymgeisydd fod cyfraniad y datblygiad arfaethedig at ddyddodion asid yn anghanfyddadwy ac na fydd yn cyfrannu at unrhyw effeithiau dyddodion asid ar y cyd. Felly, daeth yr ymgeisydd [REP3-059] i'r casgliad na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn arwain at LSE yn sgil dyddodion asid ar ACA Safleoedd Madfallod Dŵr Glannau Dyfrdwy a Bwcle.</p>	Dd/B – mater wedi'i ddatrys.
<b>ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid</b>			
2.3.7	<b>Adeiladu, gweithredu a datgomisiynu</b> Allyriadau egsôst a staciau – llyriad-y- dŵr arnofiol ( <i>Lurionium natans</i> )	<p>Mae paragraff 7.2.56 y RIHRA [APP-253] yn datgan mai'r unig nodwedd gymwys o ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid sy'n sensitif i effeithiau ar ansawdd aer yw llyriad-y-dŵr arnofiol. Daw'r RIHRA [APP-253] i'r casgliad na fyddai LSE gan fod llyriad-y-dŵr arnofiol yn bodoli yn rhan Llyn Tegid o'r ACA yn unig a'r tu hwnt i Zol y datblygiad arfaethedig.</p> <p>Anghytunodd NE [RR-026] NE36 ac NE42) â chasgliad sgrinio'r ymgeisydd a dadleuodd na ddylai llygryddion yn yr aer gymhlethu gallu'r rhywogaeth hon i gytrefu ardaloedd newydd. Gofynnodd NE [RR-026] i'r asesiad ansawdd aer ystyried ymestyn poblogaethau llyriad-y-dŵr arnofiol.</p> <p>Esboniodd yr ymgeisydd [REP1-062] fod llyriad-y-dŵr arnofiol wedi'i gyfyngu i Llyn Tegid a rhannau uchaf Afon Dyfrdwy sy'n</p>	Dd/B – mater wedi'i ddatrys.

		<p>lifo'n araf, sydd oddeutu 50 km oddi wrth y rhan o Afon Dyfrdwy y mae'r datblygiad arfaethedig yn debygol o effeithio arni. Roedd yr ymgeisydd [REP1-062] o'r farn ei bod yn afrealistig tybio y gallai'r rhywogaeth hon ledaenu o Lyn Tegid trwy Afon Dyfrdwy gan fod cymeriad yr amgylchedd rhwng rhannau uchaf ac isaf Afon Dyfrdwy yn gwbl wahanol.</p> <p>Wrth ymateb i ExQ1.6.14 [PD-012], ailadroddodd yr ymgeisydd [REP3-059] ei ymateb i'r sylwadau perthnasol.</p> <p>Roedd NE [REP3-061] ExQ1.6.13) o'r farn bod cyfiawnhad yr ymgeisydd yn dderbyniol ac mae hefyd wedi derbyn gwybodaeth gan CNC i gefnogi cyfiawnhad yr ymgeisydd ymhellach sy'n dangos nad yw llyriad-y-dŵr arnofiol yn bodoli yn rhannau isaf Afon Dyfrdwy.</p> <p>Mae'r SoCG [REP3-051] rhwng NE a'r ymgeisydd wedi cael ei ddiweddarau hefyd i gadarnhau bod y mater hwn wedi'i ddatrys.</p>	
2.3.8	<p><b>Adeiladu/ datgomisiynu</b> Allyriadau egsôst – lefelau critigol</p>	<p>Cynghorodd NE [RR-026] (NE36) nad yw'r RIHRA yn cynnwys tystiolaeth o ystyried lefelau critigol amoniwm a NOx ar gyfer llystyfiant arnofiol ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid.</p> <p>Dywedodd yr ymgeisydd [REP1-062] y cyfeirir yn glir at lefelau critigol amoniwm a NOx ar gyfer y llystyfiant arnofiol ym mharagraff 7.2.56 y RIHRA [APP-253].</p> <p>Mae'r SoCG [REP3-051] rhwng NE a'r ymgeisydd yn dangos bod NE yn fodlon ar y cyfeiriad hwn a bod y mater hwn wedi'i ddatrys.</p>	Dd/B – mater wedi'i ddatrys.
2.3.9	<p><b>Adeiladu/ datgomisiynu</b> Allyriadau egsôst</p>	<p>Daeth y RIHRA [APP-253] i'r casgliad na fyddai'r lefelau critigol ar gyfer amonia a NOx yn cael eu torri yn ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid yn unigol nac ar y cyd.</p> <p>Gofynnodd yr ExA [PD-012] i NE wneud sylwadau ar y casgliad yn y RIHRA [APP-253] na fyddai'r lefelau critigol amonia a</p>	<p><b>RQ.25 [At NE] Pa dystiolaeth ychwanegol sy'n ofynnol er mwyn i'r ymgeisydd gyfiawnhau ei gasgliad na fyddai'r lefelau critigol amonia a nitrogen yn cael eu torri yn ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid</b></p>

		<p>nitrogen yn cael eu torri yn ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid yn sgil mwy o allyriadau egsôst yn ystod adeiladu.</p> <p>Wrth ymateb i ExQ1.6.15 [PD-012], nododd NE [REP4-090] nad yw'r RIHRA wedi'i ddiweddarau [CR1-105] a gyflwynwyd i gyd-fynd â'r cais am gael gwneud newid yn newid y casgliadau a gyflwynwyd yn flaenorol yn sylweddol, ac nad yw mewn sefyllfa eto i gadarnhau ei fod yn cytuno â chasgliadau'r ymgeisydd.</p>	<p><b>yn sgil allyriadau egsôst yn ystod adeiladu?</b></p>
2.3.10	<p><b>Gweithredu</b> Allyriadau staciau – llyriad-y-dŵr arnofiol</p>	<p>Roedd NE [RR-026] (NE42) yn anghytuno â chasgliadau'r ymgeisydd ynglŷn â llygredd atmosfferig gweithredol o ddyddodion nitrogen ac amonia ar ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid. Dadleuodd NE [RR-026] fod y data a gyflwynir yn atodiad 8D y Datganiad Amgylcheddol [APP-183] yn dangos y gallai'r llwyth critigol ar gyfer dyddodion nitrogen ac amonia gael ei dorri yn yr ACA hon o ganlyniad i allyriadau staciau gweithredol.</p> <p>Cyfeiriodd yr ymgeisydd [REP1-062] at y RIHRA [APP-253], gan ddatgan bod paragraff 7.2.56 yn egluro na fyddai'r lefelau critigol ar gyfer amonia a NOx yn cael eu torri yn yr ACA hon yn unigol nac ar y cyd yn ystod adeiladu a gweithredu.</p> <p>Nododd yr ExA [PD-012] nad yw paragraff 7.2.56 y RIHRA yn esbonio pam na fyddai'r lefelau critigol yn cael eu torri yn yr ACA hon yn ystod gweithredu a gofynnodd i'r ymgeisydd gyfeirio at y wybodaeth berthnasol yn ei ddogfennau cais.</p> <p>Wrth ymateb i ExQ1.6.16 [PD-012], cyfeiriodd yr ymgeisydd [REP3-059] yr ExA at atodiad 8-D y Datganiad Amgylcheddol [CR1-089], sydd wedi cael ei ddiweddarau yn dilyn y cais am gael gwneud newid, gan ddweud bod y data a gyflwynir yn y tablau perthnasol yn dangos na fyddai dyddodion nitrogen ac amonia yn mynd yn fwy na'r lefel critigol ar gyfer yr ACA.</p>	<p>Dd/B – mater wedi'i ddatrys.</p>

		Cadarnhaodd y SoCG [REP3-051] rhwng NE a'r ymgeisydd fod NE o'r farn bod tebygolrwydd LSE ar yr ACA yn lleiafswmiol a bod y mater hwn wedi'i ddatrys bellach.	
<b>AGA a safle Ramsar Aber Afon Mersi</b>			
2.3.11	<b>Gweithredu</b> Allyriadau staciau	<p>Daeth y RIHRA [APP-253] i'r casgliad nad oes unrhyw rai o rywogaethau adar cymwys AGA a safle Ramsar Aber Afon Mersi yn sensitif i effeithiau ansawdd aer ar eu cynefinoedd a bod effeithiau ansawdd aer yr un mor debygol o fod yn gadarnhaol ag yn negyddol. Er enghraifft, cynyddu digonedd ysglyfaeth. Fodd bynnag, datganodd paragraff 7.3.37 y RIHRA [APP-253] y gallai dyddodion nitrogen ar gynefin morfa heli gael effaith negyddol ar wyachod mawr copog, ond byddai angen newidiadau strwythurol mawr i'r cynefin ac, o ganlyniad, roedd yr ymgeisydd o'r farn bod y llwyth critigol uchaf ar gyfer nitrogen, sef 20 kg N/ha/y flwyddyn yn fwyaf priodol i asesu'r rhywogaeth hon yn hytrach na'r llwyth critigol nitrogen isaf ar gyfer morfa heli (10 kg N/ha/y flwyddyn).</p> <p>Esboniodd yr ymgeisydd [APP-253] y rhagfynegir dyddodion nitrogen ar y cyd o 0.04 kg N/ha/y flwyddyn ar gyfer derbynnydd OE6, gyda Chrynodiad Amgylcheddol Rhagfynedig (PEC) o 17.3 kg N/ha/y flwyddyn. Daeth y RIHRA [APP-253] i'r casgliad gan fod y PEC islaw'r llwyth critigol 20 kg N/ha/y flwyddyn a ddefnyddiwyd ar gyfer gwyachod mawr copog, na fyddai LSE yn sgil llygredd atmosfferig ar AGA a safle Ramsar Aber Afon Mersi.</p> <p>Dadleuodd NE [RR-026] (NE43) y byddai ystyried sensitifrwydd y rhywogaethau adar sy'n gysylltiedig â'r AGA a'r safle Ramsar yn berthnasol mewn asesiad priodol ond nid yn ystod y cam sgrinio. Dywedodd NE [RR-026] hefyd y dylai'r asesiad sgrinio gael ei seilio ar y Cyfraniad Proses (PC) a fodelwyd wrth y derbynnydd a chyfeiriodd at dablau 33, 35, 36 a 38 yn atodiad 8-D y Datganiad Amgylcheddol [APP-183] sy'n dangos y byddai'r rhain yn 0.1% ar</p>	<p><b>RQ.26 [At yr ymgeisydd] A all yr ymgeisydd gyfiawnhau ymhellach pam mae'n ystyried ei bod yn briodol defnyddio lefel gritigol uwch ar gyfer yr asesiad o ddyddodion nitrogen ar AGA a safle Ramsar Aber Afon Mersi yn ystod gweithredu?</b></p> <p><b>RQ.27 [At yr ymgeisydd] A all yr ymgeisydd gyfeirio at wybodaeth sy'n amlinellu'r meini prawf a'r data sgrinio perthnasol a ddefnyddiwyd i asesu dyddodion asid ac amonia ar AGA a safle Ramsar Aber Afon Mersi yn ystod gweithredu, neu ddarparu'r wybodaeth hon?</b></p>

	<p>gyfer NOx, 0.2% ar gyfer amonia, 0.4% ar gyfer dyddodion nitrogen a 0.3% ar gyfer dyddodion asid o'r prosiect ar ei ben ei hun.</p> <p>Nododd yr ymgeisydd [REP1-062] nad oes gofyniad cyfreithiol i eithrio ystyried gwybodaeth am sensitifrwydd nodweddion cymwys safle Ewropeaidd yn ystod cam sgrinio HRA y broses HRA.</p> <p>Mae'r SoCG [REP3-051] rhwng yr ymgeisydd a NE yn dangos bod y mater hwn yn parhau i gael ei drafod. Cytunodd NE [REP3-051] fod y cyfraniadau staciau gweithredol wrth y derbynnydd yn fach. Fodd bynnag, dywedodd NE [REP3-051] fod rhaid i'r asesiad sgrinio ar gyfer yr unedau yn Lloegr gael ei seilio ar PCau a PECau y gellir eu dilysu ar gyfer yr holl lygryddion perthnasol yn erbyn llwythi a lefelau critigol terfyn is. Gofynnodd NE [REP3-051] hefyd am dystiolaeth lawn o'r metrigau sgrinio dyddodion asid ac amonia.</p>	
--	---	--

**Tabl 2.4: Sŵn ac aflonyddu gweledol – Materion a godwyd yn yr archwiliad hyd yma gan yr ExA a phartion â buddiant ynglŷn â sgrinio LSEau (yn unigol ac ar y cyd) gan yr ymgeisydd**

ID	Llwybr effaith posibl	Manylion y mater	Sylw / cwestiwn yr ExA
<b>ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid</b>			
2.4.1	<b>Adeiladu neu ddatgomiynu</b> Aflonyddwch sŵn – dyfrgwn	Nid oedd NE [RR-026] (NE53) yn cytuno â'r ymgeisydd bod dyfrgwn yn gallu goddef amgylcheddau swillyd. Dywedodd y gallai staff nos darfu ar ddyfrgwn sy'n teithio o un man i'r llall. Felly, nid oedd NE yn cefnogi'r dull o ddiystyru LSE. Datganodd ymateb yr ymgeisydd [REP1-062] y byddai angen	Dd/B – mater wedi'i ddatrys

		<p>i weithwyr fynd i mewn i Aber Afon Dyfrdwy. Dywedodd hefyd fod y rhannau o Afon Dyfrdwy yr effeithir arnynt yng Nghymru, ac nad yw CNC wedi codi unrhyw effeithiau posibl.</p> <p>Cadarnhaodd SoCG NE [REP3-051], wrth nodi hyn, fod NE yn ildio i CNC ar y mater hwn, ac ni wnaeth sylwadau pellach.</p> <p>Roedd CNC [RR-027] yn fodlon ar arolwg ac asesiad yr ymgeisydd, fel y cadarnhawyd yn ei ymateb i ExQ1.7.6 [REP3-062], ac o ystyried y mesurau lliniaru sŵn a goleuadau ymgorfforedig, roedd yn fodlon ar gasgliadau'r ymgeisydd.</p>	
<b>ACA, AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy</b>			
2.4.2	<p><b>Gweithredu</b> Aflonyddwch sŵn – dull asesu</p>	<p>Daeth y RIHRA [APP-253] i'r casgliad, yn seiliedig ar fodlu sŵn, y rhagfynegir na fydd lefelau sŵn gweithredol yn mynd yn fwy na 60dB LAeq yn unrhyw le o fewn ACA, AGA na safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy, hyd yn oed heb ffensys acwstig neu fesurau lliniaru o unrhyw fath arall.</p> <p>Dywedodd NE [RR-026] (NE16) nad yw'n cefnogi defnyddio trothwyon, gan fod ymateb adar i sŵn yn benodol i'r safle a'r rhywogaeth. Gofynnodd NE [RR-026], pan fydd newid o 3dB neu fwy o fewn y lefelau sŵn sylfaenol, y dylid amlygu ac ystyried LSE o fewn yr asesiad priodol.</p> <p>Esboniodd yr ymgeisydd [REP1-062] fod y rhannau o ACA, AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy yr effeithir arnynt yng Nghymru a bod CNC wedi cytuno i ddefnyddio'r trothwy 60dB. Daeth yr ymgeisydd i'r casgliad, gan na fyddai sŵn a gynhyrchir yn ystod gweithredu'r datblygiad arfaethedig yn mynd yn fwy na 60 dB (LAeq neu LAmx), nad oes angen asesiad priodol.</p> <p>Ar ôl adolygu, cytunodd NE [REP3-059] fod modelu sŵn yn dangos na fydd effeithiau sŵn gweithredol ar ran Lloegr o</p>	Dd/B – mater wedi'i ddatrys.

Adroddiad ar y Goblygiadau i Safleoedd Ewropeaidd ar gyfer  
Prosiect Pŵer Carbon Isel Cei Connah

		<p>ACA, AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy a'i fod yn fodlon nad oes angen ystyried yr effaith hon ymhellach.</p> <p>Wrth ymateb i EXQ1.7.5 [PD-012], cadarnhaodd CNC [REP3-062] ei fod yn fodlon ar asesiad yr ymgeisydd hefyd ac yn cytuno â'r casgliad na fyddai LSE yn sgil effeithiau aflonyddwch sŵn yn codi'n unigol nac ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill yn ystod gweithredu.</p>	
--	--	---	--

**Tabl 2.5: Llygredd a gludir mewn dŵr – Materion a godwyd yn yr archwiliad hyd yma gan yr ExA a phartïon â buddiant ynglŷn â sgrinio LSEau (yn unigol ac ar y cyd) gan yr ymgeisydd**

ID	Llwybr effaith posibl	Manylion y mater	Sylw / cwestiwn yr ExA
<b>ACA, AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy ac ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid</b>			
2.5.1	<p><b>Adeiladu a datgomisiynu</b> Ansawdd dŵr o lygredd a gludir mewn dŵr a allai effeithio ar rywogaethau pysgod cymwys.</p>	<p>Hepgorodd y RIHRA [APP-253] y llwybr hwn oherwydd dywedodd yr ymgeisydd y gellir adeiladu seilwaith newydd i atal llygredd a sicrhau na fydd effeithiau andwyol ar unrhyw safle cynefinoedd. Trwy gydymffurfio â rheoliadau eraill presennol, fel y CEMP, a fydd yn rhoi gweithdrefnau ar waith i atal gollyngiadau o'r gwaith rhag mynd i mewn i ddŵr wyneb, dŵr daear, gwlyptiroedd neu ddyfroedd arfordirol.</p> <p>Anghytunodd CNC [RR-027] ag ystyried mesurau lliniaru wrth sgrinio a dywedodd na ddarparwyd gwybodaeth i awgrymu y bydd mesurau rheoli'n osgoi'r effaith yn y lle cyntaf, ac felly y dylai'r dulliau penodol ar gyfer lliniaru fod ar gael i'w hasesu.</p> <p>Dywedodd yr ymgeisydd [REP1-062] y gellir ystyried mesurau sy'n gyfreithiol ofynnol yn ystod LSE fel rhan annatod o'r dyluniad i gydymffurfio â deddfwriaeth arall.</p> <p>Cytunodd NE [REP3-051] â'r dull lliniaru ac ildiodd i gyngor CNC oherwydd byddai'r effeithiau'n digwydd ar ochr Cymru o Aber Afon Dyfrdwy.</p> <p>Dywedodd yr ymgeisydd [REP4-062] yn SoCG CNC fod y mater hwn yn parhau i gael ei drafod a rhoddwyd cyngor ar symud y mater ymlaen i asesiad priodol.</p>	<p><b>RQ.28 [At yr ymgeisydd a CNC]</b> <b>Mae'r ExA yn gofyn am ddiweddariad ar gynnydd ynglŷn â'r mater hwn.</b></p>

**Tabl 2.6: Newidiadau hydrolegol – Materion a godwyd yn yr archwiliad hyd yma gan yr ExA a phartïon â buddiant ynglŷn â sgrinio LSEau (yn unigol ac ar y cyd) gan yr ymgeisydd**

ID	Llwybr effaith posibl	Manylion y mater	Sylw / cwestiwn yr ExA
<b>AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy</b>			
2.6.1	<p><b>Adeiladu a datgomiynu</b> Cyfaint, lefel a llif dŵr yn effeithio ar gynefinoedd a rhywogaethau cymwys (llysywod pendoll y môr/ yr afon, bawd y melinydd a dyfrgwn)</p>	<p>Daeth y RIHRA [APP-253] i'r casgliad y gallai'r llwybr effaith hwn gael ei hepgor ar y sail nad yw'r Cynllun Gwella Safle ar gyfer ACA, AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy yn amlygu newid i gyfaint, lefel a llif dŵr. Ni roddodd CNC [RR-027] sylwadau ar y mater hwn.</p> <p>Nid oedd NE [RR-026] (NE26) yn cytuno y gallai'r llwybr effaith hwn gael ei hepgor a gofynnodd am fanylion ynglŷn â newid defnydd a newidiadau posibl i'r system, llif a chyflymder hydrolegol, gan gynnwys cemeg dŵr, yr effaith ar waddodiad a thymheredd dŵr i gefnogi'r asesiad.</p> <p>Dywedodd yr ymgeisydd [REP1-062], gyda Chyfarwyddydau Cyffredinol Dyfrdwy ar waith, na fyddai angen cyflenwadau dŵr ychwanegol y tu hwnt i'r cydsyniadau a'r cyfeintiau trwyddedig presennol. Byddai'r drwydded bresennol a'r terfynau gollwng presennol a ganiateir sy'n cael eu rheoli trwy'r drwydded amgylcheddol bresennol yn cael eu cynnal. Fel y cyfryw, nid yw'r ymgeisydd yn newid y llinell sylfaen bresennol, yr ystyriwyd ei bod yn dderbyniol yn sgil caniatáu'r drwydded amgylcheddol bresennol.</p> <p>Mae SoCG NE [REP3-051] yn datgan bod y mater hwn yn parhau i gael ei drafod.</p>	<p><b>RQ.29 [At yr ymgeisydd a NE]</b> Mae'r ExA yn gofyn am ddiweddariad ar gynnydd ynglŷn â'r mater hwn.</p>

<b>ACA, AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy ac ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid</b>			
2.6.2	<b>Gweithredu</b> Cyfaint, lefel a llif dŵr a allai effeithio ar bysgod cymwys	Hepgorodd y RIHRA [APP-253] y llwybr effaith hwn ar y sail ei fod yn cynnig cynnal y paramedrau tynnu a gollwng presennol. Nid oedd NE [RR-026] (NE55) yn cytuno y gellid hepgor LSE ar y sail hon oherwydd nodwyd bod rhywogaethau pysgod cymwys yn defnyddio'r cyrsiau dŵr o amgylch y cynllun, gan gynnwys yr ardal oedd tynnu dŵr. Gofynnwyd am fwy o fanylion am y system tynnu dŵr. Roedd ymateb yr ymgeisydd [REP-062] yr un fath ag ar gyfer mater ID 2.6.1.	<b>RQ.30 [At NE] A wnewch chi gadarnhau eich safbwynt ar y mater hwn? Os nad yw'r mater wedi'i ddatrys, rhowch resymau ac amlinellwch yn glir gamau penodol y credwch y dylai'r ymgeisydd eu cymryd i ddatrys pryderon sy'n weddill ynglŷn â'r mater hwn.</b>
<b>ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid</b>			
2.6.3	<b>Adeiladu a datgomisiynu</b> Cyfaint, lefel a llif dŵr a allai effeithio ar gynefinoedd bentig a geomorffoleg arfordirol	Hepgorodd y RIHRA [APP-253] y llwybr effaith hwn oherwydd er y byddai rhywfaint o gynefin bentig yn cael ei golli dros dro, mae'r effaith yn debygol o fod yn gyfyngedig iawn o ran graddfa a hyd. Nid oedd NE [RR-026] (NE27) o'r farn bod asesiad digonol wedi cael ei gynnal. Fodd bynnag, datganodd SoCG yr ymgeisydd gydag NE [REP3-051], oherwydd y bydd unrhyw effeithiau sy'n gysylltiedig â badau camlas sy'n mynd yn sownd ar waddodion rhynglanw yn digwydd ar ochr Cymru o Aber Afon Dyfrdwy, fod NE yn ildio i gyngor CNC ar yr effaith hon ac nad oes ganddo sylwadau pellach. Ni roddodd CNC [RR-027] sylwadau ar hyn.	<b>RQx.31 [At CNC] A wnewch chi gadarnhau eich safbwynt ar y mater hwn? Os nad yw'r mater wedi'i ddatrys, rhowch resymau ac amlinellwch yn glir gamau penodol y credwch y dylai'r ymgeisydd eu cymryd i ddatrys pryderon sy'n weddill ynglŷn â'r mater hwn.</b>

**Tabl 2.7: Llwybrau effaith eraill sy'n weddill – Materion a godwyd yn yr archwiliad hyd yma gan yr ExA a phartïon â buddiant ynglŷn â sgrinio LSEau (yn unigol ac ar y cyd) gan yr ymgeisydd**

ID	Llwybr effaith posibl	Manylion y mater	Sylw / cwestiwn yr ExA
<b>AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy ac ACA Safleoedd Madfallod Dŵr Glannau Dyfrdwy a Bwcle</b>			
2.7.1	<p><b>Adeiladu, gweithredu a datgomisiynu</b> Cyflwyno INNS o sawl llwybr</p>	<p>Hepgorodd y RIHRA [APP-253] y llwybr effaith hwn ac ni roddodd NE [RR-026] sylwadau ar y mater.</p> <p>Anghytunodd CNC [RR-027] (NRW17) â dull yr ymgeisydd, gan ddatgan na fyddai'r Cynllun Rheoli INNS Morol amlinellol a'r Aseiad Risg Bioddogelwch yn lleihau risg lledaeniad INNS yn ddigonol. Dywedodd yr ymgeisydd [REP1-062] y byddai aseiad manwl o risgiau INNS morol yn llywio Cynllun Rheoli INNS Morol wedi'i ddiweddarau. Mae'r Cynllun Rheoli INNS amlinellol [APP-209] wedi cael ei ddiweddarau gyda gwybodaeth ychwanegol sy'n cynnwys ymrwymiad i sicrhau hyn trwy gymeradwyaeth a geir cyn y gwaith.</p> <p>Cadarnhaodd CNC [REP2-023] ei fod yn fodlon bod y Cynllun Rheoli INNS Morol wedi'i ddiweddarau sy'n cynnwys ymrwymiad i gyflwyno cynllun manylach cyn cyflwyno'r CEMP terfynol yn ffurfiol, yn mynd i'r afael yn ddigonol â'i bryderon ynglŷn â risgiau INNS morol, a chadarnhaodd CNC [REP3-029] fod y mater hwn wedi'i ddatrys.</p> <p>Gofynnodd adroddiad ar yr effaith leol FCC [REP2-021] am wybodaeth ychwanegol am bresenoldeb INNS o fewn yr ardal arolygu ac, os deuir ar eu traws, bod rhywogaethau'n cael eu cofnodi a'u hadlewyrchu yn y Datganiad Amgylcheddol a'r aseiad Budd Net i Fioamrywiaeth (NBB). Fodd bynnag, nid oedd yn glir a</p>	<p><b>RQ.32 [At FCC] Cadarnhewch a yw'ch pryderon ynglŷn ag INNS yn berthnasol i'r RIHRA ac, os felly, cadarnhewch a ymdriniwyd â'r rhain trwy ymateb yr ymgeisydd i CNC [REP1-062]. Os na, rhwch resymau ac amlinellwch yn glir gamau penodol y credwch y dylai'r ymgeisydd eu cymryd i ddatrys pryderon sy'n weddill ynglŷn â'r mater hwn.</b></p>

		oedd gan FCC bryderon ynglŷn â'r mater hwn mewn perthynas â'r RIHRA.	
<b>ACA Mynydd Helygain ac ACA Safleoedd Madfallod Dŵr Glannau Dyfrdwy a Bwcle</b>			
2.7.2	<b>Adeiladu, gweithredu a datgomisiynu</b> Cyflwyno Rhywogaethau Estron Goresgynnol (INNS)	<p>Nododd CNC [RR-027] (NRW18) y cynigir hepgor y mater hwn, ond nad yw'n ymddangos yr ystyriwyd y risgiau bioddiogelwch sy'n gysylltiedig â chlefydau heintus fel Chytrid. Gan fod y gwaith o fewn 2km o ACA Safleoedd Madfallod Dŵr Glannau Dyfrdwy a Bwcle, cynghorodd CNC y dylai'r HRA ystyried risgiau bioddiogelwch o'r fath.</p> <p>Ymatebodd yr ymgeisydd [REP-062] drwy ddatgan bod y ddau safle dynodedig wedi'u gwahanu oddi wrth y gwaith gan rwystrau mawr, heb gysylltiadau hydrolegol. Gan fod chytrid yn cael ei ledaenu'n bennaf trwy gysylltiad â söosborau a gludir mewn dŵr, ystyrir ei bod yn rhesymol hepgor y llwybr effaith INNS hwn.</p> <p>Cadarnhaodd SoCG CNC [REP3-029] y cytunwyd ar y mater ar y sail y byddai arolwg Cynllun Rheoli Rhywogaethau Goresgynnol (ISMP) yn cael ei ddiweddarau cyn adeiladu. Os ystyrir bod angen, byddai Cynllun Rheoli Rhywogaethau Goresgynnol yn cael ei baratoi i gyd-fynd â'r CEMP(au) terfynol gyda chytundeb rhanddeiliaid perthnasol.</p>	Dd/B – mater wedi'i ddatrys

## 2.6 Crynodeb o ganlyniadau'r archwiliad o ran sgrinio

- 2.6.1 Amlinellir uchod ddealltwriaeth yr ExA o safbwyntiau presennol yr ymgeisydd ac ANCBau perthnasol o ran LSE.
- 2.6.2 Hyd yma yn yr archwiliad, mae'r materion a amlygwyd yn nhabl 2.2 y RIES hwn mewn perthynas ag LSE y dadleuir yn eu cylch heb eu datrys o hyd. Mae'r ExA yn ceisio ymatebion gan yr ymgeisydd ac ANCBau, lle y nodir, i egluro'r materion sy'n weddill.

### 3 EFFEITHIAU ANDWYOL AR GYFANRWYDD

#### 3.1 Amcanion Cadwraeth

- 3.1.1 Mae'r amcanion cadwraeth ar gyfer yr holl safleoedd Ewropeaidd yr amlygwyd LSE arnynt gan yr ymgeisydd ar adeg y cais DCO wedi'u cynnwys yn y RIHRA, tabl C-2 [APP-253].
- 3.1.2 Yn ExQ1 [PD-012], ceisiodd yr ExA gadarnhad ynghylch statws cadwraeth y safleoedd Ewropeaidd a symudwyd ymlaen i gam 2 asesiad priodol. Nid yw'r ymgeisydd [REP3-059] yn credu bod y statws cadwraeth wedi'i gyhoeddi.

**RQ.33 [At CNC a NE] Cadarnhewch statws cadwraeth yr holl safleoedd Ewropeaidd a symudwyd ymlaen i gam 2 asesiad priodol yr HRA.**

#### 3.2 Asesiad yr ymgeisydd

- 3.2.1 Cafodd y safleoedd Ewropeaidd a'r nodweddion cymwys yr amlygwyd LSE ar eu cyfer eu hasesu ymhellach gan yr ymgeisydd i bennu a allent fod yn destun AEol o'r datblygiad arfaethedig, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd, ym mhennod 10 y RIHRA [APP-253].

##### **Mesurau lliniaru**

- 3.2.2 Mae'r asesiad o effeithiau a gyflwynir yn adrannau 10.2 a 10.3 y RIHRA [APP-253] yn amlinellu lle mae angen mesurau lliniaru i osgoi effeithiau o bob llwybr effaith a gynhwyswyd yn yr asesiad neu leihau'r effeithiau hynny gymaint â phosibl. Lle yr ystyrir bod mesurau lliniaru'n angenrheidiol, fe'u disgrifiwyd yn y RIHRA. Ystyriwyd y rhain yn asesiad yr ymgeisydd o effeithiau ar gyfanrwydd.

##### **Safleoedd y daeth yr ymgeisydd i'r casgliad nad oedd AEol arnynt**

- 3.2.3 Daeth yr ymgeisydd i'r casgliad na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd unrhyw un o'r safleoedd Ewropeaidd a nodweddion a aseswyd, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â phrosiectau neu gynlluniau eraill.
- 3.2.4 Er gwaethaf y casgliad hwn, gan nad oedd CNC a NE yn cytuno ar y cyfiawnhad i'r casgliad hwn, gofynnodd yr ExA am achos rhanddirymiad 'heb ragfarnu' a gwybodaeth am fesurau digolledu arfaethedig ar gyfer y safleoedd, y nodweddion a'r llwybrau effaith canlynol:
- ACA Aber Afon Dyfrdwy – Dôl heli Iwerydd – Colli/ difrodi cynefin cymwys yn uniongyrchol ac effaith ar ansawdd aer (dyddodion nitrogen)
  - AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy – Gylfinirod – Colli tir sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol
- 3.2.5 Mae'r RIES yn rhoi trosolwg o'r rhanddirymiaidau a'r mesurau digolledu yn adrannau 4 a 5.

3.2.6 Cafodd casgliadau'r ymgeisydd ynglŷn ag ACA, AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy eu herio gan bartïon â buddiant a'u harchwilio gan yr ExA yn ystod yr archwiliad. Gweler adran 3.3 y RIES hwn am fanylion ychwanegol.

### 3.3 Materion Archwiliad

3.3.1 Mae materion a godwyd yn yr archwiliad hyd yma, neu y mae'r ExA yn ceisio eglurhad ynglŷn â nhw, mewn perthynas ag AEolau wedi'u crynhoi yn nhablau 3.1 i 3.4 isod.

**Tabl 3.1: Colli cynefin yn uniongyrchol – Materion a godwyd yn yr archwiliad hyd yma gan yr ExA a phartïon â buddiant ynglŷn ag asesiad yr ymgeisydd o effeithiau ar gyfanrwydd (yn unigol ac ar y cyd)**

ID	Llwybr effaith posibl	Manylion y mater	Sylw / cwestiwn yr ExA
<b>ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid</b>			
3.1.1	Colli cynefin yn uniongyrchol	<p>Nododd yr ymgeisydd [RR-062] na chynigir unrhyw waith yn ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid, felly nid yw colli cynefin yn uniongyrchol yn gysylltiedig â'r safle wedi'i asesu yn y RIHRA [APP-253].</p> <p>Mae NE [REP3-051] yn cytuno na fydd unrhyw effeithiau ar ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid o'r effaith hon.</p>	Dd/B – mater wedi'i ddatrys.
<b>ACA, AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy</b>			
3.1.2	<p><b>Adeiladu, gweithredu a datgomisiynu</b></p> <p>Colli dâl heli lwerydd – colli ardal dros dro ac yn barhaol</p>	<p>Nododd CNC [RR-027] anghysondebau yn yr ardal o ddôl heli lwerydd y nodwyd y byddai'n cael ei cholli o ganlyniad i adeiladu'r ollyngfa dŵr wyneb arfaethedig, y cyfeirir ati yn y RIHRA [APP-253] a'r Datganiad Amgylcheddol, a gofynnodd am eglurhad pellach.</p> <p>Gofynnodd NE [RR-026] hefyd am gyfiawnhau'r ardal o ddôl heli lwerydd a gollir yn ystod adeiladu'r ollyngfa dŵr wyneb newydd, gan gynnwys dimensiynau strwythurau a fyddai'n cael eu creu/ eu hadnewyddu.</p> <p>Eglurodd NE [REP1-066] ymhellach yn ISH2 fod yr ardal o ddôl heli lwerydd a gollir yn barhaol (5m<sup>2</sup>) wedi'i nodi yn yr achos rhanddirymiaidau yn unig [PDA-003] ac nid y RIHRA [APP-253].</p>	<p><b>RQ.34 [At yr ymgeisydd]</b></p> <p>a) Cadarnhewch leoliad y bibell ollwng a faint ohoni sy'n debygol o gael ei chladdu, a ble y byddai'r lleoliadau ar ben y tir.</p> <p>b) Diweddarwch y RIHRA i gynnwys canlyniadau'r GWSR.</p> <p><b>RQ.35 [At CNC a NE]</b> Cadarnhewch a yw'ch</p>

		<p>Cydnabu'r ymgeisydd [REP1-066] fod y RIHRA [APP-253] yn datgan yn unig y bydd yr ardal o ddôl heli lwerydd a gollir yn barhaol yn fach iawn, ond cadarnhaodd mai'r ardal o ddôl heli lwerydd a gollir yn barhaol yw 5m<sup>2</sup> a'r ardal o ddôl heli lwerydd a gollir dros dro yw 650m<sup>2</sup> a bod yr ardaloedd hyn wedi cael eu hasesu yn y RIHRA.</p> <p>Nododd CNC [REP2-023] sylwadau'r ymgeisydd a chydabu y byddai'r colledion parhaol yn dipyn llai na 650m<sup>2</sup> gan y byddai'r coridor gwaith yn cael ei adfer ac y gellir claddu'r rhan fwyaf o'r bibell ollwng. Ceisiodd CNC gadarnhad ynglŷn â lleoliad y bibell a faint ohoni sy'n debygol o gael ei chladdu, a ble y byddai'n cael ei lleoli ar ben y tir.</p> <p>Dywedodd yr ymgeisydd [REP3-051] fod yr ardal o 650m<sup>2</sup> ar gyfer colledion dros dro yn dybiaeth achos gwaethaf bod ardal yr ollyngfa dŵr wyneb yn ddôl heli lwerydd, ond mae'r Adroddiad Arolwg Geomorffolegol ar Droed (GWSR) [REP2-020] yn dangos bod yr ardal y tu ôl i'r cefnurf presennol yn cynnwys coetir, prysgwydd a llwybr. Felly, bydd yr ardal colledion dros dro yn llai na 650m<sup>2</sup> ac fe'i cadarnheir ar ôl cwblhau Arolwg Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol yn yr ardal hon rhwng mis Mehefin a mis Awst 2026.</p>	<p>pryderon wedi'u datrys, Os na, rhowch resymau ac amlinellwch yn glir gamau penodol y credwch y dylai'r ymgeisydd eu cymryd i ddatrys pryderon sy'n weddill ynglŷn â'r mater hwn yn llawn.</p>
3.1.3	Lliniaru o gymharu â digolledu – cilio a reolir ar gyfer dôl heli lwerydd ac ymestyn hyd rheoli	<p>Mae'r ymgeisydd [APP-253] yn cynnig galluogi cilio a reolir ar gyfer yr arglawdd rhwng yr orsaf bŵer ac ACA, AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy i greu tua 1,300m<sup>2</sup> er mwyn i'r ddôl heli lwerydd fudo'n naturiol tua'r tir ac ymestyn hyd rheoli'r 26ha o ddôl heli lwerydd o fewn Ardaloedd Cadwraeth bresennol Cei Connah (CQCA) a reolir gan yr ymgeisydd ar hyn o bryd. Mae'r ymgeisydd o'r farn y byddai hyn yn 'gwrthbwysu'r' effaith ar y morfa heli yn hytrach na 'digolledu' yng nghyd-destun y Rheoliadau Cynefinoedd ac mae'n ystyried ei fod yn fesur lliniaru at ddibenion HRA.</p>	Dd/B

		<p>Croesawodd CNC [RR-027] yr angen i fynd i'r afael â'r effeithiau, ond dywedodd nad oedd yn glir pam yr oedd y cynnig i ymestyn hyd rheoli'n cael ei ddsbarthu fel mesur lliniaru yn hytrach na digolledu gan na fydd yn atal y posibilrwydd o golli neu ddifrodi'r cynefin yr effeithir arno'n uniongyrchol. Cydnabu CNC y gallai cilio a reolir ar gyfer y ddôl heli lwerydd gael ei ystyried yn fesur lliniaru at ddibenion HRA, o bosibl, ond mae'n credu y byddai hyn yn amodol ar sicrwydd ynglŷn â'i effeithiolrwydd a bod y mesurau lliniaru ar waith cyn i'r effeithiau cysylltiedig ddechrau ar y safle dan sylw. Fodd bynnag, dywedodd CNC nad yw hynny'n glir ar hyn o bryd a chynghorodd, os bwriedir i'r mesurau gael eu hystyried yn fesurau lliniaru, y dylai'r safle morfa heli newydd arfaethedig gael ei greu'n foddhaol a dylid dangos ei fod yn gweithredu at ei ddiben bwriadedig cyn i'r prif waith ddechrau. Nododd CNC hefyd y byddai'r ardal morfa heli newydd arfaethedig wedi'i lleoli y tu allan i'r ACA ac felly na fyddai'n elwa o'r safon amddiffyniad statudol.</p> <p>Cynghorodd NE [RR-026] fod rhaid i'r cynigion i fynd i'r afael â cholli dôl heli lwerydd gymwys yn uniongyrchol gael eu hystyried yn fesurau digolledu a bod rhaid i'r HRA ymgysylltu â'r cam rhanddirymiad.</p> <p>Gan nodi safbwyntiau'r ANCBau a'i ddehongliad ei hun, gofynnodd yr ExA [PD-006], heb ragfarnu, i ddogfennau ategol i wneud cais am randdirymiad o dan y Rheoliadau Cynefinoedd gael eu cyflwyno.</p> <p>Wrth ymateb, cyflwynodd yr ymgeisydd [PDA-003] hysbysiad o randdirymiad HRA arfaethedig heb ragfarnu yng Nghymru.</p> <p>Yn ISH2 [REP1-066], ailddatganodd yr ymgeisydd ei safbwynt bod cilio a reolir ar gyfer amddiffynfeydd yn fesur</p>	
--	--	---	--

	<p>lliniaru yn hytrach na digolledu gan nad yw'n creu ardal newydd net o forfa heli, ond yn hytrach yn adfer prosesau arfordirol naturiol i ganiatáu ar gyfer gwarchod ardal o forfa heli bresennol a fyddai'n cael ei cholli fel arall i gynnydd yn lefel y môr, gan felly sicrhau dim colled net.</p> <p>Ailadroddodd yr ymgeisydd [REP1-062] ei safbwynt ac eglurodd y gallai greu'r ciliad cyn colli'r ddôl heli lwerydd, er nid o reidrwydd cyn i'r prif waith ddechrau, ac ar yr amod bod yr ardal cilio a reolir yn cael ei chyflawni ac yn weithredol cyn colli'r forfa heli yn sgil adeiladu'r ollyngfa, y bydd hyn yn bodloni'r gofynion cyfreithiol.</p> <p>Ailddatganodd CNC [REP1-073], yn seiliedig ar y wybodaeth a gyflwynwyd, fod amheuaeth wyddonol resymol yn parhau ac nad yw CNC yn gallu rhoi sicrwydd i'r ExA y gellid ystyried cilio'r ddôl heli lwerydd yn fesur lliniaru ar y cam hwn, yn unol â chyfraith achosion.</p> <p>Mynegodd FCC [REP2-021] bryderon na fyddai ymestyn rheoli CQCA yn gyfystyr ag ychwanegedd, o ystyried ymrwymadau rheoli presennol yn SoDdGA, ACA, AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy. Nododd yr ymgeisydd [REP3-058] sylwadau FCC, CNC a NE ac esboniodd hyd yn oed pe diystyrid y mesur ymestyn hyd rheoli, byddai cilio a reolir ar gyfer y ddôl heli lwerydd ei hun yn ddigonol i liniaru colli'r ddôl heli lwerydd.</p> <p>Cynhaliodd NE [REP3-051] ei safbwynt bod cilio a reolir ar gyfer y ddôl heli lwerydd yn fesur digolledu, ond cydnabu mai mater i'r CA yw penderfynu sut y dylid cymhwyso'r ddeddfwriaeth, ac oherwydd y bydd yr effaith hon ar ochr Cymru o Aber Afon Dyfrdwy, mae NE yn ildio i CNC.</p>	
--	--	--

<p>3.1.4</p>	<p>Cilio a reolir ar gyfer y ddôl heli Iwerydd – digonolrwydd y mesur a'r Strategaeth Creu Morfa Heli (SCS)</p>	<p>Nid oedd NE [RR-026] yn fodlon ar y cynigion digolledu/lliniaru ar gyfer colli morfa heli cymwys yn uniongyrchol ac felly ni all wneud sylwadau ar eu heffeithiolrwydd. Dywedodd NE na wyddys a yw'r mesur hwn yn ymarferol ar y cam hwn.</p> <p>Cynghorodd CNC [RR-027] [REP1-072] y dylai fod ymrwymiad cadarn (a sicrheir trwy ofyniad yn y DCO) ar gyfer cynllun lliniaru a monitro morfa heli, yn unol â'r cynllun lliniaru a monitro gylfinirod sydd i'w sicrhau trwy Ofyniad 11, a fydd yn amlinellu'r graddfeydd amser adfer, y targedau a'r cynigion monitro'n fanylach. Cynghorodd CNC hefyd y dylid cynnal arolwg planhigion prin yn yr ardaloedd lle y byddai dôl heli Iwerydd yn cael ei golli dros dro ac yn barhaol, ac y dylid cyflwyno manylion ychwanegol ynglŷn â'r priddoedd neu'r tyweirch morfa heli sydd i'w storio dros dro yn ystod adeiladu a'r dulliau adfer a ddefnyddir.</p> <p>Croesawodd CNC [REP1-072] [REP1-073] ymchwiliadau arfaethedig yr ymgeisydd i sicrhau bod lefelau tir yr ardal ailalinio a reolir yn addas i greu morfa heli a dywedodd os cadarnheir bod y safle ailalinio'n rhy uchel ar gyfer gorlif llanw naturiol, y bydd angen dangos y gellir newid y lefelau'n foddhaol i hwyluso hyn. Cynghorodd CNC y dylid cyflwyno gwybodaeth ychwanegol fel y gellir ystyried effeithiolrwydd y mesur hwn.</p> <p>Cytunodd yr ymgeisydd [REP1-062] i gynnal arolwg planhigion prin ym mis Mehefin/ mis Gorffennaf 2026 ac ymrwymodd i ddarparu SCS erbyn dyddiad cau 3 (D3), a sicrheir trwy ofyniad newydd yn y dDCO. Cadarnhaodd CNC [REP4-062] fod yr ymgeisydd wedi mynd i'r afael â'i bryderon ynglŷn ag arolygon planhigion prin.</p>	<p><b>RQ.36 [At yr ymgeisydd] Cysylltwch yn uniongyrchol â CNC ynglŷn â'ch pryderon a godwyd yn [REP4-091] a rhowch sylwadau i'r ExA.</b></p>
--------------	---	---	---

		<p>Cytunodd CNC [REP2-023] fod caniatáu i'r ddôl heli Iwerydd adfywio a chytrefu'n naturiol o fewn yr ardal dros dro yn ddull adfer mwy priodol na phlannu.</p> <p>Cytunodd FCC [REP2-021] os bydd y ddôl heli Iwerydd yn sefydlu a chysylltu'n swyddogaethol â'r ACA, yr AGA a'r safle Ramsar, nad yw AEol yn debygol o ddigwydd. Fodd bynnag, mynegodd FCC bryderon ynglŷn â'r diffyg manylion am greu'r morfa heli, a lefel sicrwydd amodau a gwaith sy'n ofynnol o ran p'un a fydd y morfa heli'n sefydlu a ph'un a fydd yr ymchwiliadau pellach yn dangos ei fod yn anhyfyw yn y lleoliad hwn. Yn ogystal â phryderon ynglŷn ag ymrwymadau monitro a rheoli yn y dyfodol ar gyfer y morfa heli Iwerydd a grëwyd.</p> <p>Croesawodd NE [REP3-051] a CNC [REP3-029] yr ymrwymiad i baratoi SCS.</p> <p>Ceisiodd yr ExA [PD-012] (ExQ1.9.17) eglurhad gan CNC ynglŷn ag effeithiolrwydd, ymarferoldeb, cyflawnadwyedd ac effeithiolrwydd ecolegol mesur cilio a reolir yr ymgeisydd ar gyfer y ddôl heli Iwerydd i leddfu graddau'r niwed posibl.</p> <p>Mae NE [REP3-061] (ExQ1.9.17) yn ildio i CNC gan y bydd y morfa heli a gollir yn uniongyrchol yn gyfan gwbl o fewn Cymru. Gohiriodd CNC [REP3-062] (ExQ1.9.17) ymateb nes iddo adolygu cyflwyniad D3 yr ymgeisydd. Mewn egwyddor, roedd CNC o'r farn y gallai mesurau arfaethedig yr ymgeisydd, petaent yn cael eu sicrhau a'u cyflawni'n foddhaol, fod yn effeithiol wrth fynd i'r afael yn ddigonol â cholli dôl heli Iwerydd dros dro. Nododd y byddai'r ardal sydd i'w chreu yn fwy na chyfanswm yr ardal o gynefin a gollir yn barhaol a dros dro ac, ymhellach, y byddai'r ddôl heli Iwerydd a gollir dros dro yn debygol o adfer oherwydd bydd y morfa heli cyfagos yn darparu ffynhonnell hadau.</p>	
--	--	---	--

		<p>Gofynnodd ExQ1.9.19 [PR-012] i'r ymgeisydd ddarparu Datganiad Dull Morfa Heli (SMS) ac SCS erbyn D4 ac egluro sut byddai'r rhain yn rhyngweithio â'i gilydd/ perthyn i'w gilydd. Esboniodd yr ymgeisydd [REP3-059] fod yr SCS a'r SMS yn gwbl ar wahân. Mae'r SCS yn galluogi ailalinio a reolir ar gyfer y ddôl heli Iwerydd ac yn darparu manylion dangosol am greu, monitro, rheoli addasol a chreu grŵp llywio morfa heli. Mae'r dDCO yn mynnu bod Cynllun Gweithredu a Monitro Morfa Heli (SIMP) yn cael ei gyflwyno cyn i'r gwaith ddechrau mewn perthynas â cholli morfa heli dros dro ac yn unol â'r SCS. Cyflwynodd yr ymgeisydd [REP3-026] SCS erbyn D3 a oedd yn manylu ar y camau sy'n ofynnol i reoli cilio dôl heli Iwerydd, a sicheir trwy Ofyniad 22 y dDCO, sy'n mynnu bod SIMP yn cael ei lunio a'i gytuno cyn i'r gwaith ddechrau ac yn unol â'r SCS yn gyffredinol.</p> <p>Wrth ymateb i bryderon FCC, dywedodd yr ymgeisydd [REP3-058] y bydd y cyfnod monitro gweithredol ar gyfer y morfa heli a ddiffinnir yn y Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecoleg amlinellol (oLEMP) [APP-250] yn cael ei ddiweddarau erbyn D4 i adlewyrchu'r monitro a amlinellir yn adran 5.4 yr SCS [REP3-026]. Cadarnhaodd yr ymgeisydd y byddai'r cyfnod pum mlynedd cychwynol yn cadarnhau effeithiolrwydd a'r gofyniad am unrhyw waith unioni.</p> <p>Ailddatganodd yr ymgeisydd [REP3-058] ei safbwynt er bod dôl heli Iwerydd yn cymryd amser i ddatblygu, y byddai'r cilio a reolir yn cyfyngu gymaint â phosibl ar erydu'r cynefin presennol a'i fod yn hyderus iawn y byddai'n sefydlu gan fod y ddôl heli Iwerydd o flaen yr ardal gilio.</p> <p>Mae CNC [REP4-091] o'r farn bod mesurau arfaethedig yr SCS i wrthbwysu effaith colli morfa heli'n barhaol a dros dro</p>	
--	--	--	--

		<p>o ganlyniad i'r ollyngfa dŵr wyneb newydd yn foddhaol mewn egwyddor, yn amodol ar egluro'r cynigion manwl sy'n cael eu cyflwyno ymhellach. Gofynnodd CNC am gadarnhad p'un a yw'r Datganiad Dull Morfa Heli (SMS) yr un peth â'r SIMP, neu'n ddogfen ar wahân, a rôl y ddau. Ceisiodd CNC eglurhad ynglŷn â'r llinell amser ar gyfer cynhyrchu'r cynlluniau manwl, a ph'un a oes gofyniad yn y dDCO i gwblhau hyn yn derfynol cyn adeiladu. Rhoddodd CNC gyngor ar arolygon a gofynnodd i ffactorau dylunio ychwanegol gael eu cynnwys yn yr SCS.</p>	
3.1.5	<p><b>Adeiladu/ datgomisiynu</b> Colli dôl heli lwerydd – sgwrio, erydu a chladdu pibell yr ollyngfa dŵr wyneb</p>	<p>Nid yw NE [RR-026] yn cytuno bod sgwrio ac erydu yn sgil gollyngiadau sy'n gysylltiedig â'r gollyngfeydd dŵr wyneb wedi cael eu hasesu'n ddigonol yn y RIHRA. Gofynnodd NE am gyfiawnhad ynglŷn â faint o'r ddôl heli lwerydd yr effeithir arni yn ystod adeiladu'r ollyngfa dŵr wyneb newydd a fyddai'n profi effeithiau sgwrio'r dŵr sy'n gollwng a sgwrio posibl o ganlyniad i lifoedd llanw o amgylch y strwythurau. Cydnabu NE hefyd y byddai'r ddôl heli lwerydd a gollir i ddechrau yn cael ei lleihau yn y tymor byr trwy gladdu rhannau o'r bibell. Fodd bynnag, mynegodd bryderon efallai na fydd hyn yn arwain at adfer y ddôl heli lwerydd yn y tymor byr.</p> <p>Nododd CNC [REP1-073] na chyflwynwyd gwybodaeth am gyfeintiau gollwng yr ollyngfa dŵr wyneb yn rhan o'r cais a dywedodd fod y wybodaeth hon yn angenrheidiol i lwyr ddeall unrhyw effaith sgwrio bosibl ar y cynefin dôl heli lwerydd.</p> <p>Dywedodd yr ymgeisydd [REP1-062] nad yw'r asesiad yn cynnwys colledion sgwrio oherwydd, fel y manylir ym mharagraff 10.2.2 y RIHRA [APP-253], ni ddisgwylir colledion sgwrio. Eglurodd yr ymgeisydd fod yr asesiad</p>	<p><b>RQ.37 [At CNC] A yw ymateb yr ymgeisydd i D3 [REP4-081] wedi datrys pryderon CNC? Os na, rhowch resymau ac amlinellwch yn glir gamau penodol y credwch y dylai'r ymgeisydd eu cymryd i ddatrys pryderon sy'n weddill ynglŷn â'r mater hwn.</b></p>

		<p>erydu'n ansoddol a'i fod wedi cael ei gynnal gan arbenigwr ar brosesau arfordirol, gan na ystyriwyd bod angen modelu. Esboniodd yr ymgeisydd fod y casgliad ar erydu wedi'i seilio ar y ffaith nad yw'r cyflymderau'n ddigon uchel i achosi erydu trwy sgwrio o amgylch yr ollyngfa newydd.</p> <p>Ailddatganodd yr ymgeisydd [REP2-019] ei safbwynt a dywedodd y cynhaliwyd arolwg ar droed (GWSR) [REP2-020] ar 23 Ionawr 2026 a ddilysodd y safbwynt na fyddai erydu yn sgil sgwrio sy'n gysylltiedig â'r ollyngfa dŵr wyneb arfaethedig yn digwydd.</p> <p>Dywedodd CNC [REP2-023] y byddai oedi rhwng claddu'r bibell ac adferiad naturiol y ddôl heli lwerydd a chynghorodd y dylid egluro lleoliad y bibell a faint ohoni sy'n debygol o gael ei chladdu, a ble y byddai wedi'i lleoli ar ben y tir.</p> <p>Nododd NE [REP3-051] fod CNC wedi codi'r potensial ar gyfer effeithiau sgwrio [REP1-073], ac oherwydd y bydd unrhyw effeithiau o ganlyniad i hyn o fewn ochr Cymru o ACA Aber Afon Dyfrdwy, mae NE yn ildio i gyngor CNC ar y mater hwn.</p> <p>Cydnabu CNC [REP3-062] fod y GWSR [REP2-020] yn dod i'r casgliad na fydd gollyngiadau ychwanegol o'r ollyngfa dŵr wyneb yn arwain at erydu/ sgwrio ychwanegol yn y sianel ac mai symudiad y llanw sy'n bennaf gyfrifol am erydu yn y basn draenio. Fodd bynnag, nododd CNC fod tystiolaeth gerllaw'r strwythur ollyngfa o sgwrio yn sgil cyfuniad o ollyngiadau gollyngfa a symudiad y llanw, sy'n arwain at drobwill ac ardal erydu. Mae CNC yn cynghori y dylid cynnal asesiad sgwrio ar gyfer yr ollyngfa dŵr wyneb newydd. Mae CNC hefyd yn nodi bod y ddôl heli lwerydd yn ymestyn ar draws y sianel ollwng ac yn cynghori y dylai'r ymgeisydd</p>	
--	--	---	--

		<p>gadarnhau a yw'n bwriadu clirio'r sianel hon ac, os felly, a ystyriwyd hyn yn y RIHRA.</p> <p>Ymatebodd yr ymgeisydd [REP4-081] i CNC drwy egluro bod y lan wedi erydu 7m yn ddiweddar i lawr yr afon o'r ollyngfa dŵr wyneb bresennol ac nad yw hyn yn gysylltiedig ag unrhyw ollyngiadau ohoni. Mae'r erydu'n gysylltiedig â gorlif llanw ar y morfa heli sy'n draenio'n ôl i'r gilfach trwy bant bas yn wyneb y morfa heli, felly nid yw'r ollyngfa dŵr wyneb bresennol yn cyfrannu at broses barhaus o erydu'r morfa heli. Esboniodd yr ymgeisydd, ar y sail hon, y dylai fod yn bosibl i'r ollyngfa dŵr wyneb arfaethedig gael ei dylunio mewn ffordd sy'n lleihau risg erydu'r morfa heli yn y dyfodol i lefel dderbyniol. Eglurodd yr ymgeisydd hefyd nad yw'n cynnig cael gwared â'r morfa heli sy'n ymestyn ar draws y sianel ollwng ar gyfer yr ollyngfa dŵr wyneb bresennol, ac y byddai unrhyw ymyrraeth ar gyfer yr ardal hon yn cael ei chynnal yn rhan o'r Cynllun Rheoli Ardaloedd Cadwraeth a gytunir gyda'r partïon perthnasol.</p>	
3.1.6	Ymestyn hyd rheoli – cydweddu â'r cynllun rheoli traethlin	<p>Yn ISH2 [REP1-066] holodd yr ExA a oes polisiâu eisoes ar waith trwy gynllun rheoli traethlin Grŵp Arfordirol Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru a gofynnodd i'r ymgeisydd gadarnhau na fyddai cyfrif ddwywaith yn digwydd. Cydnabu'r ymgeisydd [REP1-066] fod angen osgoi cyfrif ddwywaith ac esboniodd nad yw'r ardal dan sylw yn cael ei chynnig ar hyn o bryd ar gyfer ailalinio a reolir yn rhan o'r cynllun rheoli traethlin. Mae'r ymgeisydd yn cynnig tynnu'r llinell yn ôl ac nid yw'r manylion hyn wedi'u hamlinellu yn y cynllun rheoli traethlin.</p> <p>Nododd CNC [REP1-072] er mai polisi'r cynllun rheoli traethlin yn y lleoliad hwn yw cynnal y llinell, fe allai'r cynefin hwn gael ei wasgu ac mae'n bosibl y bydd angen ailalinio a</p>	<b>RQ.38 [At yr ymgeisydd a CNC] Mae'r ExA yn gofyn am ddiweddariad ar gynnydd ynglŷn â'r mater hwn.</b>

		<p>reolir yn lleol i greu cynefin, a allai effeithio ar forffoleg y sianel i lawr yr afon. Cynghorodd CNC yr ymgeisydd i ystyried unrhyw effeithiau posibl ar yr aber sy'n deillio o'i gynigion ailalinio a reolir, gan gynnwys perygl llifogydd i drafnidiaeth a seilwaith arall ac effeithiau amgylcheddol unrhyw newidiadau posibl i forffoleg forydol. Cyfeiriodd CNC yr ymgeisydd at un o'i ddogfennau canllaw 'Asesiadau o brosesau ffisegol morol ac arfordirol'.</p> <p>Gofynnodd yr ExA [PD-012] ExQ14.2 i'r ymgeisydd egluro sut mae ei gynigion ailalinio a reolir yn cydweddu â'r cynllun rheoli traethlin.</p> <p>Yn ExQ1, ailddatganodd CNC [REP3-062] ei safbwynt bod angen rhoi ystyriaeth bellach i effeithiau ar forffoleg y sianel i lawr yr afon a chyfeiriodd yr ymgeisydd at ei sylwadau ar ddigonolrwydd y mesur cilio a reolir arfaethedig ar gyfer y ddôl heli lwerydd (a amlinellir yn rhes 3.1.4 uchod).</p> <p>Ailddatganodd yr ymgeisydd [REP3-026] nad yw'r cynigion yn y strategaeth creu morfa heli yn dyblygu unrhyw beth a gynigir yn y cynllun rheoli traethlin.</p>	
3.1.7	Ymestyn hyd rheoli – digonolrwydd y mesur	<p>Dywedodd NE [RR-026] nad oes digon o wybodaeth am reoli CQCA. Mae NE yn pryderu oherwydd bod Aber Afon Dyfrdwy yn SoDdGA hefyd, bod rhwymedigaeth gyfreithiol ar y tirlfeddianwyr eisoes (o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981) i gynnal yr ardal mewn cyflwr ffafriol, felly nid yw ymestyn hyd dyletswyddau statudol yn gyfystyr â mesur lliniaru ychwanegol ac ni ellir ei ystyried o fewn y broses HRA.</p> <p>Nododd yr ymgeisydd sylwadau NE [REP1-062].</p> <p>Dywedodd yr ymgeisydd [REP1-062] gan fod y datblygiad arfaethedig yn golygu parhau â'r rheolaeth bresennol, sydd</p>	<p><b>RQ.39 [At CNC] Mae'r ExA yn gofyn am ddiweddariad ar y mater hwn.</b></p>

		<p>eisoes wedi'i chytuno gyda CNC trwy'r CQCA sydd eisoes yn bodoli, ei fod yn hyderus iawn y byddai'n ymarferol.</p> <p>Croesawodd CNC [RR-027] y ffaith y byddai Cynllun Rheoli Ardaloedd Cadwraeth wedi'i ddiweddarau yn cael ei baratoi a'i gyflwyno i FCC a CNC ar gyfer ei gymeradwyo cyn i'r datblygiad arfaethedig ddechrau gweithredu.</p> <p>Ceisiodd yr ExA [PD-012] (ExQ1.9.17) eglurhad gan CNC ynglŷn ag effeithiolrwydd, ymarferoldeb, cyflawnadwyedd ac effeithiolrwydd ecolegol ymestyn hyd rheoli'r ddôl heli lwerydd yn y CQCA sydd eisoes yn bodoli i leddfau graddau'r niwed posibl.</p> <p>Mae NE [REP3-061] (ExQ1.9.17) yn ildio i CNC gan y bydd y morfa heli a gollir yn uniongyrchol yn gyfan gwbl o fewn Cymru.</p> <p>Roedd CNC [REP3-062] yn cytuno â'r egwyddor y gallai dau fesur arfaethedig yr ymgeisydd, petaent yn cael eu sicrhau a'u cyflawni'n foddhaol, fod yn effeithiol wrth fynd i'r afael yn ddigonol â cholli dôl heli lwerydd dros dro, ond bydd yn rhoi sylwadau pellach ar ôl adolygu'r Strategaeth Creu Morfa Heli a gyflwynir erbyn dyddiad cau 3.</p> <p>Mynegodd FCC [REP2-021] bryderon na fyddai ymestyn hyd rheoli'n gyfystyr ag ychwanegedd, o ystyried yr ymrwymadau rheoli presennol, a gofynnodd am eglurhad pellach.</p> <p>Nododd yr ymgeisydd [REP3-058] sylwadau FCC ac esboniodd hyd yn oed pe diystyrid y mesur hwn, byddai cilio a reolir ar gyfer y ddôl heli lwerydd ei hun yn ddigonol i liniaru colli'r ddôl heli lwerydd.</p>	
--	--	---	--

**Tabl 3.2: Tir sydd wedi'i Gysylltu'n Swyddogaethol – Materion a godwyd yn yr archwiliad hyd yma gan yr ExA a phartïon â buddiant ynglŷn ag asesiad yr ymgeisydd o effeithiau ar gyfanrwydd (yn unigol ac ar y cyd)**

ID	Llwybr effaith posibl	Manylion y mater	Sylw / cwestiwn yr ExA
<b>AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy</b>			
3.2.1	Arolygon adaregol – cwmpas a rychwant	<p>Dywedodd NE [RR-026] (NE01) fod y RIHRA yn dibynnu ar flwyddyn o arolygon adar yn unig fel tystiolaeth, ac nad yw hyn yn ddigonol. Cynghorodd NE y dylid darparu arolygon manwl ar gyfer dwy flynedd. Cynghorodd NE hefyd y dylai'r holl arolygon adar manwl gynnwys cofnodion adar sy'n hedfan, yn enwedig os gallai'r cais effeithio ar linellau hedfan adar. Mae NE yn disgwyl gweld sylwadau ar adar sy'n glanio ac yn esgyn o fewn y safle datblygu ac yn ei gyffiniau, sy'n arwyddocaol i rywogaethau cymwys sy'n teithio. Dywedodd NE [RR-026] (NE11) hefyd, er mwyn deall a yw Caeau Gronant yn effeithiol wrth liniaru colled ar y safle datblygu, rhaid canfod sut mae'r tir yn cael ei ddefnyddio gan yr holl rywogaethau a chasgliadau adar cymwys er mwyn darparu poblogaeth sylfaenol. Dywedodd NE fod rhaid parhau i ddarparu ar gyfer rhywogaethau a niferoedd ochr yn ochr â'r adar ychwanegol sydd wedi'u dadleoli. Nododd NE y dylai data WeBS fod yn ddigonol i lywio defnydd sylfaenol i ddechrau, gan dybio bod data'n bodoli ar gyfer yr holl fisoedd sydd o ddiddordeb. Fel arall, bydd angen arolygon adar manwl.</p> <p>Cynghorodd CNC [RR-027] y dylid cyfeirio at ddata hanesyddol a ddelir gan yr ymgeisydd a Chymdeithas Naturiaethwyr Glannau Dyfrdwy (DNS) oherwydd fe allai ddangos ystod ehangach o fisoedd pan fydd niferoedd</p>	<p><b>RQ.40 [At NE] A all NE gadarnhau a yw'n gofyn am 2 flynedd o arolygon adaregol ar gyfer safle cyfan y datblygiad arfaethedig neu ardaloedd penodol sy'n achos pryder?</b></p> <p><b>RQ.41 [At yr ymgeisydd] Cysylltwch yn uniongyrchol â CNC a NE ynglŷn â chwmpas a rychwant arolygon adaregol a rhowch sylwadau i'r ExA.</b></p>

		<p>sylweddol o ylfinirod ac efallai rhywogaethau eraill cymwys yn bresennol o fewn y tir sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol yr effeithir arno, yn ogystal â thueddiadau tymor hwy yn y rhywogaethau sy'n defnyddio'r tir sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol. Nododd CNC y gallai hyn fod yn bwysig wrth bennu effeithiolrwydd mesurau rheoli ar y tir gwrthbwysio arfaethedig.</p> <p>Cynghorodd yr RSPB [REP1-075] fod angen gwybodaeth ychwanegol i asesu'r effeithiau ar adar er mwyn cael dealltwriaeth well o nifer y gylfinirod a rhywogaethau adar dynodedig eraill sy'n defnyddio'r tir sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol, a pha mor aml, y gallai colli'r tir hwnnw effeithio arnynt. Argymhellodd yr RSPB fod yr ymgeisydd yn cyflwyno data hanesyddol, gan gynnwys hwnnw a ddelir gan DNS, i helpu i bontio'r bwloch trwy ddatgelu ystod ehangach o fisoedd pan fydd niferoedd sylweddol o ylfinirod, ac efallai rhywogaethau adar cymwys eraill, yn bresennol yn y caeau yr effeithir arnynt.</p> <p>Roedd yr ymgeisydd [REP1-062] o'r farn bod y setiau data cyfunol a ddefnyddiwyd rhwng 2013 a 2024 yn fwy na digonol i nodweddu'r llinell sylfaen adaregol. Mae'r ymgeisydd wedi cynnal arolygon manwl dros gyfnod o 12 mis (2023-2024) ac wedi'u defnyddio i lywio'r RIHRA, ochr yn ochr â data trydydd parti, gan gynnwys data adaregol gan Aspect Ecology (2022-2023), data misol am adar gwlyptir a gasglwyd gan DNS (2013-2023) a data WeBS gan yr Ymddiriedolaeth Adareg Brydeinig (2018-2023). Cadarnhaodd yr ymgeisydd ei fod wedi ceisio data presennol gan WeBS ac y bydd yn parhau i weithio gyda CNC, yr RSPB a DNS i gasglu data hanesyddol am ddefnyddio Caeau Gronant. Nododd yr ymgeisydd hefyd</p>	
--	--	--	--

	<p>fod y dull o gynnal arolygon adaregol wedi cael ei drafod gyda CNC, na chododd unrhyw bryderon yn ei RR [RR-027].</p> <p>Ceisiodd yr ExA [PD-012] ddiweddariad ar safbwynt CNC a NE ar gwmpas a rychwant arolygon adaregol.</p> <p>Ailddatganodd NE [REP3-061] nad yw'n fodlon ar yr asesiadau a gynhaliwyd ac eglurodd fod ei sylwadau'n ymwneud â dilysrwydd y data, yn bennaf gan fod y nodweddion cymwys yn rhywogaethau symudol ac y gallai unrhyw effeithiau ar ochr Cymru o Aber Afon Dyfrdwy effeithio ar gyflwr y safle cyfan. Nid yw NE yn deall sut mae'r ymgeisydd wedi casglu mai gylfinirod yw'r unig rywogaeth y mae arnynt angen mesurau lliniaru/ digolledu ar gyfer effeithiau andwyol o'r datblygiad arfaethedig. Mae NE yn cydnabod bod ffynonellau data eraill ar gael ac os bydd yr ymgeisydd yn dangos bod y data hwn yn drosglwyddadwy ac y gellir ei gymharu'n uniongyrchol â'i ddata arolwg ei hun, gellid ei ddefnyddio yn lle blwyddyn arall o ymdrech arolygu. Fodd bynnag, mae NE hefyd o'r farn bod y data a gyflwynwyd yn brin o fanylion gofodol am y manau lle yr arsylwyd adar a'i fod yn defnyddio ardaloedd arolygu nad ydynt yn cyfateb i ôl troed y datblygiad arfaethedig (ac sydd wedi'u diffinio'n anghyson), felly cynghorodd NE na ellir cymharu'r data'n ystyrllon â chyfrifiadau eraill na'i ddefnyddio i wneud casgliadau cadarn ynglŷn â defnydd o'r safle gan adar.</p> <p>Cyflwynodd yr ymgeisydd [REP4-056] CMS wedi'i ddiweddarau sy'n cynnwys canlyniadau arolygon parhaus yng Nghaeau Gronant.</p> <p>Ymatebodd yr ymgeisydd [REP-081] i CNC drwy egluro na fydd yn cynnal arolygon pellach o dir o fewn terfynau'r</p>	
--	--	--

		<p>gorchymyn a'i fod wedi derbyn data presennol gan DNS ac y bydd yn rhoi diweddariad erbyn dyddiad cau 5.</p> <p>Ailddatganodd NE [REP4-072] fod angen dau dymor o arolygon o leiaf i ddeall sut mae'r ardal y mae'r datblygiad arfaethedig yn effeithio arni'n cael ei defnyddio'n benodol. Dywedodd NE fod angen deall nifer a dosbarthiad gofodol yr adar o fewn y safle arfaethedig ei hun gyda mapiau cysylltiedig i ddangos hyn, a dywedodd fod data WeBS yn dangos pwysigrwydd/ defnydd cymharol o'r sectorau cyffredinol hyn yn unig. Ailddatganodd NE fod amheuan o bwys ynglŷn â chymaroldeb, amseriad a rhychwant y data arolwg a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd ar gyfer safle'r datblygiad arfaethedig a Chaeau Gronant.</p>	
3.2.2	CMS – dethol safle cychwynnol	<p>Cynghorodd NE [RR-026] (NE02), o ystyried pellter Caeau Gronant oddi wrth y tir sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol sydd i'w golli, y byddai'n well o lawer disodli'r tir sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol ag ardaloedd tebyg sy'n agosach o lawer i'r effaith fel ei fod yn parhau i gynnal gylfinirod yn y rhan hon o AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy. Nid yw NE [RR-026] (NE06) yn cefnogi'r dull o nodi ardaloedd i ddisodli tir sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol (ardaloedd sy'n fwy na 2ha o fewn 2km o'r datblygiad arfaethedig), gan nad yw'n ystyried ardaloedd llai o dir sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol a allai, gyda'i gilydd, gynnal mwy nag 1% o boblogaeth y safle dynodedig. Cynghorodd NE [RR-026] (NE07) hefyd y dylai'r dull o nodi ardaloedd i ddisodli tir sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol gael ei lywio gan wybodaeth penodol i safle.</p> <p>Esboniodd yr ymgeisydd [REP1-062] mai camddealltwriaeth yw hyn, yn ôl pob tebyg. Nid oedd ei</p>	<p><b>RQ.42 [At NE] A yw NE yn fodlon ar ymateb yr ymgeisydd ynglŷn â'r mater hwn [REP1-062]? Os na, rhowch resymau ac amlinellwch yn glir gamau penodol y credwch y dylai'r ymgeisydd eu cymryd i ddatrys pryderon sy'n weddill ynglŷn â'r mater hwn.</b></p>

		<p>ddull o nodi ardaloedd ar gyfer disodli tir sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol wedi'i seilio ar gynefin o fath penodol neu lain o dir o faint penodol, ond yn hytrach ar ganlyniadau'r arolygon adar a gynhaliwyd yn unig. Defnyddiwyd y 'trothwy hidlo' 2ha i ddethol safleoedd datblygu eraill arfaethedig ar gyfer asesiad 'ar y cyd' ar y sail bod llawer o rywogaethau adar AGA Aber Afon Dyfrdwy (gan gynnwys gylfinirod) yn ffafrio ardaloedd mawr agored o dir amaeth, glaswelltir neu wlyptir a bod lleiniau llai (llai na 2ha) yn debygol o fod yn llai deniadol a chynnal nifer fach o adar. Llywiwyd dull yr ymgeisydd o nodi ardaloedd ar gyfer disodli tir sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol gan wybodaeth penodol i safle, lle'r oedd ar gael. Nododd yr ymgeisydd nad yw CNC [RR-027] wedi anghytuno â'r mater hwn.</p> <p>Croesawodd NE [REP4-072] y wybodaeth ychwanegol am ddethol safle ar gyfer Caeau Gronant a chytunodd gan fod effaith ar AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy wedi cael ei nodi ar ei phen ei hun, nad oes angen ystyried effeithiau ar y cyd.</p>	
3.2.3	CMS – safleoedd a ystyriwyd	<p>Nid yw NE [RR-026] (NE10) yn fodlon bod gwybodaeth ecolegol gymharol rhwng Caeau Bagillt a Chaeau Gronant wedi cael ei hystyried oherwydd dim ond maint a lleoliadau y manylir arnynt. Cynghorodd NE y dylai'r ymgeisydd gael gwybodaeth am ddefnydd presennol gan adar, addasrwydd y cynefin ar gyfer gylfinirod yn ystod pob cam bywyd ac ymddygiadol, manylion cyrchfan fel nodweddion, cyflwr, amcanion cadwraeth a phwysau presennol, er mwyn canfod pa safle fyddai'n well.</p> <p>Esboniodd yr ymgeisydd [REP1-062] fod y sail resymegol dros gynnig Caeau Gronant yn cynnwys bod y tir yn gallu</p>	<p><b>RQ.43 [At NE] A all NE gadarnhau a yw'r mater hwn wedi'i ddatrys? Os na, rhowch resymau ac amlinellwch yn glir gamau penodol y credwch y dylai'r ymgeisydd eu cymryd i ddatrys pryderon sy'n weddill ynglŷn â'r mater hwn.</b></p>

		<p>gorlifo yn y gaeaf ac yn caniatáu ar gyfer creu pantiau, sianeli, draeniau traed neu byllau bas; nid oes mynediad uniongyrchol i'r cyhoedd, felly mae tarfu yn sgil defnyddiau hamdden yn ddibwys; mae'r tir yn cynnwys caeau unigol dros 3ha o faint, heb lawer o lystyfiant terfyn yn y canol; mae gan y caeau derfynau cadw stoc sy'n addas ar gyfer pori ac nid yw'r tir wedi'i nodi o fewn y cynllun rheoli traethlin ar gyfer cilio a reolir. Cydnabu'r ymgeisydd y pellter rhwng Caeau Gronant a therfynau'r gorchymyn, ond pwysleisiodd fod Caeau Gronant yn cynnig y cyfle gorau i sicrhau na fyddai cyfleoedd clwydo a chwilota am fwyd i ylfnirod yn cael eu colli. Dywedodd yr ymgeisydd hefyd ei fod wrthi ar hyn o bryd yn cynnal arolygon pellach o adar nad ydynt yn bridio o safle Caeau Gronant i sefydlu defnydd presennol o'r safle gan ylfnirod nad ydynt yn bridio a rhywogaethau eraill yr AGA.</p> <p>Mynegodd yr RSPB [REP1-075] bryderon ynglŷn â phellter Caeau Gronant oddi wrth y tir sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol a gollir, gan ddatgan bod gylfnirod sy'n gaeafu yn ffyddlon iawn i safleoedd, gan ddychwelyd i'r un safle flwyddyn ar ôl blwyddyn, ac nad ydynt yn barod iawn i fabwysiadu ardaloedd bwydo newydd gryn bellter i ffwrdd. Roedd yr RSPB o'r farn y dylid rhoi ystyriaeth bellach i gaeau arfordirol yn agosach i'r datblygiad arfaethedig, gan gynnwys Caeau Bagillt a Greenfield, sydd eisoes yn cael eu defnyddio gan rydyddion sy'n gaeafu ac y gellid eu sgrinio er mwyn sicrhau bod Llwybr Arfordir Cymru yn tarfu cyn lleied â phosibl.</p> <p>Esboniodd yr ymgeisydd [REP2-019], wrth ystyried safleoedd amgen, y daeth i'r amlwg nad oedd safleoedd Thurstaston a Greenfield ar gael ac felly fe'u heithriwyd.</p>	
--	--	--	--

		<p>Ceisiodd yr ExA [PD-012] eglurder ynglŷn â safbwynt NE ar addasrwydd Caeau Gronant.</p> <p>Esboniodd NE [REP3-062] ei fod yn ymwybodol bod yr ymgeisydd wedi prynu Caeau Gronant, a'i fod yn fodlon bod y safle wedi cael ei sicrhau. Fodd bynnag, pwysleisiodd na ddangoswyd iddo'n argyhoeddiadol eto y bydd Caeau Gronant yn gweithredu fel cynefin newydd effeithiol o ystyried ei bellter oddi wrth safle'r cynnig, a'r sylfaen dystiolaeth gyfyngedig sy'n brin o ddata arolwg a dadansoddiad capasiti.</p> <p>Croesawodd NE [REP4-072] y wybodaeth ychwanegol am ddethol safle ar gyfer Caeau Gronant.</p>	
3.2.4	CMS – Mesur lliniaru o gymharu â digolledu Caeau Gronant	<p>Cynghorodd NE [RR-026] (NE02) fod rhaid i'r CMS yng Nghaeau Gronant gael ei ystyried yn fesur digolledu o dan y fframwaith HRA. Dywedodd na ellir ystyried bod y cynnig i sefydlu cynefin newydd o fewn ffin safle Ewropeaidd dynodedig, fel modd o wrthbwysu colledion rhagfynedig i gynnefin ACA neu AGA, yn fesur lliniaru. Dywedodd NE fod mesurau lliniaru fel arfer yn agos i'r safle yr effeithir arno. Mae'r safle hwn dros 20km i ffwrdd ac nid yw'n credu bod tystiolaeth adaregol foddhaol y bydd gylfinirod sydd wedi'u dadleoli yn ei ddefnyddio.</p> <p>Roedd CNC [RR-027] o'r farn, yn yr un modd â chilio a reolir ar gyfer y ddôl heli lwerydd (a drafodwyd yn rhes 3.1.1 uchod), ei bod yn ymddangos bod y mesur hwn yn fesur digolledu.</p> <p>Cytunodd yr RSPB [REP1-075] â phryderon a godwyd gan CNC [RR-027] a NE [RR-026] ac roedd o'r farn bod y mesur i ddefnyddio Caeau Gronant i fynd i'r afael â cholli tir sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol yn fesur digolledu.</p>	<p><b>RQ.44 [At CNC a NE] A oes gan CNC neu NE unrhyw sylwadau ychwanegol ynglŷn â chyfraith achosion Hilde Orleans?</b></p>

		<p>Yn ISH2 [REP1-066], ailddatganodd yr ymgeisydd ei farn bod y mesur yn fesur lliniaru yn hytrach na digolledu. Cyfiawnhaodd hyn drwy ddweud bod y mesur yn darparu tir amgen sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol ar gyfer gylfinirod fel na fydd cyfleoedd clwydo a chwilota am fwyd yn cael eu colli, ac felly ni fyddai AEol gan na fyddai'r boblogaeth ylfinirod yn lleihau. Ailddatganodd yr ymgeisydd [REP1-062] ei safbwynt a dywedodd fod saith cais DCO yn cynnwys HRA sy'n cyflwyno mesurau i fynd i'r afael â cholli tir sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol ar gyfer adar AGA fel mesur lliniaru yn hytrach na digolledu o fewn diffiniad cyfreithiol y Rheoliadau Cynefinoedd.</p> <p>Gan nodi safbwyntiau'r ANCBau a'i ddehongliad ei hun, gofynnodd yr ExA [PD-006], heb ragfarnu, i ddogfennau ategol i wneud cais am randdirymiad o dan Reoliadau Cynefinoedd 2017 gael eu cyflwyno.</p> <p>Cyflwynodd yr ymgeisydd [PDA-003] hysbysiad o randdirymiad HRA arfaethedig heb ragfarnu yng Nghymru.</p> <p>Ailadroddodd CNC [REP1-073] ei safbwyntiau fel yr uchod. Mae CNC o'r farn bod amheuaeth wyddonol resymol yn parhau ynglŷn â gweithredu'r cynigion cynefin newydd ar gyfer gylfinirod yn foddhaol. O ganlyniad, nid yw'n gallu rhoi sicrwydd i'r ExA y gellid ystyried y cynigion yn fesurau lliniaru ar y cam hwn, ac felly y dylid eu hystyried yn fesurau digolledu. Gofynnodd CNC i wybodaeth ychwanegol gael ei chyflwyno fel y gellid ystyried effeithiolrwydd y cynigion.</p> <p>Mae NE [REP3-061] yn parhau i honni y dylai'r dull hwn gael ei ystyried yn ddigolledu o dan y Rheoliadau Cynefinoedd, o ystyried bod Caeau Gronant wedi'u lleoli o fewn AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy, gan nodi y</p>	
--	--	---	--

		<p>bydd y penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol, sef y CA.</p> <p>Nododd CNC [REP3-062] er bod safle Caeau Gronant wedi'i leoli o fewn AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy, fod y tir sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol yr effeithir arno y tu allan i'r ffin. Nododd NE [REP3-062] (Q9.27), gan ddilyn achos Briel a chyfraith achosion ddilynol, y dylai tir cyfnewid arfaethedig sydd o fewn ffin safle Ewropeaidd gael ei ystyried yn fesur digolledu fel arfer, gan gydnabod y dylid ystyried pob achos yn seiliedig ar ei ffeithiau ei hun. Gan nodi gwahaniaethau ffeithiol rhwng achos Briel a'r DCO hwn, daeth CNC i'r casgliad y bydd unrhyw fesurau arfaethedig yn amodol ar y ffaith bod sicrwydd ynglŷn â'u gweithredu a'u heffeithiolrwydd y tu hwnt i amheuaeth wyddonol resymol fel nad oes AEol.</p> <p>Ceisiodd yr ExA [REP4-082] eglurhad ynglŷn â'r mater hwn. Ailddatganodd yr ymgeisydd ei safbwynt.</p> <p>CNC [REP4-062] Mae'r partïon yn parhau i drafod y CMS a rheoli Caeau Gronant.</p> <p>Darparodd yr ymgeisydd ddogfen gyfreithiol i egluro pam mae'n credu bod y mesur hwn yn fesur lliniaru yn hytrach na digolledu [REP4-086].</p>	
3.2.5	Caeau Gronant – digonolrwydd y mesur	<p>Nid yw NE [RR-026] (NE12) yn cytuno â chasgliadau'r HRA ar y cam hwn ac nid oes ganddo'r sicrwydd bod mesurau digolledu/ lliniaru'n ymarferol ar y cam hwn, gan eu bod ar lefel uchel ac yn brin o fanylion. Ceisiodd NE [RR-026] (NE03) eglurder ynglŷn â sut y bydd tir cyfnewid yn lle tir sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol yn cynnal yr un nifer o adar â'r rhai sy'n cael eu dadleoli a ph'un a fyddai AGA Aber Afon Dyfrdwy yn dod yn llai deniadol o</p>	<p><b>RQ.45 [At CNC] A yw'r CMS wedi'i ddiweddarau yn datrys pryderon CNC [REP4-056]? Os na, rhowch resymau ac amlinellwch yn glir gamau penodol y credwch y dylai'r ymgeisydd eu cymryd i</b></p>

	<p>lawer i gyfran sylweddol o boblogaeth ylfinirod yr AGA petai'r tir hwnnw sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol yn cael ei gollu, a sut byddai hyn yn effeithio ar eu dosbarthiad cyffredinol o fewn yr AGA.</p> <p>Dywedodd yr ymgeisydd [REP1-062] fod amcan y mesur wedi'i amlinellu yn y CMS a'i fod yn ceisio darparu'r adnodd chwilota am fwyd gorau i ylfinirod a chynnal nifer fwy o unigolion sy'n cynnwys yr un nifer ag sy'n cael eu dadleoli, trwy ddarparu amodau a fyddai'n cynnal dwyseddau uchel o infertebratau sy'n ysglyfaeth i ylfinirod a geir mewn llystyfiant caeau ac wyneb y pridd.</p> <p>Dywedodd CNC [RR-027], mewn egwyddor, y gallai'r cynigion a amlinellir yn y CMS alluogi rheoli Caeau Gronant yn briodol a chynnal bwydo a chlwydo gan ylfinirod, gan wrthbwysu effaith y datblygiad arfaethedig ar y nodwedd hon. Dywedodd CNC [REP1-073] fod amheuaeth wyddonol resymol yn parhau ynglŷn â gweithredu'r cynigion cynefin cyfnewid ar gyfer gylfinirod yn foddhaol a gofynnodd am fwy o eglurhad a manylion ynglŷn â'r CMS.</p> <p>Ceisiodd yr ExA [PD-012] (ExQ1.9.3 ac ExQ1.9.27) ddiweddariad ar safbwynt CNC a NE ar effeithiolrwydd, ymarferoldeb, cyflawnadwyedd ac effeithiolrwydd ecolegol y tir cyfnewid sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol yng Nghaeau Gronant gan yr ymgeisydd i leddfu graddau'r niwed posibl. Dywedodd NE [REP3-061] fod cynnig yr ymgeisydd yn ystyried gylfinirod yn unig, ac felly yn ôl y diffiniad hwn yn unig ni all leddfu graddau'r niwed posibl i'r AGA, gan na chafodd rhywogaethau adar cymwys eraill perthnasol eu hasesu'n briodol o'r dechrau. Cydnabu NE fod yr ymgeisydd wedi prynu Caeau Gronant, a'i fod yn</p>	<p><b>ddatrys pryderon sy'n weddill ynglŷn â'r mater hwn.</b></p>
--	---	---

		<p>fodlon bod y safle wedi cael ei sicrhau. Fodd bynnag, dywedodd NE na ddangoswyd iddo'n argyhoeddiadol eto y bydd Caeau Gronant yn gweithredu fel cynefin newydd effeithiol o ystyried ei bellter oddi wrth safle'r cynnig, a'r sylfaen dystiolaeth gyfyngedig sy'n brin o ddata arolwg a dadansoddiad capasiti.</p> <p>Dywedodd CNC [REP3-062] hyd nes y cyflwynir data sylfaenol priodol, ni all CNC gynghori a fydd y mesurau arfaethedig yn ecolegol effeithiol i leddfu graddau'r niwed posibl i AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy.</p> <p>Dywedodd CNC na all wneud sylwadau ar ymarferoldeb a chyflawnadwyedd mesurau arfaethedig yr ymgeisydd hyd nes y cyflwynir ac y cytunir ar CMS wedi'i diweddarau.</p> <p>Cadarnhaodd CNC ei fod yn fodlon nad yw Caeau Gronant o fewn rhwymedigaethau rheoli a chyflwr presennol AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy ac y gallai fod yn addas ar gyfer mesur lliniaru/ digolledu.</p> <p>Mae'r ymgeisydd [REP3-059] o'r farn bod safle Caeau Gronant yn fawr ac nad yw'n cael ei ddefnyddio gan ylfinirod ar hyn o bryd, felly mae digon o le iddo ymdopi â phoblogaethau uwch ohonynt. Mae'r ymgeisydd yn parhau i gynnal arolygon adaregol yng Nghaeau Gronant y disgwylir iddynt gael eu cwblhau erbyn mis Ebrill 2026, er mwyn deall sut mae'r safle'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd gan rywogaethau adar cymwys yr AGA a'r safle Ramsar.</p> <p>Mae'r ymgeisydd [REP4-081] yn datgan bod y CMS wedi'i diweddarau [REP4-056] yn mynd i'r afael â sylwadau CNC.</p>	
--	--	--	--

3.2.6	CMS a chynllun lliniaru a monitro gylfinirod (CMMP)	<p>Cynghorodd NE [RR-026] (NE12) y dylai'r CMMP arfaethedig gael ei gynhyrchu cyn gynted â phosibl.</p> <p>Roedd DNS [RR-009] yn cefnogi'r cynefin digolledu ar gyfer gylfinirod yng Nghaeau Gronant a'r CMS, ond holodd b'un a allai'r ymgeisydd ddefnyddio pyllau bas yn lle draeniau traed ym manau isel y caeau ac argymhellodd fod arolygon pridd yn cael eu cynnal i asesu faint o infertebratau sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer gylfinirod.</p> <p>Gofynnodd CNC [REP1-073] am sawl eglurhad pellach a manylion am y CMS, a chynghorodd yr ymgeisydd i ystyried a allai'r CMS a'r cynllun lliniaru a monitro gylfinirod gael eu datblygu'n Gynllun Rheoli Amgylcheddol Caeau Gronant, a allai fod naill ai ar wahân i'r Cynllun Rheoli Ardaloedd Cadwraeth trosfwaol wedi'i ddiweddarau, neu'n rhan ohono, a gymeradwyir trwy gytundeb adran 106 neu ddull tebyg. Gan fod y safle cynefin cyfnewid ar gyfer gylfinirod o fewn AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy, mae'n bosibl y bydd angen rheoleiddio'r cynllun rheoli trwy gytundeb rheoli adran 106 i sicrhau cyfranogiad CNC yn y dyfodol fel rhanddeiliad allweddol mewn penderfyniadau rheoli ar hyd oes y rhaglen. Nododd CNC [REP1-073], o ran monitro yn y dyfodol, y bu'n anodd arolygu'r safle'n gywir yn y gorffennol gan fod ffordd brysur ar hyd y ffin ddeheuol a diffyg golygfannau agos. Felly, argymhellodd CNC fod ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddarparu cuddfannau adar a/ neu sgriniau newydd, a mynediad diogel, ar yr amod na fyddai'r rhain yn tarfu ar adar sy'n defnyddio'r safle i glwydo a bwydo. Cynghorodd CNC hefyd y dylai'r ymgeisydd ymgysylltu â phartïon lleol â buddiant ac ymarferwyr sy'n gyfarwydd â'r ardal sy'n arbenigo mewn rheoli cynefin arfordirol ar gyfer adar, a</p>	<p><b>RQ.46 [At yr ymgeisydd]</b>  <b>Mae'r ExA yn gofyn am ddiweddariad ar gynnydd ynglŷn â'r mater hwn.</b></p>
-------	---	--	---

		<p>sefydlu grŵp llywio ar gyfer rheoli'r safle gwrthbwysu gylfinirod yn y dyfodol.</p> <p>Gwnaeth yr RSPB [REP1-075] sawl sylw ar y CMS, fel ystyried rheoli parhaol, cynyddu hyd monitro a chynyddu nifer yr ymweliadau misol. Amlygodd yr RSPB hefyd, os rhoddir cydsyniad i'r cais, yr hoffai fod yn rhan o drafodaethau ynglŷn â chyflawni a monitro'r mesurau lliniaru, digolledu a gwella angenrheidiol.</p>	
3.2.7	Caeau Gronant – gwrthdaro posibl ag amcanion cadwraeth	<p>Ceisiodd NE [RR-026] (NE04) sicrwydd ychwanegol nad yw Caeau Gronant yn gweithredu ar hyn o bryd fel cynefin cynhaliol ar gyfer unrhyw nodweddion eraill yr AGA y gallai'r mesurau lliniaru ar gyfer gylfinirod gael effaith andwyol arnynt. Dywedodd os ydyw, bydd effaith uniongyrchol ar yr AGA ac ni fyddai'r lleoliad hwnnw'n addas i fynd i'r afael â phryderon. Dywedodd NE y dylid gosod safonau clir iawn ynglŷn â beth yw'r llinell sylfaen cadwraeth ar gyfer Caeau Gronant a pha werth ychwanegol y byddai unrhyw fesurau lliniaru'n ei gyflawni. Dywedodd NE [RR-026] (NE05) hefyd os yw Caeau Gronant eisoes yn cael eu defnyddio gan ylfinirod, dylai unrhyw fesurau lliniaru fynd y tu hwnt i reoli eu cynefin arferol i ystyried y gostyngiad mewn cynefin swyddogaethol cynhaliol mewn mannau eraill.</p> <p>Dywedodd yr ymgeisydd [REP1-062] (NE04 a NE05) ei fod yn cynnal arolygon ychwanegol o adar nad ydynt yn bridio ar safle Caeau Gronant i sefydlu defnydd presennol o'r safle gan ylfinirod nad ydynt yn bridio a rhywogaethau eraill yr AGA. Cadarnhaodd yr ymgeisydd fod arolygon a gynhaliwyd eisoes ac a fanylwyd yn y CMS [APP-254] yn dangos nad yw Caeau Gronant yn cynnal gylfinirod nac unrhyw rai o rywogaethau eraill yr AGA ar hyn o bryd.</p>	<p><b>RQ.47 [At yr ymgeisydd] Mae'r ExA yn gofyn am eglurhad ynglŷn â'r materion canlynol:</b></p> <p><b>a) Pryd bydd canlyniadau'r arolwg a gwblhawyd yng Nghaeau Gronant yn cael eu cyflwyno i'r ExA? Mae'r ExA yn gofyn i ganlyniadau'r arolwg gael eu cyflenwi i CNC, NE, yr RSPB ac unrhyw barti arall â buddiant a hoffai eu gweld cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r archwiliad er mwyn hwyluso'r broses o gael safbwyntiau gan y partion hynny.</b></p> <p><b>b) Esboniad pam nad yw Caeau Gronant wedi'u</b></p>

		<p>Dywedodd yr RSPB [REP1-075] y byddai angen asesiad pellach o effeithiau'r CMS ar fuddiannau cadwraeth natur presennol pan fydd y llinell sylfaen ecolegol wedi'i sefydlu. Esboniodd yr ymgeisydd fod nifer o ymyriadau ymarferol wedi'u hamlinellu yn y CMS [APP-254] a fydd yn cyflawni'r mesurau lliniaru sy'n ofynnol ac sydd y tu hwnt i'r amodau rheoli presennol a ddisgwylir yn yr AGA, fel creu draeniau troed a rheoli lefelau dŵr, ynghyd â rhoi system pori sensitif ar waith.</p> <p>Mynegodd yr RSPB [REP1-075] bryderon tebyg, gan ddweud y gallai rhywfaint o waith i greu a gwella cynefin fod yn groes i amcanion cadwraeth eraill, er enghraifft plannu coed, creu coetir/ prysgwydd a phlannu gwrychoedd sy'n gysylltiedig â'r strategaeth budd net i fioamrywiaeth a allai wrthdaro â gofynion cynefin gylfinirod y mae arnynt angen golygfeydd agored i osgoi/ canfod ysglyfaethwyr. Byddai creu coetir, gwrychoedd a phrysgwydd yn darparu gorchudd i ysglyfaethwyr, o bosibl. Mae'r ymgeisydd [REP3-029] (NRW10) yn gwneud gwaith pellach i fynd i'r afael â'r cynigion a amlinellir yn y strategaeth budd net i fioamrywiaeth a chydabu'r gwrthdaro posibl rhwng digolledu budd net i fioamrywiaeth oddi ar y safle, y CMS a thir sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol. Dywedodd yr ymgeisydd y bydd cynigion yn cael eu datblygu drwy gydol y broses dylunio manwl ar y cyd ag arbenigwyr adaregol a thrwy ymgynghori â CNC, yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) a rhanddeiliaid eraill perthnasol.</p> <p>Cadarnhaodd CNC [REP4-082] fod Caeau Gronant o fewn ACA, AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy, ond nad</p>	<p><b>cynnwys yn y ffin llinell goch.</b></p> <p><b>c) Beth yw natur y gwaith arfaethedig yng Nghaeau Gronant ac a yw hyn yn gyfystyr â datblygiad. Os yw'r gwaith yn gyfystyr â datblygiad, a fyddai angen HRA ar ei gyfer?</b></p> <p><b>d) A fyddai'r gwaith yng Nghaeau Gronant yn effeithio ar ACA, AGA neu safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy, a sut bydd hyn yn cael ei ystyried?</b></p> <p><b>e) A all yr ymgeisydd esbonio os oes unrhyw wrthdaro rhwng y mesurau a ddarperir ar gyfer gylfinirod a'r mesurau a amlinellir yn y strategaeth budd net i fioamrywiaeth? Lle y ceir gwrthdaro, mae'r ExA yn gofyn am esboniad o'r camau a gymerir i fynd i'r afael â'r rhain a ble maen nhw wedi'u sicrhau yn y</b></p>
--	--	--	--

Adroddiad ar y Goblygiadau i Safleoedd Ewropeaidd ar gyfer  
Prosiect Pŵer Carbon Isel Cei Connah

		yw'n dir sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol ar hyn o bryd.	<b>cynlluniau gweithredu perthnasol a'r dDCO.</b>
--	--	--	---

**Tabl 3.3: Llygredd atmosfferig – Materion a godwyd yn yr archwiliad hyd yma gan yr ExA a phartïon â buddiant ynglŷn ag asesiad yr ymgeisydd o effeithiau ar gyfanrwydd (yn unigol ac ar y cyd)**

ID	Llwybr effaith posibl	Manylion y mater	Sylw / cwestiwn yr ExA
<b>ACA, AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy</b>			
3.3.1	<b>Adeiladu/ datgomiynu</b> Allyriadau egsôst – dyddodion asid	<p>Daeth yr ymgeisydd [APP-253] i'r casgliad y gallai'r cynnydd mewn allyriadau traffig yn ystod adeiladu'r datblygiad arfaethedig arwain at LSE o ran cynnydd mewn dyddodion nitrogen. Fodd bynnag, rhagfynegwyd na fyddai amonia o allyriadau traffig yn mynd yn fwy na'r lefel gritigol berthnasol a daethpwyd i'r casgliad na fyddai LSE. Ni ddarparodd y RIHRA [APP-253] gasgliad ynglŷn â chynnydd posibl mewn dyddodion asid o allyriadau egsôst.</p> <p>Wrth ymateb i ExQ1.6.12 [PD-012], esboniodd yr ymgeisydd [REP3-059] gan fod lefel y dyddodion asid yn uniongyrchol gysylltiedig â dyddodion nitrogen, fe allai dyddodion asid arwain at LSE ar ACA, AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy o ganlyniad i fwy o allyriadau traffig yn ystod adeiladu. Fodd bynnag, daeth yr ymgeisydd i'r casgliad [REP3-059], yn unol â'r cyfiawnhad a amlinellir ym mharagraff 10.2.25 y RIHRA [APP-253] o ran dyddodion nitrogen, na fyddai AEol ar ACA, AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy o ddyddodion asid yn ystod adeiladu.</p>	<b>RQ.48 [At NE a CNC] A ydych yn fodlon na fyddai dyddodion asid o fwy o allyriadau egsôst yn ystod adeiladu'r datblygiad arfaethedig yn arwain at AEol ar ACA, AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy?</b>
3.3.2	<b>Gweithredu</b> Allyriadau staciau – mesurau lliniaru neu ddigolledu	Daeth yr asesiad sgrinio yn adran 7.3 y RIHRA [APP-253] i'r casgliad y byddai'r llwyth critigol ar gyfer dyddodion nitrogen yn ACA, AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy yn cael ei dorri gan gyfanswm y cyfraddau dyddodion nitrogen o	<b>RQ.49 [At yr ymgeisydd] A all yr ymgeisydd amlinellu p'un a fyddai'r newidiadau i gyfraniad proses dyddodion nitrogen o'r datblygiad</b>

		<p>allyriadau staciau yn ystod gweithredu'r datblygiad arfaethedig.</p> <p>Amlygodd mapio isopleth a ddefnyddiwyd i lywio'r cam asesiad priodol yn y RIHRA [APP-253] y byddai tua 245 ha o ddôl heli lwerydd yn ddarostyngedig i ddyddodion nitrogen sydd 1% yn uwch na'r llwyth critigol o ganlyniad i'r datblygiad arfaethedig ar ei ben ei hun ac y byddai tua 445 ha o ddôl heli lwerydd yn ddarostyngedig i ddyddodion nitrogen ar y cyd sydd 1% yn fwy na'r llwyth critigol.</p> <p>Esboniodd paragraff 10.3.6 y RIHRA [APP-253] er bod yr ardal o ddôl heli lwerydd yn fawr (tua 10-17% o'r 2,566.3ha o ddôl heli lwerydd yn ACA, AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy), bod effaith nitrogen o'r datblygiad arfaethedig yn gymharol fach (uchafswm o 0.25 kgN/ha/y flwyddyn) a bod yr asesiad wedi defnyddio'r llwyth critigol is ar gyfer y cynefin dól heli lwerydd mwyaf sensitif. Amlinellodd y RIHRA [APP-253] y byddai'r effeithiau botanegol posibl o ganlyniad i fwy o ddyddodion nitrogen ar y ddôl heli lwerydd yn newid cyfoeth rhywogaethau i ffwrdd oddi wrth rywogaethau sy'n llai goddefol i nitrogen tuag at rywogaethau cyffredin sy'n fwy goddefol i nitrogen.</p> <p>Cynigiodd yr ymgeisydd [APP-253] liniaru effeithiau llygredd atmosfferig ar ACA, AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy trwy ymestyn hyd rheoli'r cynefinoedd yn gadarnhaol, gan gynnwys dól heli lwerydd, o fewn tua 26 ha ardaloedd cadwraeth Cei Connah ar hyd oes y datblygiad arfaethedig. Byddai'r datblygiad arfaethedig hefyd yn cynnwys cilio a reolir ar gyfer yr arglawdd presennol rhwng Gorsaf Bŵer bresennol Cei Connah ac ACA, AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy i greu ardal tua 1,300 m<sup>2</sup> o gilio i alluogi'r ddôl heli lwerydd i fudo'n naturiol tua'r tir. Daeth y RIHRA [APP-</p>	<p>arfaethedig ar ei ben ei hun ac ar y cyd â phrosiectau eraill, o ganlyniad i'r newidiadau i uchder staciau a llif cyfaint bwydo 1 yr HRSG, yn newid yr ardal o ddôl heli lwerydd y rhagfynegir y bydd dyddodion nitrogen yn effeithio arni yn ystod gweithredu?</p>
--	--	--	--

		<p>253] i'r casgliad y byddai effeithiau cadarnhaol y mesurau lliniaru hyn yn gwrthbwysu'r effeithiau botanegol o'r dyddodion nitrogen gweithredol a ragfynegir ar ACA, AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy.</p> <p>Yn ei RR, holodd NE [RR-026] (NE47) a roddwyd unrhyw gyfiawnhad i esbonio pam mae'r mesurau a gynigir yn fesurau lliniaru ac nid digolledu gan na fyddai'r cynigion yn atal y posibilrwydd o golli/ difrodi'r cynefin yr effeithir arno gan ddyddodion nitrogen yn uniongyrchol. O ganlyniad, daeth NE [RR-026] i'r casgliad na ddarparwyd digon o dystiolaeth i gyfiawnhau na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn arwain at AEol.</p> <p>Roedd CNC [RR-027] [REP1-072] yn ansicr hefyd a ddylai'r mesurau arfaethedig gael eu hystyried yn fesurau lliniaru neu ddigolledu.</p> <p>Wrth ymateb i b'un a yw'r mesurau a gynigir yn fesurau lliniaru neu ddigolledu, amlinellodd yr ymgeisydd [REP1-062] y dylai'r cilio a reolir i alluogi'r ddôl heli lwerydd i fudo'n naturiol gael ei ystyried yn fesur lliniaru oherwydd byddai'n lleihau colledion dôl heli lwerydd hirdymor yn Aber Afon Dyfrdwy o ganlyniad i wasgfa arfordirol ac yn sicrhau na fyddai colled net o ddôl heli lwerydd trwy alluogi'r ardal bresennol i ehangu tua'r tir. Nododd yr ymgeisydd [REP1-062] hefyd fod ystyriaeth yn cael ei rhoi i sylwadau ynglŷn â dosbarthu ymestyn rheolaeth ardaloedd cadwraeth Cei Connah yn fesur lliniaru.</p> <p>Nododd yr ExA [PD-012] fod y RIHRA [APP-253] yn dibynnu ar yr un mesurau i wrthbwysu effaith ecolegol dyddodion nitrogen yn ystod gweithredu yn ogystal â rheoli colli dôl heli lwerydd yn ystod adeiladu (e.e. ymestyn hyd rheoli'r ddôl heli lwerydd o fewn ardaloedd cadwraeth presennol Cei</p>	
--	--	---	--

		<p>Connah a reolir gan yr ymgeisydd a chaniatáu i brosesau arfordirol naturiol ailddechrau i'r de o'r orsaf bŵer bresennol er mwyn arafu gwasgfa arfordirol yn sylweddol). Fel yr amlinellir ym mlwch 3.1.3 uchod, roedd yr ExA o'r farn bod y mesurau hyn yn gyfystyr â digolledu o ran y llwybr effaith colli cynefin yn uniongyrchol ac, o ganlyniad, gofynnodd yr ExA [PD-012] (ExQ1.6.18) i'r ymgeisydd ddarparu achos rhanddirymiaidau ar sail heb ragfarnu, atodlenni DCO heb ragfarnu a Chynllun(iau) Gweithredu a Monitro digolledu heb ragfarnu ynglŷn â'r llwybr effaith llygredd atmosfferig ar ACA, AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy.</p> <p>Gofynnodd CNC [REP2-072] hefyd i effeithiau llygredd atmosfferig ar ACA, AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy gael eu hystyried mewn achos rhanddirymiaidau wedi'i ddiweddarau.</p> <p>Wrth ymateb i ExQ1.6.18 [PD-012], esboniodd yr ymgeisydd [REP3-059] nad oedd wedi nodi'r ardal cilio a reolir fel mesur digolledu ar gyfer llygredd atmosfferig am y rhesymau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nid oedd yr ymgeisydd [REP3-059] o'r farn bod yr ardal cilio a reolir yn 'digolledu' unrhyw effeithiau. Dywedodd yr ymgeisydd nad yw'n 'creu' morfa heli newydd ond yn dileu rhwystr artiffisial a chaniatáu i brosesau arfordirol naturiol ailddechrau mewn ardal bresennol o forfa heli.</li> <li>• Cynigiodd yr ymgeisydd [REP3-059] gilio a reolir fel mesur lliniaru ar gyfer colli cynefin yn uniongyrchol ar gyfer yr ollyngfa dŵr wyneb newydd. Eglurodd yr ymgeisydd [REP3-059] nad yw effeithiau ar ansawdd aer yn sbarduno'r gofyniad am gilio a reolir.</li> </ul>	
--	--	--	--

		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Esboniodd yr ymgeisydd [REP3-059] y byddai cilio a reolir yn galluogi ardal fwy o ddôl heli lwerydd i barhau ac, yn sgil hynny, gwrthbwysu effeithiau negyddol ar ansawdd aer “<i>a allai godi neu beidio</i>”.</li> </ul> <p>Er gwaethaf yr uchod, ymrwymodd yr ymgeisydd i ddarparu achos rhanddirymiadau wedi'i ddiweddarau [PDA-003] erbyn D4 i ystyried llygredd atmosfferig.</p> <p>Croesawodd CNC [REP3-062] a NE [REP3-061] gynnwys effeithiau ar ansawdd aer yn yr achos rhanddirymiadau [PDA-003].</p> <p>Darparodd yr ymgeisydd achos rhanddirymiadau wedi'i ddiweddarau [REP4-078] sy'n ystyried llygredd atmosfferig ar ACA, AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy yn ystod gweithredu'r datblygiad arfaethedig. Rhoddodd yr achos rhanddirymiadau wedi'i ddiweddarau [REP4-078] ddisgrifiad o'r AEol posibl, y dewisiadau amgen a ystyriwyd, achos Rhesymau Hanfodol er Budd Cyhoeddus Tra Phwysig (IROPI) a'r mesurau digolledu angenrheidiol a monitro perthnasol.</p> <p>Nododd NE [REP4-072] ei fod yn parhau i gredu bod y mesurau a ddisgrifir i fynd i'r afael â cholli dôl heli lwerydd yn barhaol yn gyfystyr â digolledu o dan y Rheoliadau Cynefinoedd. Ildiodd NE [REP4-072] yr effaith hon i gyngor CNC gan y bydd yr effaith ar ochr Cymru o Aber Afon Dyfrdwy.</p> <p>Roedd CNC [REP4-091] yn parhau i bryderu ynglŷn â dyddodion nitrogen ar y cynefin dôl heli lwerydd. Nododd CNC [REP4-091] fod newidiadau wedi'u gwneud i bamedrau ffynonellau allyriadau amrywiol, gan gynnwys newidiadau i uchder staciau a llif cyfaint bwydo 1 yr HRSG</p>	
--	--	--	--

		<p>(m<sup>3</sup>/s), sydd wedi arwain at fân newidiadau i'r lefelau rhagfynedig ond nad ydynt yn newid casgliadau'r asesiad.</p> <p>Gan gyfeirio at y RIHRA wedi'i ddiweddarau [CR1-105], dywedodd CNC [REP4-091] fod y cyfraniad proses dyddodion nitrogen unigol ac ar y cyd rhagfynedig wedi gostwng yn dilyn y cais am gael gwneud newid; fodd bynnag, nid yw'r ymgeisydd wedi gwneud unrhyw newidiadau i'r ardal ragfynedig o ddôl heli lwerydd yr effeithir arni.</p> <p>Mae'r SoCG rhwng yr ymgeisydd a CNC [REP4-062] yn dangos bod y mater hwn heb ei ddatrys.</p>	
3.3.3	<p><b>Gweithredu</b> Allyriadau staciau – ardaloedd cadwraeth Cei Connah</p>	<p>Holodd CNC [RR-027] a yw parhau â'r cytundeb rheoli ar gyfer y 26 ha o dir a reolir ar hyn o bryd yn ardaloedd cadwraeth Cei Connah yn dilyn datgomisiynu'r hen orsaf bŵer yn fesur lliniaru newydd pwrpasol ar gyfer llygredd atmosfferig. Esboniodd CNC [RR-027] fod y cytundeb rheoli presennol yn ofyniad cyfreithiol o'r cydsyniad Adran 36 ar gyfer Gorsaf Bŵer bresennol Cei Connah ac fe'i sefydlwyd i wasanaethu diben cadwraeth ehangach ar y safle. Eglurodd CNC [RR-027] y byddai'r cytundeb hwn yn cael ei ddisodli gan fersiwn wedi'i diweddarau yn dilyn datgomisiynu'r hen orsaf bŵer sut bynnag, ac y byddai CNC yn disgwyl hyn ni waeth am yr effaith llygredd atmosfferig a amlygwyd ar y ddôl heli lwerydd.</p> <p>Cydnabu'r ymgeisydd [REP1-062] [REP3-029] fod CNC yn croesawu diweddariadau i gynllun rheoli ardaloedd cadwraeth Cei Connah. Fodd bynnag, nid yw'r ymgeisydd wedi gwneud sylwadau pellach ar y pryderon a godwyd gan CNC ynglŷn â ph'un a yw parhau i reoli'r ardaloedd</p>	<p><b>RQ.50 [At yr ymgeisydd] A all yr ymgeisydd esbonio pam mae'n ystyried bod parhau i reoli ardaloedd cadwraeth Cei Connah yn dilyn datgomisiynu'r hen orsaf bŵer yn fesur lliniaru newydd ar gyfer yr effeithiau ar ACA, AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy o lygredd atmosfferig yn ystod gweithredu'r datblygiad arfaethedig?</b></p>

		<p>cadwraeth yn dilyn datgomisiynu'r hen orsaf bŵer yn fesur lliniaru newydd ar gyfer llygredd atmosfferig.</p> <p>Mae CNC [REP4-091] yn fodlon at ei gilydd ar y mesurau rheoli presennol o fewn cynllun rheoli ardaloedd cadwraeth presennol Cei Connah. Mae CNC [REP4-091] yn disgwyl i gynllun rheoli ardaloedd cadwraeth newydd gael ei roi ar waith ar hyd oes y datblygiad arfaethedig a fyddai'n cynnwys yr elfennau rheoli cadwraeth presennol, ac unrhyw elfennau newydd sy'n gysylltiedig â'r datblygiad arfaethedig. Croesawodd CNC [REP4-091] gadarnhad yr ymgeisydd y byddai'r cynllun rheoli ardaloedd cadwraeth wedi'i ddiweddarau yn cael ei baratoi fel mesur dylunio ymgorfforedig a'i gyflwyno i FCC a CNC ar gyfer cymeradwyaeth cyn i'r datblygiad arfaethedig ddechrau gweithredu.</p>	
3.3.4	<p><b>Gweithredu</b> Allyriadau staciau – digonolrwydd cilio a reolir</p>	<p>Roedd CNC [RR-027] o'r farn bod y cynnig ailalinio a reolir ar gyfer 1,300m<sup>2</sup> o dir yn annigonol i liniaru effeithiau dyddodion nitrogen ar gyfansoddiad rhywogaethau o leiaf 245 ha o'r ddôl heli lwerydd yr effeithir arni (445 ha yn sgil effaith ar y cyd).</p> <p>Esboniodd yr ymgeisydd [REP1-062] ei fod o'r farn bod ardal o 1,300m<sup>2</sup> yn ddigonol i liniaru effeithiau dyddodion nitrogen ar gyfansoddiad rhywogaethau 245 ha o ddôl heli lwerydd oherwydd er bod yr ardal yn fawr, mae'r ymgeisydd yn ystyried y byddai'r effeithiau botanegol yn fach.</p> <p>Amlinellodd yr ymgeisydd [REP1-062] hefyd efallai na fydd yr effeithiau botanegol yn codi'n ymarferol o ganlyniad i ffactorau eraill fel rheolaeth bresennol, cyfraddau dyddodion nitrogen cefndirol uchel presennol a gorlif llanw sy'n cyfyngu</p>	<p><b>RQ.51 [At CNC a'r ymgeisydd] A all CNC a'r ymgeisydd roi diweddariad ar y trafodaethau gyda CNC ynglŷn â gwelliannau pellach i gynefinoedd i gyfrannu at fesurau lliniaru ychwanegol? Ac a all yr ymgeisydd esbonio sut byddai'r mesurau hyn yn cael eu sicrhau?</b></p> <p><b>RQ.52 [At CNC] A all CNC roi manylion y mesurau lliniaru</b></p>

		<p>ar allu rhywogaethau mwy cystadleuol i ddod yn fwy toreithiog.</p> <p>Nododd yr ymgeisydd [REP1-062] ei fod yn fodlon ystyried gwelliannau eraill i gynefinoedd, a amlygwyd gan CNC, sy'n ofynnol ar gyfer y ddôl heli lwerydd yn Aber Afon Dyfrdwy y gallai'r ymgeisydd gyfrannu atynt fel mesurau lliniaru ychwanegol. Cyfeiriodd yr ymgeisydd [REP1-062] hefyd at drafodaethau gyda CNC ynglŷn â phrosiect monitro, "<i>cydleoili monitro cyflwr ecolegol y morfa heli â monitro ansawdd aer (crynodiad a dyddodion)</i>" er mwyn deall effeithiau gwirioneddol nitrogen atmosfferig o'r datblygiad arfaethedig a diwydiant amgylchynol Glannau Dyfrdwy ar ACA Aber Afon Dyfrdwy yn well.</p> <p>Ailadroddodd CNC [REP2-023] nad yw'n credu bod y mesurau lliniaru/ digolledu arfaethedig presennol yn ddigonol i osgoi neu leihau effaith mwy o ddyddodion nitrogen a chynghorodd fod angen mesurau lliniaru ychwanegol.</p> <p>Amlinellodd y RIHRA wedi'i ddiweddarau [REP4-054] fod yr ardal arfaethedig o ddôl heli lwerydd sydd i'w chreu yn sgil cilio a reolir wedi cael ei chynyddu i ardal o 1,300m<sup>2</sup>. Fodd bynnag, ni roddwyd gwybodaeth am fesurau lliniaru ychwanegol neu ofynion monitro erbyn D4.</p> <p>Nododd CNC [REP4-091] fod y cilio a reolir yn 0.32% yn unig o'r ardal yr effeithir arni gan fwy o ddyddodion nitrogen o'r datblygiad arfaethedig. O ganlyniad, roedd CNC [REP4-091] yn parhau i gredu bod y cilio a reolir arfaethedig yn annigonol i liniaru effeithiau dyddodion nitrogen.</p>	<p><b>ychwanegol y mae'n eu ceisio?</b></p> <p><b>RQ.53 [At yr ymgeisydd] A all yr ymgeisydd roi diweddariad ar y trafodaethau gyda CNC ynglŷn â'r prosiect monitro a godwyd yn [REP1-062] a sut byddai'r canlyniadau monitro'n llywio'r broses o reoli ailalinio'r ddôl heli lwerydd?</b></p>
3.3.5	<b>Gweithredu</b>	Holodd CNC [RR-027] a fyddai'r ardal newydd ei chreu o ddôl heli lwerydd yn dioddef effeithiau ansawdd aer tebyg i'r	Dd/B

	<p>Allyriadau staciau – effeithiau ar y ddôl heli lwerydd a grëwyd</p>	<p>rhai a ragfyneir ar gyfer y cynefin mewn rhannau eraill o ACA, AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy.</p> <p>Dywedodd yr ymgeisydd [REP1-062] er y byddai'r ardal 1,300m<sup>2</sup> arfaethedig o ddôl heli lwerydd yn ddarostyngedig i ddyddodion nitrogen, byddai'n galluogi ardal gyfan o'r cynefin i barhau a fyddai'n cael ei cholli fel arall i wasgfa arfordirol.</p> <p>Fel yr amlinellir ym mlwch 3.3.4 uchod, byddai'r ymgeisydd [REP1-062] hefyd yn ystyried gwelliannau eraill i'r cynefin dôl heli lwerydd yn Aber Afon Dyfrdwy a amlygwyd gan CNC yn ogystal â phrosiect monitro ecolegol ac ansawdd aer.</p> <p>Ni roddwyd gwybodaeth am fesurau lliniaru ychwanegol neu ofynion monitro erbyn D4. Fodd bynnag, cynyddwyd yr ardal cilio a reolir i 1,300m<sup>2</sup> yn y RIHRA wedi'i ddiweddarau [REP4-054].</p> <p>Dywedodd CNC [REP4-091] y byddai'r ardal cilio a reolir yn derbyn yr un cyfraddau dyddodion uwch ac ailadroddodd ei bryderon ynglŷn ag effeithiau ansawdd aer ar ddôl heli lwerydd newydd ei chreu.</p>	
<p>3.3.6</p>	<p><b>Gweithredu</b> Allyriadau staciau – mesurau lliniaru/ digolledu ar gyfer rhan Lloegr o ACA, AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy</p>	<p>Gofynnodd NE [RR-026] (NE47) am fwy o eglurder ynglŷn â ph'un a fyddai'r mesurau arfaethedig yn mynd i'r afael ag unrhyw effeithiau ar ran Lloegr o ACA, AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy.</p> <p>Wrth ymateb i ExQ1.6.19 [PD-012], esboniodd yr ymgeisydd [REP3-059] fod y safleoedd Ewropeaidd wedi cael eu trin yn eu cyfanrwydd ac er bod y mesurau lliniaru arfaethedig wedi'u lleoli yng Nghymru, byddent yn gwrthbwysu effeithiau ansawdd aer ar draws holl ardal ACA, AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy.</p>	<p>Dd/B – mater wedi'i ddatrys.</p>

		<p>Dywedodd NE [REP4-072] gan y byddai'r effaith hon wedi'i chyfyngu i ochr Cymru o Aber Afon Dyfrdwy, ei fod yn ildio i gyngor CNC ar yr asesiad o lygredd atmosfferig yn ACA, AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy.</p> <p>Dangosodd y SoCG rhwng NE a'r ymgeisydd [REP4-072] fod y mater hwn wedi cael ei ddatrys.</p>	
<b>ACA Safleoedd Madfallod Dŵr Glannau Dyfrdwy a Bwcle</b>			
3.3.7	<b>Gweithredu</b> Mesurau lliniaru – gweithredu cyfraniad ariannol	<p>Daeth y RIHRA [APP-253] i'r casgliad y byddai'r llwyth critigol ar gyfer dyddodion nitrogen a'r lefel gritigol ar gyfer amonia mewn perthynas â nodwedd gymwys cynefin coedydd deri ACA Safleoedd Madfallod Dŵr Glannau Dyfrdwy a Bwcle yn cael eu torri gan gyfanswm y crynodiadau amonia a'r cyfraddau dyddodion nitrogen yn ystod gweithredu'r datblygiad arfaethedig.</p> <p>Esboniodd y RIHRA [APP-253] na fyddai mesurau lliniaru ar ffurf gwelliannau pellach i brosesau a newidiadau i uchder staciau yn lleihau dyddodion nitrogen i lai nag 1% o'r llwyth critigol ar gyfer y cynefin coedydd deri ac nad yw cyfyngu ar oriau gweithredol yn fasnachol hyfyw. Fel y cyfryw, daeth y RIHRA [APP-253] i'r casgliad mai'r ffordd fwyaf priodol a chymesur o liniaru'r effeithiau ar yr ACA yw gwneud darpariaeth ariannol i reolwyr safle ACA Safleoedd Madfallod Dŵr Glannau Dyfrdwy a Bwcle i fynd i'r afael ag unrhyw gynnydd yn y baich rheoli coetir a allai godi o ganlyniad i weithredu'r datblygiad arfaethedig.</p> <p>Cytunodd CNC [RR-027] nad yw'n ymddangos bod dull ymarferol o leihau llygredd atmosfferig ymhellach o fewn cwmpas dyluniad y prosiect. Fodd bynnag, gofynnodd CNC [RR-027] am fanylion ychwanegol ynglŷn â'r ddarpariaeth</p>	<p><b>RQ.54 [At FCC] A yw FCC mewn sefyllfa i ddarparu llythyr cefnogaeth mewn egwyddor i sicrhau'r mesurau lliniaru perthnasol ar gyfer dyddodion nitrogen trwy gytundeb adran 106? Os na, esboniwch ba wybodaeth ychwanegol y mae ar FCC ei hangen.</b></p>

		<p>ariannol i sicrhau y gellir ei sicrhau a'i gweithredu'n effeithiol.</p> <p>Nododd yr ymgeisydd [REP1-062] fod y cyfraniad ariannol yn cael ei drafod gydag FCC ac y bydd yn cael ei sicrhau mewn cytundeb adran 106 a'i lofnodi cyn diwedd yr archwiliad. Yn ISH2, dywedodd yr ymgeisydd [REP1-066] fod dogfen ddrafft wedi cael ei rhannu gydag FCC.</p> <p>Gofynnodd yr ExA [PD-012] (ExQ1.6.24) i'r ymgeisydd esbonio pam y dewiswyd cytundeb Adran 106 fel y dull mwyaf priodol o sicrhau'r mesur lliniaru hwn. Gofynnodd yr ExA [PD-012] (ExQ1.6.25 ac ExQ1.6.26) hefyd i CNC ac FCC gadarnhau a ydynt yn fodlon ar y dull o sicrhau'r mesur lliniaru.</p> <p>Roedd yr ymgeisydd [REP3-059] o'r farn bod cytundeb adran 106 yn ddull priodol o sicrhau'r cyfraniad ariannol oherwydd ei fod yn bodloni'r profion polisi perthnasol (gan gynnwys y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Ynni (NPS EN-1) a'i fod yn ymwneud â'r datblygiad arfaethedig mewn modd teg a rhesymol o ran math a maint). Esboniodd yr ymgeisydd [REP3-059] hefyd y defnyddiwyd cytundeb adran 106 i sicrhau bod arian yn cael ei dalu ar gyfer cytundebau a luniwyd ar gyfer Fferm Solar Longfield a Phrosiect C Sizewell.</p> <p>Cadarnhaodd CNC [REP3-062] (Q1.6.25) fod cytundeb adran 106 yn ddull priodol o sicrhau'r mesurau lliniaru perthnasol ac mae wedi gwneud sylwadau ar gopi drafft o'r mesurau rheoli safle ychwanegol y bwriedir eu sicrhau trwy gytundeb adran 106.</p> <p>Wrth ymateb i ExQ1.6.26 [PD-012], nododd FCC [REP3-060], o safbwynt cyfreithiol, y gellir sicrhau'r mesurau lliniaru perthnasol trwy gytundeb adran 106 a chadarnhaodd fod</p>	
--	--	--	--

		<p>FCC wedi derbyn cytundeb adran 106 drafft i'w adolygu. Cyngorodd FCC [REP3-060] ei fod yn aros am drafodaeth ffurfiol gyda'r ymgeisydd cyn darparu llythyr cefnogaeth mewn egwyddor i sicrhau'r mesurau lliniaru trwy gytundeb adran 106.</p> <p>Dywedodd yr ymgeisydd [REP4-062] fod cytundeb rheoli drafft wedi'i brisio gydag FCC i gyflawni'r mesurau lliniaru angenrheidiol ar gyfer dyddodion nitrogen wedi cael ei gynhyrchu ac y bydd yn cael ei rannu gyda CNC.</p> <p>Erbyn D4, cyflwynodd yr ymgeisydd Weithred Rhwymedigaethau Cydsyniad Datblygu ddrafft [REP4-088] i'r archwiliad i sicrhau'r mesurau lliniaru perthnasol ar gyfer dyddodion nitrogen.</p>	
3.3.8	<b>Gweithredu</b> Mesurau lliniaru – amonia	<p>Cyngorodd CNC [REP1-073] nad yw'r mesurau lliniaru arfaethedig ar gyfer dyddodion nitrogen yn mynd i'r afael ag effeithiau posibl amonia ar ACA Safleoedd Madfallod Dŵr Glannau Dyfrdwy a Bwcle. Fodd bynnag, dywedodd CNC [REP1-073] hefyd fod nodweddion planhigion is sensitif y cynefin coedydd deri eisoes wedi cael eu colli ac y gallai lefel gritigol o <math>3\mu\text{g}/\text{m}^3</math> (i warchod planhigion uwch, gan gynnwys fflora ar lawr y goedwig) fod yn briodol i asesu effeithiau amonia ar yr ACA yn hytrach nag <math>1\mu\text{g}/\text{m}^3</math> os oedd gan y safle elfen bryoffyt/ cen bwysig.</p> <p>Gofynnodd yr ExA [PD-012] i'r ymgeisydd gadarnhau a yw'r mesurau lliniaru a gynigir ar gyfer dyddodion nitrogen ar yr ACA yn cael eu cynnig hefyd fel mesurau lliniaru ar gyfer yr effeithiau botanegol sy'n gysylltiedig â mwy o amonia.</p> <p>Esboniodd yr ymgeisydd [REP3-059], fel y nodwyd gan CNC [REP1-073], mai'r lefel gritigol briodol ar gyfer amonia fyddai <math>3\mu\text{g}/\text{m}^3</math> yn hytrach na <math>1\mu\text{g}/\text{m}^3</math> ac felly ni ddisgwylir i</p>	Dd/B – mater wedi'i ddatrys.

		<p>allyriadau amonia yn ystod gweithredu'r datblygiad arfaethedig fynd yn fwy na'r lefel gritigol uwch. Cynghorodd yr ymgeisydd [REP3-059] fod unrhyw amonia yn yr ACA yn ffynhonnell nitrogen ac yn cael ei ddal trwy ystyried dyddodion nitrogen a'r mesurau lliniaru arfaethedig. Felly, cadarnhaodd yr ymgeisydd [REP3-059] nad oes angen unrhyw fesurau lliniaru ar gyfer allyriadau amonia ar yr ACA. Cadarnhaodd CNC [REP4-091] ei fod yn fodlon bod y lefel gritigol uwch o 3µg/m³ yn briodol a'i fod o'r farn bod casgliadau'r ymgeisydd yn glŷn ag amonia yn ACA Safleoedd Madfallod Dŵr Glannau Dyfrdwy a Bwcle yn dderbyniol.</p>	
3.3.9	<p><b>Gweithredu</b> Cyfraniad ariannol – mesur lliniaru neu ddigolledu</p>	<p>Cynghorodd CNC [RR-027] fod y ddarpariaeth ariannol arfaethedig ar gyfer rheoli ACA Safleoedd Madfallod Dŵr Glannau Dyfrdwy a Bwcle yn ymddangos fel petai'n fesur digolledu yn hytrach na lliniaru gan na fyddai'n osgoi nac yn lleihau unrhyw effeithiau niweidiol ar yr ACA.</p> <p>Nododd yr ymgeisydd [REP1-062] nad y cynnydd mewn dyddodion nitrogen fyddai'r effeithiau posibl ar yr ACA yn sgil gweithredu'r datblygiad arfaethedig ond y newidiadau botanegol canlyniadol. Esboniodd yr ymgeisydd [REP1-062] y byddai'r ddarpariaeth ariannol arfaethedig naill ai'n gwrthbwysu'r cynnydd bach yn y baich rheoli neu'n gwneud y safle'n fwy gwydn rhag dyddodion nitrogen. Daeth yr ymgeisydd [REP1-062] i'r casgliad y byddai'r ddarpariaeth ariannol arfaethedig yn osgoi neu'n lleihau'r effeithiau botanegol niweidiol ar yr ACA (yn hytrach na'r effaith) ac felly y dylid ei hystyried yn fesur lliniaru.</p> <p>Wrth ymateb i ExQ1.6.23 [PD-012], cadarnhaodd CNC [REP3-062] ei fod yn fodlon bod y mesurau cyfraniad ariannol arfaethedig i leihau effaith dyddodion nitrogen uwch</p>	Dd/B – mater wedi'i ddatrys.

		ar y cynefin coedydd deri yn fesur lliniaru yn hytrach na digolledu.	
3.3.10	<b>Gweithredu</b> Mesurau lliniaru – uchder staciau	<p>Mae cais am gael gwneud newid yr ymgeisydd [AS-005] [AS-006] yn cynnig lleihau'r paramedrau uchafswm uchder staciau o 150m.</p> <p>Gofynnodd yr ExA [PD-012] i'r ymgeisydd esbonio a allai gostwng uchder staciau gynyddu amonia a/ neu gyfraddau dyddodion nitrogen a newid y mesurau lliniaru sy'n ofynnol i osgoi AEol ar ACA Safleoedd Madfallod Dŵr Glannau Dyfrdwy a Bwcle.</p> <p>Dywedodd yr ymgeisydd [REP3-059] na fyddai'r cynnig i ostwng uchder staciau a newidiadau eraill cysylltiedig i osodiad y safle ar gyfer yr holl opsiynau bwydo yn newid maint yr effeithiau a adroddwyd ar grynodiadau amonia a chyfraddau dyddodion nitrogen.</p> <p>Esboniodd yr ymgeisydd [REP3-059], yn dibynnu ar yr opsiwn bwydo, y gallai gostwng uchder y staciau CCP a newidiadau eraill cysylltiedig i osodiad y safle leihau dyddodion nitrogen ac amonia ychydig yn ACA Safleoedd Madfallod Dŵr Glannau Dyfrdwy a Bwcle. Esboniodd yr ymgeisydd [REP3-059] hefyd, gan y byddai'r datblygiad arfaethedig yn gallu bodloni'r Lefelau Allyriadau Cysylltiedig sy'n deillio o'r Technegau Gorau sydd ar Gael (AELau BAT) ar gyfer allyriadau NOx heb ofyniad am Leihau Catalytig Detholus (SCR) wrth weithredu'n ddireolaeth ac allyrru trwy'r staciau HRSG, byddai'r unig ffynhonnell allyriadau amonia'n cael ei dileu o ganlyniad, gan leihau maint effeithiau amonia a dyddodion nitrogen a adroddwyd.</p>	<p><b>RQ.55 [At CNC] O ystyried diweddariadau i'r RIHRA [REP4-054] o ganlyniad i'r newidiadau a wnaed i baramedrau ffynonellau allyriadau, a yw CNC yn fodlon bod y mesurau arfaethedig i liniaru effeithiau dyddodion nitrogen ar ACA Safleoedd Madfallod Dŵr Glannau Dyfrdwy a Bwcle yn ddigonol? Os na, esboniwch ba wybodaeth ychwanegol sy'n ofynnol.</b></p>

**Tabl 3.4: Sŵn ac aflonyddu gweledol – Materion a godwyd yn yr archwiliad hyd yma gan yr ExA a phartion â buddiant ynglŷn ag asesiad yr ymgeisydd o effeithiau ar gyfanrwydd (yn unigol ac ar y cyd)**

ID	Llwybr effaith posibl	Manylion y mater	Sylw / cwestiwn yr ExA
<b>AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy</b>			
3.4.1	<p><b>Adeiladu/ datgomisiynu</b> Aflonyddwch sŵn – dull asesu</p>	<p>Roedd NE [RR-026] (NE17) yn anghytuno â dull yr ymgeisydd o asesu sŵn a gofynnodd am fwy o eglurder i ddangos pa waith fydd yn achosi effaith. Gofynnodd NE hefyd am asesiad pellach o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• y gwaith cysylltiad dŵr</li> <li>• gwaith galluogi cyfadeilad 1</li> <li>• gwaith galluogi cyfadeilad 2</li> <li>• gweithredu offer gosod seilbyst dan orchudd yn y brif ardal ddatblygu</li> </ul> <p>Eglurodd yr ymgeisydd [REP1-062] fod yr asesiad yn defnyddio trothwy aflonyddu 60dB a gytunwyd gyda CNC, ac oherwydd bod yr holl ardaloedd yr effeithir arnynt wedi'u lleoli yng Nghymru, roedd o'r farn bod hynny'n briodol.</p> <p>Cadarnhaodd yr ymgeisydd [REP1-062], ar yr amod bod y ffens acwstig 3m arfaethedig yn cael ei gosod fel mesur lliniaru, byddai'r gwaith galluogi safle, y prif waith sifil a'r gwaith gosod offer oll yn cynhyrchu sŵn ar lefel lai na 60dB LAeq/ Lamax.</p> <p>Amlinellodd yr ymgeisydd [REP1-062] gan fod y gwaith cysylltiad dŵr a'r ollyngfa dŵr wyneb</p>	<p><b>RQ.56 [At CNC] A yw CNC yn fodlon ar ddull a chasgliadau'r ymgeisydd o ran yr asesiad o aflonyddwch sŵn ar nodweddion cymwys AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy yn ystod adeiladu'r datblygiad arfaethedig? Os na, rhwch resymau ac amlinellwch yn glir gamau penodol y credwch y dylai'r ymgeisydd eu cymryd i ddatrys pryderon sy'n weddill ynglŷn â'r mater hwn.</b></p>

		<p>arfaethedig wedi'u lleoli o fewn yr AGA, na fyddai ffens acwstig yn bosibl. Fodd bynnag, byddai'r gwaith hwn yn ddarostyngedig i gyfyngiadau tymhorol i liniaru LSE posibl ac osgoi AEol ar y safleoedd Ewropeaidd [REP1-062].</p> <p>Dywedodd yr ymgeisydd [REP1-062] hefyd, o ran gwaith galluogi cyfadeilad 1, gwaith galluogi cyfadeilad 2, gosod offer yn y brif ardal ddatblygu, gwaith galluogi yn y brif ardal ddatblygu a gweithredu offer gosod seilbyst dan orchudd, byddai lefelau sŵn yn yr AGA yn fwy na 60dB hyd yn oed gyda mesurau lliniaru. Nododd yr ymgeisydd [REP1-062] mai'r senario achos gwaethaf yw hwn a bod y lefelau sŵn wedi'u modelu gyda'r offer ar ffin yr AGA.</p> <p>Esboniodd yr ymgeisydd [REP1-062] y byddai'r trothwyon sŵn yn cael eu torri am gyfnodau byr yn unig, dros ardal fach o'r AGA, ac na fyddai'r lefelau sŵn yn anghydnaws â'r lefelau sŵn sylfaenol presennol. Ychwanegodd yr ymgeisydd [REP1-062] na fyddai unrhyw aflonyddwch tymor byr yn arwain at newidiadau i wasgariad rhywogaethau ac ni amlygwyd bod unrhyw brosiectau eraill sy'n creu effeithiau sŵn yn y lleoliadau yr effeithir arnynt ar yr un adeg â'r datblygiad arfaethedig. O ganlyniad, daeth yr ymgeisydd [REP1-062] i'r casgliad na fyddai 'aflonyddwch sylweddol', fel y'i diffinnir gan Gytundeb ar Gadwraeth Adar Dŵr Mudol Affricanaidd-Ewrasiaidd 2016, yn codi.</p>	
--	--	---	--

		<p>Yn ei RR, cytunodd CNC [RR-027] â defnyddio rhwystr acwstig a mesurau rheoli adeiladu i sicrhau y byddai sŵn adeiladu'n aros islaw'r trothwy 60dB. Roedd CNC [RR-027] hefyd yn fodlon ar y cynnig i weithredu cyfyngiadau tymhorol ar wneud gwaith y tu hwnt i'r rhwystr acwstig.</p> <p>Yn y SoCG rhwng NE a'r ymgeisydd, cytunodd NE [REP3-059] fod y modelu sŵn yn dangos na fyddai effeithiau sŵn ar ran Lloegr o ACA, AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy a'i fod yn fodlon nad oedd angen ystyried yr effaith hon ymhellach.</p> <p>Nid yw CNC wedi darparu sylwadau ychwanegol yng ngoleuni'r wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan yr ymgeisydd [REP1-062] erbyn dyddiad cau 1 i ymateb i NE17. Mae'r SoCG rhwng yr ymgeisydd a CNC [REP3-029] hefyd yn dangos bod y mater hwn yn parhau i gael ei drafod.</p>	
3.4.3	<p><b>Adeiladu/ datgomiynu</b> Aflonyddwch sŵn – symudiadau badau camlas</p>	<p>Datganodd paragraff 10.2.112 y RIHRA [APP-253] y byddai symudiadau badau camlas yn dwysáu yn ystod adeiladu ond na fyddai “<i>gwahaniaeth ystyrion</i>” i'r amodau sŵn cefndir.</p> <p>Gofynnodd NE [RR-026] (NE14) am fwy o wybodaeth i gefnogi'r casgliad hwn, gan gynnwys gwybodaeth i bennu graddau'r newid ac ymateb posibl adar i fadau camlas sy'n mynd heibio.</p>	<p><b>RQ.57 [At yr ymgeisydd]</b> <b>A all yr ymgeisydd egluro ystyr “gwahaniaeth ystyrion” ac esbonio pam, gan gyfeirio at symudiadau amcangyfrifedig badau camlas yn ystod adeiladu, na fyddai dwysâd o ran symudiadau badau</b></p>

